**The First Secretary:** It is very sad that Rod Richards brings some of the worst habits of Westminster politics into his questions in this Chamber. I would regard it as an injection of comedy if it were not so serious. We took over a health service in a state of chaos: under-funded, demoralised and badly organised. John Redwood had stripped out from the Welsh Office levels of management that are essential to the good order of the health service in the same way that he had sent money back to Westminster. It was totally irresponsible and we have been paying the price for that. I have taken a personal interest in the organisation of the health service since I took office. As a result, I have realised how dire was the situation that we inherited two years ago. Everybody knew it was bad but we did not realise how bad it was. The divisive, competitive nature of different units fighting against each other instead of working together, led to longer-term problems than we ever imagined. I have given priority to making a personal commitment to solve the problem. Jane Hutt has picked that up immediately and Assembly Members, across some of the party divides, have already accepted that we need to work together to get the NHS working for the people of Wales. That is the way forward.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'n drist iawn bod Rod Richards yn dod â rhai o arferion gwaethaf gwleidyddiaeth San Steffan i'w gwestiynau yn y Siambr hon. Byddwn yn ei ystyried yn chwistrelliad o gomedi pe na bai mor ddifrifol. Fe gymerwyd y gwasanaeth iechyd drosodd gennym pan oedd mewn cyflwr o anhrefn—wedi ei dangyllido, wedi ei ddigalonni a'i drefnu'n wael. Yr oedd John Redwood wedi clirio o'r Swyddfa Gymreig y lefelau rheoli sydd yn angenrheidiol ar gyfer trefn dda yn y gwasanaeth iechyd yn yr un modd ag yr oedd wedi anfon arian yn ôl i San Steffan. Yr oedd hynny'n gwbl anghyfrifol a buom yn talu'r pris am hynny. Yr wyf wedi ymddiddori'n bersonol yn nhrefniadaeth y gwasanaeth iechyd ers ymgymryd â'm swydd. Oherwydd hynny, sylweddolais mor enbyd oedd y sefyllfa a etifeddwyd gennym ddwy flynedd yn ôl. Gwyddai pawb ei bod yn ddrwg ond ni sylweddolem gyn waethed ydoedd. Yr oedd natur gystadleuol gynhennus y sefyllfa lle'r oedd gwahanol unedau'n ymladd yn erbyn ei gilydd yn lle cydweithio, wedi arwain at broblemau a fyddai'n parhau'n hwy nag yr oeddem erioed wedi dychmygu. Rhoddais flaenoriaeth i wneud ymrwymiad personol i ddatrys y broblem. Mae Jane Hutt wedi ymgymryd â hynny ar unwaith ac mae Aelodau o'r Cynulliad, ar draws rhai o'r rhaniadau pleidiol, wedi derbyn eisoes bod angen inni weithio gyda'n gilydd i gael yr NHS i weithio dros bobl Cymru. Dyna'r ffordd ymlaen.

### **Datganiad Busnes Business Statement**

**The Business Secretary, Andrew Davies:** Details of the next three weeks' business in Plenary have been posted to the Chamber web. I had an e-mail to say it was not on there but, having checked my own screen, it is there. I draw your attention to the following items of business. On Tuesday 22 June, Edwina Hart, the Finance Secretary, will make a statement about the budget-setting process. There is an additional item for Plenary on 22 June. I suggested to the Business Committee this morning that the Assembly should hold a debate on the reform of the House of Lords, and it was agreed.

**Y Trefnydd, Andrew Davies:** Mae manylion busnes y tair wythnos nesaf yn y Sesiwn Llawn wedi eu gosod ar we'r Siambr. Derbyniais neges e-bost oedd yn dweud nad oeddent arni ond, ar ôl gwirio fy sgrîn fy hun, fe welaf eu bod yno. Carwn dynnu'ch sylw at yr eitemau busnes canlynol. Ddydd Mawrth 22 Mehefin bydd Edwina Hart, yr Ysgrifennydd Cyllid, yn gwneud datganiad am y broses pennu cyllidebau. Mae eitem ychwanegol ar gyfer y Sesiwn Llawn ar 22 Mehefin. Awgrymais I'r Pwyllgor Busnes fore heddiw y dylai'r Cynulliad gynnal dadl ar ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi, ac fe gytunwyd

This debate will form the subsequent submission of Assembly evidence to the Royal Commission that is considering the reform of the Second Chamber.

The deferred election of the committees will be held in Plenary on 23 June. That is for the scrutiny and the Standing Committees. Oral questions on 23 June will be taken by Rosemary Butler, the Secretary for Under-16 Education, and by Christine Gwyther, the Secretary for Agriculture and Rural Development. You may have noted that the debate on the voluntary sector, scheduled provisionally for Plenary on Wednesday 30 June, has been deferred until later in this Assembly session. Arrangements will be made after Plenary today to place a copy of this statement and the draft agenda on the internet and intranet.

*A vote was held by show of hands.  
Business Statement adopted.*

ar hynny. Y ddadl hon fydd yn ffurfio'r dystiolaeth a gyflwynir wedyn gan y Cynulliad i'r Comisiwn Brenhinol sydd yn ystyried diwygio'r Ail Siambr

Mae'r etholiad i'r pwyllgorau, a ohiriwyd, i'w gynnal yn y Sesiwn Llawn ar 23 Mehefin. Mae hynny ar gyfer y Pwyllgor Manlyu a'r Pwyllgorau Sefydlog. Derbynnir cwestiynau llafar ar 23 Mehefin gan Rosemary Butler, yr Ysgrifennydd dros Addysg Cyn-16, a chan Christine Gwyther, yr Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Hwyrach y byddwch wedi sylwi bod y ddadl ar y sector gwirfoddol, oedd wedi ei hamserlennu dros dro ar gyfer y Sesiwn Llawn ar ddydd Mercher 30 Mehefin, wedi ei gohirio hyd adeg ddiweddarach yn y sesiwn hwn o'r Cynulliad. Gwneir trefniadau ar ôl y Sesiwn Llawn heddiw i osod copi o'r datganiad hwn a'r agenda drafft ar y rhyngwyd a'r fewnwyd.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.  
Derbyniwyd y Datganiad Busnes.*

### **Dadl ar Gyflwr y Genedl State of the Nation Debate**

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae mis wedi mynd heibio ers inni gyfarfod yma am y tro cyntaf, fel corff, i ymgymryd â'r dasg hanesyddol o lunio dyfodol newydd i'n gwlad ac i'n pobl. Mae'n amserol, felly, imi osod gerbron y Cynulliad y gwerthoedd a'r blaenoriaethau a fydd yn cynnal ac yn arwain fy ngwaith a gwaith fy Nghabinet dros y misoedd a'r blynnyddoedd sydd i ddod. Gobeithiaf y byddant yn creu sylfaen ar gyfer casgliad o egwyddorion y bydd y Cynulliad cyfan yn cytuno arnynt. Dyna fy mwriad i heddiw.

The establishment of the National Assembly for Wales is the embodiment of the hopes of many people of differing political persuasions; people who have campaigned over many years to enable the people of Wales to have a greater say in the making of key decisions that affect their everyday lives. Given that so much of our first month has been about day-to-day practicalities, it is worth reminding ourselves that we have been

**The First Secretary:** A month has gone by since we met here for the first time as the body to undertake the historic task of drawing up a new future for our people and our country. Therefore, it is timely that I should set before the Assembly the values and priorities which will sustain and steer my work and that of my Cabinet over the ensuing months and years. I hope that they will create a foundation for a collection of principles that will be agreed by the whole Assembly. That is my intention today.

Mae sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymgorffori gobeithion llawer o bobl o wahanol safbwyntiau gwleidyddol; pobl a ymgyrchodd dros flynyddoedd lawer i alluogi pobl Cymru i gael mwy o lais wrth wneud penderfyniadau sydd yn effeithio ar eu bywyd bob dydd. Gan ein bod wedi treulio cymaint o'n mis cyntaf yn ymwneud â materion ymarferol o ddydd i ddydd, mae'n werth ein hatgoffa ein hunain inni fod yn

working on the beginning of a new era for Wales. The establishment of a new local authority is allowed to last 11 months, whereas we have got up and running straight away.

Over the past few weeks, so many individuals—elected Members, officials, staff of many different organisations—have worked with great energy and enthusiasm to ensure that the Assembly is up and running. The attention not only of the people in Wales, but of the British and international media has been upon us. I believe that we have succeeded, at least in part, in reflecting to them the image of a vibrant, modern and confident Wales. The establishment of the Assembly can never be an end in itself, it must be a means to promote real improvements in the lives of people in Wales. That means a lot of hard slog as well as the celebrations and optimism. That is why we must take stock and plan ahead and, today, I will set out how I and my Cabinet colleagues see the Assembly working in practice to deliver change.

I am giving a brief introduction and setting out principles, with the intention of listening to the debate which I hope will carry the Assembly forward. In order to be as brief as possible, I refer to documents. However, I understand that they are still escaping some Assembly Members, whether they are despatched electronically or in paper form. This debate is intended to be a beginning rather than a conclusion, so I hope that will not hinder us in trying to build a consensus.

The relatively low turnout at the election on 6 May and the result of the referendum places a responsibility on us, as elected Members. The process of establishing the Assembly and developing ways of working that involve partnership and co-operation, reaching out to groups across Wales, is vital. The challenge is to show that it is not rhetoric and that we meant what we said—co-operation can last for four years, not only for a few days. That is a challenge for all parties in the Assembly. However, as we

gweithio ar ddechrau cyfnod newydd i Gymru. Caniateir 11 mis ar gyfer sefydlu awdurdod lleol newydd, tra'r ydym ni wedi dechrau ar ein gwaith ar unwaith.

Dros yr wythnosau diwethaf hyn, mae nifer fawr o unigolion—yn Aelodau etholedig, swyddogion, staff llawer o gyrff gwahanol—wedi gweithio ag egni a brwdfrydedd mawr i sicrhau bod y Cynulliad yn dechrau ar ei waith. Yr ydym wedi derbyn sylw nid yn unig gan bobl Cymru, ond gan y cyfryngau Prydeinig a rhyngwladol. Credaf inni lwyddo, yn rhannol o leiaf, i ddangos iddynt ddelwedd o Gymru egniol, modern a hyderus. Ni all sefydlu'r Cynulliad byth fod yn nod ynddo'i hun, rhaid iddo fod yn fodd i hybu gwelliannau gwirioneddol ym mywydau pobl yng Nghymru. Mae hynny'n golygu llawer o waith caled yn ogystal â'r dathliadau a'r optimistaeth. Dyna pam y mae'n rhaid inni bwysu a mesur a chynllunio ymlaen a, heddiw, byddaf yn egluro sut yr wyf fi a'm cydweithwyr yn y Cabinet yn rhagweld y bydd y Cynulliad yn gweithio'n ymarferol i ddod â newid.

Byddaf yn rhoi cyflwyniad byr ac yn gosod egwyddorion, gyda'r bwriad o wrando ar y ddadl a fydd, gobeithio, yn mynd â'r Cynulliad ymlaen. Er mwyn bod mor fyr â phosibl, byddaf yn cyfeirio at ddogfennau. Fodd bynnag, deallaf nad ydynt yn cyrraedd rhai Aelodau o'r Cynulliad o hyd, pa un a anfonir hwy'n electronig neu ar ffurf papur. Bwriedir i'r ddadl hon fod yn fan cychwyn yn hytrach nag yn ddiweddglo, felly gobeithio na fydd hyn yn ein rhwystro rhag ceisio adeiladu consensws.

Mae'r gyfran gymharol isel a bleidleisiodd yn yr etholiad ar 6 Mai a chanlyniad y refferendwm yn rhoi cyfrifoldeb arnom ni, fel Aelodau etholedig. Mae'r broses o sefydlu'r Cynulliad a datblygu dulliau gweithio sydd yn cynnwys partneriaeth a chydweithredu, gan ymestyn allan at grwpiau ar draws Cymru, yn hanfodol. Y sialens yw dangos nad rhethreg ydyw a'n bod yn golygu yr hyn a ddywedsom—fe all cydweithredu barhau am bedair blynedd, nid yn unig am ychydig ddiwrnodiau. Mae hynny'n sialens

begin work in these new ways to develop the schemes and partnerships that are required in legislation, we should remember that our ultimate concerns are results: better job opportunities, better health, better education and a better quality of life for the people of Wales.

Today, we put to the Assembly an initial statement of values and priorities agreed by the Cabinet and we begin a debate on the priorities that should guide the Assembly's future work. Inevitably, that statement is general in nature but it should inform the way that we deal with specific topics. We need consistent values against which we can judge our effectiveness in serving the people of Wales. We need common objectives that can guide our actions and we need agreement on priorities that can be the focus of our resources, both human and financial.

Aneurin Bevan said that the religion of socialism is the language of priorities. I cannot guarantee that everybody in this Chamber would choose this specific sentiment but, if we are to make the best use of the finite resources contained in our budget, we must seek to achieve a degree of unanimity on overall priorities.

2:38 p.m.

As we gather here, just a few months from the advent of a new millennium, let us consider the direction that we wish our country to take. My Cabinet has a clear vision of the future that we want for Wales. It is a vision that builds on the achievements of the Labour Government in Wales in its first two years in office, and it takes forward the aims and objectives established by the Welsh Office during that period. Much has been achieved in that time. Class sizes in infant schools have been cut. With over £11 million allocated to infant class size reduction this year, I expect 90 per cent of the problem that

i'r holl bleidiau yn y Cynulliad. Fodd bynnag, wrth inni ddechrau gweithio yn ôl y dulliau newydd hyn er mwyn datblygu'r cynlluniau a'r partneriaethau sydd yn ofynnol yn y ddeddfwriaeth, fy ddylem gofio mai'r hyn sydd o bwys i ni yn y pen draw yw canlyniadau; gwell cyfleoedd gwaith, gwell iechyd, gwell addysg a gwell ansawdd bywyd i bobl Cymru.

Heddiw, yr ydym yn rhoi gerbron y Cynulliad ddatganiad dechreuol o werthoedd a blaenoriaethau a gytunwyd gan y Cabinet ac yr ydym yn dechrau trafodaeth ar y blaenoriaethau a ddylai lywio gwaith y Cynulliad yn y dyfodol. Mae'n anorffod fod y datganiad yn gyffredinol ei natur ond fe ddylai oleuo'r ffordd y byddwn yn ymdrin â phynciau penodol. Mae arnom angen gwerthoedd cyson y gallwn eu defnyddio i fesur ein heffeithiolrwydd wrth wasanaethu pobl Cymru. Mae arnom angen amcanion cyffredin sydd yn gallu arwain ein gweithredoedd ac mae arnom angen cytundeb ar flaenoriaethau y gallwn ganolbwyntio ein hadnoddau, dynol ac ariannol, arnynt.

Fe ddywedodd Aneurin Bevan mai crefydd sosialaeth yw iaith blaenoriaethau. Ni allaf warantu y byddai pawb yn y Siambr hon yn dewis yr union farn honno ond, os ydym i ddefnyddio'r adnoddau penodol yn ein cyllideb i'r eithaf, rhaid inni geisio sicrhau rhyw raddau o unfrydedd ynghylch blaenoriaethau cyffredinol.

A ninnau'n ymgynnull yma, ond ychydig fisoedd cyn dechrau mileniwm newydd, gadewch inni ystyried y cyfeiriad yr ydym yn dymuno i'n gwlad ei ddilyn. Mae fy Nghabinet yn meddu ar weledigaeth eglur o'r dyfodol a ddymunwn i Gymru. Mae'n weledigaeth sydd yn adeiladu ar sail yr hyn a gyflawnodd y Llywodraeth Lafur yng Nghymru yn ei ddwy flynedd cyntaf mewn grym, ac mae'n parhau â'r nodau a'r amcanion a sefydlwyd gan y Swyddfa Gymreig yn ystod y cyfnod hwnnw. Cyflawnwyd llawer yn yr amser hwnnw. Torrwyd ar faint dosbarthiadau mewn

we encountered in 1997 to be solved. A nursery place has been provided for every four-year-old whose parents want it. Demanding targets have been set to raise educational standards, and specific measures have been undertaken to improve literacy and numeracy.

Long-term unemployment in Wales has been a difficult problem. Nearly 17,000 young people and nearly 7,000 older long-term unemployed people have been given new opportunities for education, training and employment through the New Deal in Wales. On a personal note, I worked with unemployed young people before entering Parliament. I saw young lives wrecked by the lack of opportunity and hope, and the lack of a future without a job. I saw youngsters drift into crime because of the lack of action to nip things in the bud. Action was needed to deal with that scandal. Anger at the waste of young lives, the waste of our future, brought me into national politics. That is why I am proud to have been part of turning anger into action, planning the New Deal and investing the cash of the windfall tax from the privatised utilities into securing a future for so many young people. As a result, 17,000 young people across Wales have been given new hope. The new generation that I now meet in factories and workplaces across Wales stand tall and confident and, when asked, say, 'I am here on the New Deal'.

Another passion for many of us is the national health service. That was demonstrated during questions a few minutes ago. We must go beyond the statistics to a real impact on people—an impact on patient care. We have made progress. The national health service in Wales has been reorganised to end competition and replace it with partnership, combining community, health

ysgolion babanod. A dros £11 miliwn wedi ei ddyrannu ar gyfer lleihau maint dosbarthiadau babanod eleni, disgwyliaf y bydd 90 y cant o'r broblem a ddaeth i'n rhan yn 1997 yn cael ei datrys. Darparwyd lle mewn meithrinfa ar gyfer pob plentyn pedair oed os bydd ei rieni yn ei ddymuno. Gosodwyd targedau ymestynnol er mwyn codi safonau addysgol, ac ymgwymerwyd â mesurau penodol i wella llythrennedd a rhifogrwydd.

Bu diweithdra tymor-hir yng Nghymru yn broblem anodd. Mae bron 17,000 o bobl ifanc a bron 7,000 o bobl hŷn a fu'n ddi-waith dros y tymor hir wedi cael cyfleoedd newydd i dderbyn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth drwy'r Fargen Newydd yng Nghymru. Ar nodyn personol, yr oeddwn yn gweithio gyda phobl ifanc ddi-waith cyn mynd i'r Senedd. Gwelais fywydau ifanc wedi eu chwalu drwy ddiffyg cyfle a gobaith, a diffyg dyfodol oherwydd nad oedd ganddynt swydd. Gwelais bobl ifanc yn crwydro i dorcyfraith oherwydd diffyg gweithredu i ladd hynny yn yr egin. Yr oedd angen gweithredu i ddelio â'r sgandal honno. Dicter ynghylch y gwastraff ar fywydau ifanc, y gwastraff ar ein dyfodol, a barodd imi ddechrau mewn gwleidyddiaeth genedlaethol. Dyna pam yr wyf yn falch o fod wedi cael rhan mewn troi dicter yn weithredu, drwy gynllunio'r Fargen Newydd a buddsoddi'r arian o'r dreth ffawdelw o'r cyfleustodau preifateiddiedig i sicrhau dyfodol i gynifer o bobl ifanc. O ganlyniad i hynny, mae 17,000 o bobl ifanc ar draws Cymru wedi cael gobaith newydd. Bydd y genhedlaeth newydd yr wyf yn ei chyfarfod mewn ffatrioedd a lleoedd gwaith ar draws Cymru yn sefyll yn dalsyth ac yn hyderus ac yn dweud, pan ofynnir iddynt, 'Yr wyf yma ar y Fargen Newydd.'

Rhywbeth arall y mae llawer ohonom yn teimlo'n angerddol yn ei gylch yw'r gwasanaeth iechyd gwladol. Dangoswyd hynny yn ystod y sesiwn holi ychydig funudau'n ôl. Rhaid inni fynd y tu hwnt i'r ystadegau er mwyn cael effaith wirioneddol ar bobl—effaith ar ofal cleifion. Yr ydym wedi gwneud cynnydd. Mae'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru wedi ei

and acute services to create a single health service for each area of Wales. Our finances contain an extra £1 billion for the NHS in Wales. However, that money will be wasted unless we grasp the nettle and ensure that the cash goes into better patient care, not into administration or the paying off of old debts. The outcome of the stocktake that I set up, headed by the Permanent Secretary and involving the Audit Commission, will give the Assembly a basis for action, and we must not fail the challenge of getting NHS Wales into a healthy state.

Much has been done to tackle crime and disorder in Wales. The introduction of a new system of dealing with young offenders will help to cut crime rates. Action to help police forces to work in partnership with local authorities and community organisations in crime prevention has fostered feelings of greater safety and security in many communities. That needs our continued support.

Much has happened already, but there is much more to do. At the start of our work as an Assembly, we need to make a realistic assessment of the state of the nation. An excellent summary of the current situation is contained in the policy background notes for Assembly Members that have been published to coincide with this debate. I do not want to cover everything—as we will need to return to this document and these points. Therefore, I wish to highlight four issues to which that document refers.

First, there are significant health inequalities in Wales and between Wales and the rest of the United Kingdom and Europe. For example, over the five years to 1997, the mortality rate for people aged under 75 in Merthyr Tydfil was 30 per cent higher than the Welsh average and 50 per cent higher than in the neighbouring area of Powys. Overall life expectancy in Wales is around three to four years less than the best in Europe. We must tackle the underlying

aildrefnu er mwyn rhoi diwedd ar gystadlu a rhoi yn ei le bartneriaeth sydd yn cyfuno gwasanaethau cymunedol, iechyd ac aciwt i greu gwasanaeth iechyd sengl i bob ardal yng Nghymru. Mae ein cronfeydd yn cynnwys £1 biliwn yn ychwanegol ar gyfer NHS Cymru. Fodd bynnag, fe gaiff yr arian hwnnw ei wastraffu os nad awn i'r afael â'r angen i sicrhau bod yr arian yn mynd at ofal gwell i gleifion, nid i weinyddu a dileu hen ddyledion. Bydd canlyniad y cyfrif stoc a sefydlais, o dan yr Ysgrifennydd Parhaol ac yn cynnwys y Comisiwn Archwilio, yn rhoi sail i weithredu i'r Cynulliad, a rhaid inni beidio â methu'r sialens o sicrhau iechyd NHS Cymru.

Fe wnaed llawer i fynd i'r afael â throedd ac anhrefn yng Nghymru. Bydd cyflwyno system newydd i ymdrin â throeddwyd ifainc yn helpu i dorri cyfraddau trosedd. Mae'r gweithredu i helpu heddluoedd i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a mudiadau cymunedol mewn gwaith atal troseddau wedi meithrin ymdeimlad o ddiogelwch a sicrwydd ehangach mewn llawer o gymunedau. Rhaid inni barhau i gefnogi hynny.

Mae pethau wedi digwydd eisoes, ond mae llawer rhagor i'w wneud. Ar ddechrau ein gwaith fel Cynulliad, mae angen inni asesu cyflwr y genedl mewn modd realistig. Fe geir crynodeb rhagorol o'r sefyllfa bresennol yn y nodiadau ar gefndir polisi i Aelodau'r Cynulliad a gyhoeddwyd i gyd-ddigwydd â'r ddadl hon. Nid wyf am ymdrin â phob dim gan y bydd yn rhaid inni ddychwelyd at y ddogfen hon ac at y pwyntiau hyn. Felly, yr wyf yn dymuno tynnu sylw at bedwar mater y cyfeirir atynt yn y ddogfen honno.

Yn gyntaf, fe geir anghydraddoldebau mawr o ran iechyd o fewn Cymru a rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Er enghraifft, dros y pum mlynedd at 1997, yr oedd y gyfradd marwolaethau ymysg pobl o dan 75 oed ym Merthyr Tudful yn 30 y cant yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru ac yn 50 y cant yn uwch nag ym Mhowys, sydd yn ardal gyfagos. Mae'r disgwyliad einioes cyffredinol yng Nghymru tua thair i bedair blynedd yn is nag ydyw ymysg y goreuon yn

causes of ill-health in Wales and reduce the disparities between different parts of the country. That must involve joint working with social services, better links with housing and education services and close work with the voluntary sector.

On education and training, while standards are rising and tremendous strides have been made over the last two years, we still have major challenges to face. More than half of the population of working age have no NVQ level 3 qualification or equivalent, and more than a fifth have no qualifications whatsoever.

The achievement of Objective 1 status for west Wales and the Valleys has been welcomed as providing us with a tremendous opportunity to modernise our economic and social infrastructure. It also indicates the poverty in some parts of Wales. Gross Domestic Product per head in Wales between 1994 and 1996 was only 82 per cent of the European Union average—the lowest in Great Britain. In the Objective 1 area it was 71 per cent. Economic inactivity in many parts of Wales is well above the average, particularly among men over 50. Over 30 per cent of the working age population in Merthyr Tydfil, Blaenau Gwent, Neath, Port Talbot and Caerphilly are economically inactive. In the next few weeks we will see a draft strategy for using Objective 1 funding to transform that picture. As I promised in my answer to Helen Mary Jones last week, all Members will have a chance to play a part in getting it right. We are not there yet, but there is a commitment on the part of Jon Shortridge, the Permanent Secretary, and his team, and on the part of business, local government and the voluntary sector to get it right together. We must rise to that challenge as Assembly Members.

Our actions as an Assembly, as we set out to meet challenges like these, must be motivated by a consistent set of values. I do not hesitate to underline that the first of those values must be partnership. The principle of partnership and co-operation is embedded

Ewrop. Rhaid inni fynd i'r afael ag achosion gwaelodol afiechyd yng Nghymru a lleihau'r gwahaniaethau rhwng gwahanol rannau o'r wlad. Rhaid i hynny gynnwys gweithio ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol, gwell cysylltiadau â gwasanaethau tai ac addysg a gweithio clòs gyda'r sector gwirfoddol.

Ynglŷn ag addysg a hyfforddiant, er bod safonau'n codi a chamau breision wedi eu cymryd dros y ddwy flynedd diwethaf, mae gennym sialensau mawr i'w hwynebu o hyd. Mae dros hanner y boblogaeth o oed gweithio heb unrhyw gymhwyster NVQ lefel 3 neu'r hyn sydd yn cyfateb iddo, ac mae mwy nag un rhan o bum heb unrhyw gymwysterau o gwbl.

Mae ennil statws Amcan 1 i orllewin Cymru a'r Cymoedd wedi ei groesawu fel cyfle aruthrol i foderneiddio ein hisadeiledd economaidd a chymdeithasol. Mae hefyd yn arwydd o'r tloedi mewn rhai rhannau o Gymru. Nid oedd y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen yng Nghymru rhwng 1994 a 1996 ond 82 y cant o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd—yr isaf ym Mhrydain Fawr. Yn ardal Amcan 1 yr oedd yn 71 y cant. Mae anweithgaredd economaidd mewn llawer rhan o Gymru ymhell uwchlaw'r cyfartaledd, yn enwedig ymysg dynion dros 50 oed. Mae dros 30 y cant o'r boblogaeth o oed gweithio ym Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Castell Nedd, Port Talbot a Chaerffili yn economaidd anweithgar. Yn yr wythnosau nesaf, fe welwn strategaeth ddrafft ar gyfer defnyddio arian Amcan 1 i drawsnewid y darlun hwnnw. Fel yr addewais yn fy ateb i Helen Mary Jones yr wythnos diwethaf, bydd cyfle i'r holl Aelodau chwarae rhan i'w chael yn iawn. Nid ydym wedi cyrraedd eto, ond mae ymrwymiad ar ran Jon Shortridge, yr Ysgrifennydd Parhaol, a'i dîm, ac ar ran busnes, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol i'w chael yn iawn. Rhaid inni ymateb i'r sialens fel Aelodau o'r Cynulliad.

Dylai'n gweithredoedd fel Cynulliad, wrth inni gychwyn i ateb sialensau fel y rhain, gael eu symbylu gan set gyson o werthoedd. Nid wyf yn petruso rhag pwysleisio mai'r cyntaf o'r gwerthoedd hynny yw partneriaeth. Mae egwyddor partneriaeth a

firmly in the sections of the Government of Wales Act 1998, but we can bring that principle to life only through our actions. Last week, I opened a debate on the principles of partnership in this Chamber, and the Assembly took the first steps towards establishing those partnerships with the details of the Partnership Council—the statutory mechanism through which we will develop our partnership with local government. Without effective partnerships, the key principles of devolution—openness and inclusiveness—will remain rhetoric. It is only through working in partnership that we will develop the right policies for the people of Wales. As Secretary of State, with my two junior Ministers, I have tried to put partnership into practice in recent months. That has reinforced my belief in devolution. Three Ministers cannot do it, we need the engagement of the whole Assembly. We need the team-work of the Assembly Cabinet to turn partnership into reality.

Secondly, the Assembly must be an inclusive body. It must work for the whole of Wales, breaking down the traditional barriers between people in different parts of the country. As a north Walian, I have experienced those barriers. We must use our resources to help those most in need. However, we may need to ensure that everybody can share in the life of the new, confident Wales that we seek to build. We must work to create opportunities for everyone in Wales. For instance, the development of the three food strategies to promote Welsh produce is a vital concern to our rural community, but it will also bring benefits to consumers in all parts of Wales. During the few weeks of the Assembly's life, Members have already raised the problems of racial discrimination and economic and social deprivation in urban and rural Wales. We must constantly test our policies and our programmes to ensure that they tackle such issues effectively.

Thirdly, we must think and act strategically. We will be presented with a range of

chydweithrediad wedi ei gosod yn gadarn yn adrannau Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ond gallwn roi bywyd i'r egwyddor honno drwy ein gweithredoedd. Yr wythnos diwethaf, fe agorais ddadl ar egwyddorion partneriaeth yn y Siambr hon, a chymerodd y Cynulliad y camau cyntaf tuag at sefydlu'r partneriaethau hynny gyda manylion y Cyngor Partneriaeth—y mecanwaith statudol a ddefnyddiwn i ddatblygu ein partneriaeth â llywodraeth leol. Heb bartneriaethau effeithiol, bydd egwyddorion allweddol datganoli—bod yn agored a chynwysoldeb—yn aros yn rhethreg. Ond drwy weithio mewn partneriaeth y byddwn yn datblygu'r polisiau iawn ar gyfer pobl Cymru. Fel Ysgrifennydd Gwladol, gyda fy nau Weinidog iau, yr wyf wedi ceisio rhoi partneriaeth ar waith yn y misoedd diwethaf hyn. Mae hynny wedi atgyfnerthu fy nghred mewn datganoli. Ni all tri Gweinidog ei gyflawni, mae arnom angen ymrwymiad y Cynulliad cyfan. Mae arnom angen gwaith tîm Cabinet y Cynulliad i droi partneriaeth yn ffaith.

Yn ail, rhaid i'r Cynulliad fod yn gorff cynhwysol. Rhaid iddo weithio ar ran Cymru gyfan, gan ddryllio'r rhwystrau traddodiadol rwng pobl mewn gwahanol rannau o'r wlad. Fel Gogleddwr, yr wyf wedi profi'r rhwystrau hynny. Rhaid inni ddefnyddio'n hadnoddau i helpu'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen inni sicrhau y gall pawb gyfrannu ym mywyd y Gymru newydd, hyderus yr ydym yn ceisio ei hadeiladu. Rhaid inni weithio i greu cyfleoedd i bawb yng Nghymru. Er enghraifft, mae datblygu'r tair strategaeth bwyd i hybu cynnyrch Cymru yn rhywbeth sydd yn hollbwysig i'n cymuned wledig, ond fe ddaw â manteision i ddefnyddwyr y mhob rhan o Gymru hefyd. Yn ystod yr ychydig wythnosau o oes y Cynulliad, mae Aelodau eisoes wedi codi problemau camwahaniaethu ar sail hil ac amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn ardaloedd gwledig a threfol o Gymru. Rhaid inni brofi'n polisiau a'n rhaglenni'n gyson i sicrhau eu bod yn wynebu materion o'r fath yn effeithiol.

Yn drydydd, rhaid inni feddwl a gweithredu'n strategol. Byddwn yn wynebu

concerns across the wide spectrum of our responsibilities daily and, inevitably, we will be pressed to act immediately to address them. We must recognise the overall co-ordinating nature of the Assembly's role. Micro management, the danger of becoming bogged down in detail, will be a constant temptation that we must resist. In the main, our task as an Assembly should be to set the overall framework within which others can deliver at a local level. Then, we must challenge them continually, whether they are our partners or our agencies, on their performance against the targets set for them. We must be open to challenge. We must use the knowledge and experience gained to tackle the root causes of the problems and find sustainable long-term answers.

2:48 p.m.

The final principle is good government. It is crucial that the Assembly not only demonstrates its effectiveness and value for money but also delivers best value in the work we and our partners do. That means trying to end departmentalism. We must focus on the performance of each part of the public service. We must also make the link between policy areas to achieve joined up government. We need to release new energies into social inclusion, the development of children's services and promoting equal opportunities. There are several important areas we must consider. I will comment further on how we pursue these cross-cutting themes and others, shortly.

Though we are a minority administration, the people of Wales expect us to provide clear leadership in the Assembly and to deliver our manifesto commitments. Other Members share these commitments so I hope there will be widespread support for them. The parties share common ground on the way forward for Wales. We must develop that in the coming months. All programmes and policies must work together to deliver a confident outlook in Wales, where all can realise their potential by cutting across traditional functional boundaries. We must create better

amrediad o bryderon ar draws ystod eang ein cyfrifoldebau bob dydd ac, yn anorfod, fe bwysir arnom i weithredu ar unwaith i ymdrin â hwy. Rhaid inni sylweddoli mai rôl o gydlynu cyffredinol sydd gan y Cynulliad. Bydd microreoli, y perygl o fynd yn sownd yn y manylion, yn demtasiwn cyson y bydd yn rhaid inni ei wrthweithio. Ein gorchwyl fel Cynulliad, yn bennaf, fydd gosod y fframwaith cyffredinol lle y gall eraill gyflawni ar lefel leol. Wedyn, rhaid inni eu cwestiynu'n barhaus, boed y rhain yn bartneriaid neu'n asiantaethau i ni, ynghylch eu perfformiad yn ôl y targedau a osodwyd iddynt. Rhaid i ninnau fod yn agored i'n cwestiynu. Rhaid inni ddefnyddio'r wybodaeth a'r profiad a enillir i fynd i'r afael ag achosion gwaelodol y problemau a chanfod atebion tymor-hir cynaliadwy.

Yr egwyddor olaf yw llywodraeth dda. Mae'n hanfodol bod y Cynulliad nid yn unig yn dangos ei effeithiolrwydd a'i werth am arian ond ei fod hefyd yn cyflenwi gwerth gorau yn y gwaith a gyflawnir gennym ni a'n partneriaid. Mae hynny'n golygu ceisio rhoi pen ar y meddylfryd adrannol. Rhaid inni ganolbwyntio ar berfformiad pob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus. Rhaid inni hefyd greu cysylltiad rhwng meysydd polisi er mwyn cyflawni llywodraeth gyfunedig. Mae angen inni ryddhau egnïon newydd i gyflawni cynhwysiant cymdeithasol, datblygu gwasanaethau plant a hybu cyfle cyfartal. Ceir sawl maes pwysig y bydd yn rhaid inni eu hystyried. Rhoddaf sylwadau pellach ar y modd y byddwn yn dilyn y themâu trawstoriadol hyn ac eraill, cyn hir.

Er mai gweinyddiaeth leiafrifol ydym, mae pobl Cymru yn disgwyl inni ddarparu arweiniad clir yn y Cynulliad a chyflawni'r ymrwymadau yn ein maniffesto. Mae Aelodau eraill yn rhannu'r ymrwymadau hyn felly yr wyf yn gobeithio y bydd cefnogaeth eang iddynt. Mae'r pleidiau'n rhannu tir cyffredin ynghylch y ffordd ymlaen i Gymru. Rhaid inni ddatblygu hynny yn y misoedd sydd i ddod. Rhaid i'r holl raglenni a pholisïau gydweithio i greu agwedd meddwl hyderus yng Nghymru, lle y gall pawb gyflawni ei botensial gan dorri ar

job opportunities and high skilled, high-income jobs. We must also work towards better education, better health, a better quality of life and delivering value for money for Welsh people. We must raise educational standards and improve skill levels for all. We must link our plans to combat social exclusion and develop a knowledge-based economy so that people from all backgrounds can access the most modern skills and technology. High quality education and training is the key to our future economic and social well-being. We have sound foundations to build on. In setting out these principles, I am skating over the surface of matters that will require detailed work from Assembly Members to live up to those aspirations.

We must address the issues that matter most to families in pursuing a better quality of life for Welsh people. These include the quality of their local environment, access to a decent home, provision of reliable transport and freedom from crime and the fear of criminal activity. We must be aware that these concerns are as real for those living in small rural communities as they are for those living in the city. We must ensure that the principles of sustainable development are embedded in our work. We must tackle the key issues of quality of life and delivering sustainable, long-term solutions.

The final priority is to deliver value for money for Welsh people. We want to ensure best value and more efficient delivery of all services. Those services may be provided by the Assembly or our agencies and partners. The Assembly must lead to more effective scrutiny of public spending in Wales and more effective use of the resources available to Wales. This will be a key test. To be clear about our priorities, we must develop a business plan, and work within a framework. In a statement next week, Edwina Hart will set out proposals to take this forward, linking finance and policy in our approach. While

draws ffiniau swyddogaethol traddodiadol. Rhaid inni greu gwell cyfleoedd gwaith a swyddi â medrau ac incwm uchel. Rhaid inni hefyd ymdrechu i sicrhau addysg well, iechyd gwell, ac ansawdd bywyd gwell a chyflawni gwerth am arian i bobl Cymru. Rhaid inni godi safonau addysgol a gwella lefelau medrau i bawb. Rhaid inni gysylltu ein cynlluniau i wrthweithio eithrio cymdeithasol a datblygu economi sydd yn seiliedig ar wybodaeth fel y gall pobl o bob cefndir gael mynediad at y medrau a'r dechnoleg ddiweddaraf. Addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel yw'r allwedd i'n ffyniant economaidd a chymdeithasol yn y dyfodol. Mae gennym seiliau cadarn i adeiladu arnynt. Wrth gyflwyno'r egwyddorion hyn, yr wyf yn braidd gyffwrdd â materion a fydd yn gofyn gwaith manwl gan Aelodau o'r Cynulliad er mwyn cyflawni'r dyheadau hynny.

Rhaid inni roi sylw i'r materion hynny sydd o'r pwys mwyaf i deuluoedd wrth geisio ansawdd gwell i bobl Cymru. Ymhlith y rhain y mae ansawdd eu hamgylchedd lleol, y gallu i gael cartref boddhaol, darparu cludiant dibynadwy a rhyddid oddi wrth droseddu ac ofnau ynghylch gweithgaredd troseddol. Rhaid inni sylweddoli bod y pryderon hyn mor wir i rai sydd yn byw mewn cymunedau gwledig bychain ag yr ydynt i rai sydd yn byw yn y ddinas. Rhaid inni sicrhau bod egwyddorion datblygu cynaliawy wedi eu hymgorffori yn ein gwaith. Rhaid inni ymdrin â materion allweddol o ran ansawdd bywyd a chyflawni atebion cynaliadwy, tymor-hir.

Y flaenoriaeth olaf yw rhoi gwerth am arian i bobl Cymru. Yr ydym am sicrhau'r gwerth gorau a chyflawni pob gwasanaeth yn fwy effeithlon. Gallai'r gwasanaethau hynny gael eu darparu gan y Cynulliad neu gan ein hasiantaethau a'n partneriaid. Rhaid i'r Cynulliad arwain at fanylu mwy effeithiol ar wariant cyhoeddus yng Nghymru a defnydd mwy effeithiol ar yr adnoddau sydd ar gael i Gymru. Dyma fydd y prawf allweddol. Er mwyn bod yn sicr o'n blaenoriaethau, rhaid inni ddatblygu cynllun busnes, er mwyn gweithredu o fewn fframwaith. Mewn datganiad yr wythnos nesaf, bydd Edwina

this plan will be for the Assembly, it must reflect our partners' plans and provide an umbrella plan for those who will help us deliver our action programme. In developing this plan, we must consider the views expressed in the Chamber and those of the wider constituency. Therefore, we will consult with our partners, other organisations and the public to ensure we have the right priorities and are agreed on how to deliver them.

We do not have a bottomless pit of resources to meet our aims. Last year's comprehensive spending review set the Welsh budget at £7.8 million this year and £8.2 million for the next financial year. [*Correction: £7.8 billion, £8.2 billion.*] The Assembly must live within its means. That is why we have to make difficult choices and ensure that the resources available reach the people they are meant to help. That reinforces the need to set clear priorities. It also means we must obtain the best value for money from the funds entrusted to us.

Let us not underestimate the extent of the task ahead. Let us not be daunted by it either. Instead, we must face our responsibilities with determination and with courage. We must pledge ourselves to the service of our country. We must work together to overcome our differences, to pursue our overriding objective of building a better Wales. Rather than give a shopping list of individual policies or subjects that the Assembly Committees and the Assembly will need to engage with, I refer to some important principles in setting out the way ahead. The challenge for us to work together for Wales is important. This will enable the Assembly and its Members to look back and say; Wales is a better country because of our work: that was our achievement.

**Dafydd Wigley:** Mae rhywbeth hudolus iawn mewn cael agor dadl ar 'gyflwr y genedl' ar ran yr wrthblaid. Ar hynny yr wyf

Hart yn dod â chynigion gerbron i fynd â hyn ymlaen, drwy gysylltu cyllid a pholisi yn ein dull gweithredu. Er mai cynllun ar gyfer y Cynulliad fydd hwn, rhaid iddo adlewyrchu cynlluniau ein partneriaid ac estyn adain dros gynlluniau'r rhai a fydd yn ein helpu i gyflawni'n rhaglen weithredu. Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, rhaid inni ystyried y safbwyntiau a fynegir yn y Siambr a rhai y tu allan. Felly, byddwn yn ymgynghori â'n partneriaid, cyrff eraill a'r cyhoedd i sicrhau bod y blaenoriaethau cywir gennym a'n bod yn cytuno ar y modd i'w cyflawni.

Nid oes gennym bwl diwaelod o adnoddau i gyrraedd ein nodau. Yr oedd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant llynedd wedi gosod cyllideb Cymru ar £7.8 miliwn eleni a £8.2 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. [*Cywiriad: £7.8 biliwn, £8.2 biliwn.*] Rhaid i'r Cynulliad gadw deupen llinyn ynghyd. Dyna pam y bydd yn rhaid inni gymryd dewisiadau anodd a rhaid inni sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cyrraedd y bobl y maent i fod i'w helpu. Mae hynny'n ategu'r angen i bennu blaenoriaethau eglur. Mae hefyd yn golygu bydd yn rhaid inni gael y gwerth gorau am arian o'r cronfeydd a ymddiriedir i ni.

Ni ddylem synied yn rhy isel am faint y dasg sydd o'n blaen. Ni ddylem wangelonni o'i herwydd chwaith. Yn hytrach, rhaid inni wynebu'n cyfrifoldebau'n benderfynol ac yn eofn. Rhaid inni ymaddunedu i wasanaethu ein gwlad. Rhaid inni weithio gyda'n gilydd i oresgyn ein gwahaniaethau, i ganlyn yr amcan pwysicaf sydd gennym o adeiladu Cymru well. Yn hytrach na rhoi rhestr siopa o bolisiau neu bynciau unigol y bydd angen i Bwyllgorau'r Cynulliad a'r Cynulliad ymdrin â hwy, yr wyf yn cyfeirio at rai egwyddorion pwysig wrth amlinellu'r ffordd ymlaen. Mae'r sialens inni weithio gyda'n gilydd dros Gymru yn un bwysig. Bydd hynny'n galluogi'r Cynulliad a'i Aelodau i edrych yn ôl a dweud; mae Cymru'n wlad well oherwydd ein gwaith: dyna a gyflawnwyd gennym.

**Dafydd Wigley:** There is something enchanting in opening a debate on 'the state of the nation' on behalf of the opposition. I

am siarad, yn hytrach nag ar fanylion papur y Prif Ysgrifennydd. Bydd cyfle i sôn am fanylion y papur yn nes ymlaen.

Mewn llawer ystyr, mae'n wyrth o beth ein bod yma heddiw yn gallu cynnal y math yma o ddadl mewn corff etholedig, democrataidd Cymreig. Bu llawer o bobl dros yr oesoedd yn dyheu am y math hwn o gyfle. Ond dyma ni ar drothwy canrif newydd, mileniwm newydd, o'r diwedd yn cael trafod beth yw ein cyflwr gwirioneddol fel pobl Cymru ar dir Cymru. Fel cenedl yr ydym yma o hyd.

Un peth yw cael dadansoddi beth yw cyflwr ein gwlad a'n pobl. Mater arall yw gallu gwneud rhywbeth i'w wella. Ar ddiwedd y gân, onid oes modd i ni wneud rhywbeth? Os na allwn gymryd camau penodol i wella'r sefyllfa, bydd ein gallu ni i siarad, i drafod ac i ddadlau yn gwbl arwynebol ac amherthnasol.

Cyflwr y genedl yw'r thema heddiw. Cyn gallu pwysu a mesur ei chyflwr rhaid diffinio pwy yw'r genedl. Beth sydd yn creu ein cenedligrwydd? I rai, y mae'n fater o hanes, o gyd-brofi a chyd-ddyheu. I eraill, y mae'n gwestiwn o diriogaeth, y cilcyn yma o ddaear y bu'n cyndadau yn ymlafnio drosto dros y blynyddoedd. I lawer, y mae'n fater o iaith a diwylliant, a'r wyrth fod iaith, sydd yn mynd yn ôl i gyfnod y Rhufeiniaid, un o ieithoedd hynaf Ewrop, yn dal i gael ei harddel a'i siarad. Mae'n iaith y mae 20 y cant o bobl Cymru yn rhugl ynddi a 57 y cant o aelwydydd Cymru ag o leiaf un person yn ei deall. Yr oedd yr iaith i fod i farw cyn diwedd y mileniwm ond y mae ymhlith y 15 y cant uchaf o ieithoedd y byd yn ôl nifer y siaradwyr. Hi yw iaith leiafrifol ein cenedl, efallai, ond mae'n perthyn i'r genedl gyfan. Felly, i rai, yn naturiol, mae cenedligrwydd yn ymwneud â chydymdreiddiad pobl, iaith a thir. I eraill, mae'n ymwneud â'r tîm rygbi a gefnogwn—newyddion da iawn o'r Ariannin yr wythnos diwethaf. I eraill, mae'n ymwneud â cherddoriaeth, treftadaeth neu grefydd. I mi, yr hyn sydd yn ein gwneud yn genedl yw ein gwerthoedd: ein gwerthoedd cymunedol,

will speak about that rather than on the details of the First Secretary's paper. There will be an opportunity to talk about details of the paper later on.

In many senses, it is a miracle that we are here today being able to hold this type of debate in an elected, democratic body for Wales. Many people throughout the ages have dreamt of this kind of opportunity. However, here we are on the threshold of a new century, a new millennium, at long last being able to discuss the reality of our situation as people of Wales, on Welsh land. As a nation we are still here.

It is one thing to analyse the state of our nation and our people. It is another matter to be able to do something about it, to improve it. At the end of the day, is it not possible for us to do something? Unless we can do something to improve the situation, then our ability to talk, discuss and debate will be superficial and irrelevant.

The state of the nation is the theme for today. Before we can emphasise and analyse its state, we must define what we mean by the nation. What creates our nationality? For some, it is a matter of history, of mutual experiences and aspirations. To others, it is a matter of territory, this corner of the world for which our ancestors fought. To many, it is a matter of language and culture and the miracle of a language that goes back to Roman times, one of the oldest living languages in Europe still being spoken. It is a language that 20 per cent of Welsh people speak fluently and 57 per cent of households have at least one person being able to understand. The language was supposed to die before the end of the millennium but is amongst the 15 per cent of the most spoken languages in the world according to the number of speakers. It is our nation's minority language perhaps but a language which belongs to the whole nation. So, for some, naturally, nationality is about the convergence of people, language and land. For others it is about the rugby team that we support—very good news from Argentina last week. To others, it is about music, heritage or religion. To me, what makes us a nation, is

cymdeithasol a dyngarol. I lawr yr oesoedd, bu'n rhaid i ni wynebu tloedi a chaledi y difreintiedig. Rhaid i ni fel cymdeithas, gydio law yn llaw â'n gilydd i rannu baich ac i wrthsefyll y bygythiadau yr ydym yn eu hwynebu. Ar adegau eraill, rhaid inni gydlawenhau, ac mae heddiw yn un o'r dyddiau hynny. Mae ein gwerthoedd yn dod â ni at ein gilydd, yn ein cadw gyda'n gilydd ac yn rhoi i ni yr hyder i groesawu pobl a ddaw i'n plith. Y gwerthoedd radical, blaengar hynny sydd yn rhoi i ni yr hyder i groesawu pobl i Gymru i rannu'r un gwerthoedd.

2:58 p.m.

Beth yw cyflwr ein cenedl? Mae diffyg hunanhyder yng Nghymru. Dywedwyd hynny gan lawer yn ystod yr ymgyrch cyn etholiadau'r Cynulliad. Credaf ei fod yn wir. O'i chymharu â gweddill y DU, ffyniant o 83 y cant sydd gan Gymru. Mae gennym gyflawniadau addysgol truenus, a ddisgrifiwyd gan Alun gynnu. Yr ydym yn gwario llai ar addysg fesul disgybl na'r DU yn ei chyfarwydd. Am bob £100 a fuddsoddwn ni yng Nghymru yn addysg plentyn o Gymro, fe werir £112 yn Lloegr. Mae gennym safonau afiechyd gwarthus. Mae gennym dlodi echrydus mewn rhannau o Gymru, stoc dai hŷn, stoc dai sydd yn dadfeilio yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat a diraddiad amgylcheddol. A ninnau bellach wedi cael statws Amcan 1, ni fydd gennym arian cyfatebol tan Ebrill 2000 ar y cynharaf.

Fe ddylai fod gennym weledigaeth wrth ymdrin â chyflwr y genedl. Beth yw'r gweledigaethau yr ydym am eu cael ar gyfer ein pobl? Fe ddylai rhyddid fod ar y blaen, gan roi hyder i bobl ffurfio eu dyfodol eu hunain a chyfle i fynegi barn ar eu materion eu hunain. A chymdeithas hefyd, gan adeiladu ar sail y cyfalaf cymdeithasol sydd yn asgwrn cefn i fywyd Cymru, cryfhau ein cerddoriaeth, ein chwaraeon, ein diwylliant a'n celfyddydau. Mae cyfiawnder cymdeithasol yn bwysig, gofalu am y gwannaf a'r mwyaf dirwasgedig yn ein gwlad. Dylid galluogi pobl, gan roi gwir lais iddynt yn nyfodol eu cymunedau a'u gwlad. Rhyng-genedlaetholdeb, adeiladu partneriaeth, allforio llwyddiant a gobeithio am Gymru sydd yn ddigon hyderus i edrych tuag at allan fel y gall Cymru fod yn esiampl i Loegr.

All this requires political courage, a political courage which says, 'Yes, there are some areas on which we agree but we will have to fight hard between us to discuss and to build a positive, visionary programme for the future. We must be innovative and different and we will not be like Westminster.'

These are some issues that could form the basis for a consensus across the parties in Wales. There is a consensus on many of these issues. Our economy is crucial. If we do not build prosperity for all parts of Wales, we will not have done our job. We will not have achieved what we are here to do if we will not have brought prosperity to all parts of Wales.

Bringing prosperity means establishing new businesses, building skills, developing entrepreneurship, anchoring down large countries in Wales by creating a thriving business environment, building a powerful service sector, generating innovative ideas and building on the new technologies. In education, it means reducing class sizes, repairing school buildings and providing high level learning opportunities. In health, it means reducing waiting times, investing more in the areas with most need, emphasis on a health service rather than an ill-health service. Better government means opening up the Assembly right across Wales, not just in Cardiff, giving people a real say and letting them see what happens here.

What do I draw as a conclusion on the state of the nation? Where would I want to be a year from now? Wales must be on the road to renewal. As Assembly Members, we must be able to face our constituents and tell them that a specified number of new businesses have been started in Wales. We must be able to tell them that a specified number of pupils are no longer in classes of more than 30 and that this number includes children over seven. In a year, we must be able to talk with pride about our constituents who are no

Mae hyn oll yn gofyn dewrder gwleidyddol, dewrder gwleidyddol sydd yn dweud, 'Oes, mae yna feysydd yr ydym yn cytuno arnynt yn naturiol ond bydd raid inni ymladd yn galed rhyngom a'n gilydd i drafod ac adeiladu rhaglen gadarnhaol, lawn gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Rhaid inni arloesi a bod yn wahanol ac nid ydym am fod fel San Steffan.'

Mae rhai materion a allai fod yn sail i gonsensws ar draws y pleidiau yng Nghymru. Ceir consensws ar lawer o'r materion hyn. Mae ein heconomi yn hanfodol. Os na fyddwn yn adeiladu ffyniant i bob rhan o Gymru, ni fyddwn wedi cyflawni'n gwaith. Ni fyddwn wedi cyflawni'r hyn yr ydym yma i'w gyflawni os na fyddwn wedi dod â ffyniant i bob rhan o Gymru.

Mae dod â ffyniant yn golygu sefydlu busnesau newydd, adeiladu medrau, datblygu entrepreneuriaeth, angori gwledydd mawr yng Nghymru drwy greu amgylchedd busnes ffyniannus, adeiladu sector gwasanaethau pwerus, creu syniadau arloesol ac adeiladu ar sail y technolegau newydd. Mewn addysg, mae'n golygu lleihau maint dosbarthiadau, atgyweirio adeiladau ysgol a darparu cyfleoedd dysgu ar lefel uchel. Mewn iechyd, mae'n golygu lleihau amseroedd aros, buddsoddi mwy yn y meysydd lle y mae'r angen mwyaf, rhoi pwyslais ar wasanaeth iechyd yn hytrach na gwasanaeth afiechyd. Mae gwell llywodraeth yn golygu agor y Cynulliad ar draws Cymru, nid yma yng Nghaerdydd yn unig, gan roi llais gwirioneddol i bobl a gadael iddynt weld beth sydd yn digwydd yma.

Beth yw fy nghasgliad ynghylch cyflwr y genedl? Ymhle y byddwn am fod ymhen blwyddyn? Rhaid i Gymru fod ar y ffordd at adnewyddu. Fel Aelodau o'r Cynulliad, rhaid inni allu wynebu'n hetholwyr a dweud wrthynt bod nifer penodol o fusnesau newydd wedi eu sefydlu yng Nghymru. Rhaid inni allu dweud wrthynt bod nifer penodol o ddisgyblion nad ydynt bellach mewn dosbarthiadau o fwy na 30 a bod y nifer hwn yn cynnwys plant dros saith oed. Ymhen blwyddyn, rhaid inni allu siarad â

longer waiting more than six months for an appointment to see a hospital consultant and who are no longer waiting more than six months for an operation. It will not be possible to achieve everything in one year. We will not complete that task in four years, but the new government of Wales must be able to point to specific achievements. If this Assembly is to grow in stature and if the people of Wales are to value our work, we will have to do as well as we talk. The state of the nation must be better than it is now. The Assembly must have made a difference and the people of Wales must be able to notice the difference.

**Helen Mary Jones:** I will stand up to make this speech. My constituents in Llanelli complain that I lurk behind pillars in this room. This is not my intention, but is to do with the room's geography and gives further proof that this building, though good while it lasts, is not adequate in the long-term, since I am not given to lurking. I would like to talk about the issues of inclusivity and equal opportunities. Given my background and my Shadow Cabinet portfolio, you will not be surprised that I am glad to see the emphasis on these issues.

However, though the document does not aim to be comprehensive, I was surprised and disappointed to see no reference to two of the most crucially excluded groups in our community—our disabled citizens and women. Under the inclusiveness heading, it lists young people, older people and people from ethnic minorities. While we in the Plaid Cymru group would like to highlight the discrimination against those groups, it is crucial to include women and disabled people.

Under the heading of 'Better Job Opportunities,' it mentions the economic inactivity amongst younger and older citizens and the effect this has on prosperity in our communities. It is the economic inactivity of women and disabled people that pulls down many communities' average wealth, especially in areas of west Wales and the

balchder am etholwyr i ni nad ydynt bellach yn disgwyl mwy na chwe mis i weld ymgynghorydd mewn ysbyty ac nad ydynt bellach yn disgwyl mwy na chwe mis am lawdriniaeth. Ni fydd modd cyflawni pob dim o fewn un flwyddyn. Ni fyddwn wedi cyflawni'r dasg honno ymhen pedair blynedd, ond rhaid i lywodraeth newydd Cymru allu cyfeirio at gyflawniadau penodol. Os yw'r Cynulliad hwn i dyfu mewn statws ac os yw pobl Cymri i werthfawrogi'r gwaith a gyflawnwn, bydd raid inni wneud cystal ag yr ydym yn dweud. Rhaid i gyflwr y genedl fod yn well nag ydyw yn awr. Rhaid i'r Cynulliad wneud gwahaniaeth a rhaid i bobl Cymru allu sylwi ar y gwahaniaeth.

**Helen Mary Jones:** Yr wyf am sefyll i roi'r araith hon. Mae fy etholwyr yn Llanelli yn cwyno fy mod yn llechu y tu ôl i bileri yn yr ystafell hon. Nid dyna yw fy mwriad ac mae'n ymwneud â ffurf yr stafell hon ac yn brawf ychwanegol bod yr adeilad hwn, er ei fod yn dda tra bydd ef, heb fod yn ddigonol ac yn addas i'r tymor hir, gan nad wyf yn un sydd yn dueddol o lechu. Hoffwn siarad am faterion cynwysoldeb a chyfle cyfartal. Yng ngolwg fy nghefnidir a'm portffolio yng Nghabinet yr Wrthblaid, ni fyddwch yn synnu fy mod yn falch o weld y pwyslais ar y materion hyn.

Fodd bynnag, er nad yw'r ddogfen yn ceisio bod yn gynhwysfawr, cefais fy synnu a'm siomi o weld nad oedd cyfeiriad at ddau o'r grwpiau pwysicaf a eithrir yn ein cymdeithas—ein dinasyddion anabl a benywod. O dan bennawd cynwysoldeb, mae'n rhestru pobl ifanc, pobl hŷn a phobl o leiafrifoedd ethnig. Er y byddem ni yng ngrŵp Plaid Cymru yn hoffi tynnu sylw at y camwahaniaethu yn erbyn y grwpiau hyn, mae'n hollbwysig cynnwys benywod a phobl anabl.

O dan bennawd 'Gwell Cyfleoedd am Waith', mae'n sôn am anweithgaredd economaidd ymysg dinasyddion iau a hŷn ac effaith yr anweithgaredd economaidd hwn ar ffyniant yn ein cymunedau. Yr hyn sydd yn lleihau cyfoeth cyfartalog llawer o gymunedau yw anweithgaredd ymysg benywod a phobl anabl, yn enwedig mewn

Valleys communities.

Looking around the Chamber, it may be difficult to remember that women are still discriminated against in our society. We can be pleased that we have 40 per cent membership of what is 52 per cent of the population. That is an achievement when you compare us with most parliaments in Europe and is particularly good compared with Westminster. However, it is crucial that we do not forget that in Wales only 10 per cent of our Members of Parliament are women, that 70 per cent of clerical workers are women and that 30 per cent of those in managerial posts are women, and most of those are managers at a lower level. This has an impact on those people's wealth and prosperity and affects the wealth and prosperity of their families. The same is true of disabled people. There is a very high percentage of long-term sick and disabled people in our communities.

3:38 p.m.

Unless we provide wealth and job creation opportunities for those people, we will not reach the targets we set ourselves for reducing poverty. To reach the targets we need specific practical measures. I am sure many in the National Assembly wish to see practical steps such as making work places accessible to disabled people and providing effective, affordable child care support. There should be support for those with caring responsibilities to enable primary carers, who are mostly women, to participate in the workplace.

The Plaid Cymru group will press hard to ensure that over the next year those bodies for which the Assembly is responsible have specific equality targets set for them, particularly economic development organisations like the Welsh Development Agency and the Training and Enterprise Councils. If they fail to meet the equality targets there will be sanctions. I would concur with much of what has been said about it being possible to make a difference

rhannau o orllewin Cymru ac yng nghymunedau'r Cymoedd.

Wrth edrych o gwmpas y Siambr, fe allai fod yn anodd cofio bod camwahaniaethu yn digwydd o hyd yn erbyn benywod yn ein cymdeithas. Gallwn ymfalchïo bod gennym gynrychiolaeth o 40 y cant ar gyfer yr hyn sydd yn 52 y cant o'r boblogaeth. Mae hynny'n gamp pan gymharwch ni â'r rhan fwyaf o seneddau yn Ewrop ac mae'n arbennig o dda o'i gymharu â San Steffan. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig na fyddwn yn anghofio mai dim ond 10 y cant o'n Haelodau Seneddol yng Nghymru sydd yn fenywod, bod 70 y cant o weithwyr clerigol yn fenywod ac mai 30 y cant o'r rhai sydd mewn swyddi rheoli sydd yn fenywod, a bod y rhan fwyaf o'r rheini yn rheolwyr ar lefel isel. Mae hyn yn effeithio ar gyfoeth a ffyniant pobl ac yn effeithio ar gyfoeth a ffyniant eu teuluoedd. Mae'r un peth yn wir am bobl anabl. Ceir canran uchel iawn o rai â salwch tymor-hir a phobl anabl yn ein cymunedau.

Os na ddarparwn gyfleoedd i greu cyfoeth a swyddi i'r bobl hyn, ni fyddwn yn cyrraedd y targedau yr ydym wedi eu gosod i ni'n hunain er mwyn lleihau tloidi. Er mwyn cyrraedd y targedau mae arnom angen mesurau ymarferol penodol. Yr wyf yn sicr bod llawer yn y Cynulliad Cenedlaethol yn dymuno gweld camau ymarferol fel gofalu bod lleoedd gwaith yn hygyrch i bobl anabl a darparu cymorth gofal plant fforddiadwy, effeithiol. Dylid cael cymorth i rai â chyfrifoldebau cynnal fel y gall cynhalwyr cynradd, sydd yn fenywod gan mwyaf, gymryd rhan yn y lle gwaith.

Bydd grŵp Plaid Cymru yn pwyso'n drwm i sicrhau y gosodir targedau penodol o ran cydraddoldeb i'r cyrff hynny y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt, yn enwedig cyfundrefnau datblygu economaidd fel Awdurdod Datblygu Cymru a'r Cynghorau Hyfforddi a Menter. Os methant â chyflawni'r targedau cydraddoldeb hyn fe osodir sancsiynau. Byddwn yn cyd-fynd â llawer a ddywedwyd am y posibilïad o wneud gwahaniaeth yn gyflym i les pobl yn

quickly to the wellbeing of people in our communities. I agree that it is the essential task of the National Assembly to make a difference to those who have been traditionally excluded from prosperity and from the mainstream. I am sure that the First Secretary and his Cabinet Members agree that, in order to do that effectively, we must reach out to women and to disabled people.

**Christine Chapman:** In welcoming the rest of this document and echoing some previous speakers, I want to ensure that this document does not represent just fine words but will translate into real action. Much of the document almost takes the shape of an election manifesto. As we strive to establish the Assembly's credibility, we are almost putting forward our corporate aims, our pledge to the people of Wales.

Pledges mean nothing unless action and clearly targeted finance support them. Many of the desires and promises in this document need consideration and action based on consensus. We cannot expect sectors such as education and health to improve overnight. This is certainly true after the destruction wrought on them for 18 years by a Tory party which would deny even the existence of society. We must ensure that this Assembly can and does make decisions that will sometimes be hard but will bring about the rewards the people of Wales deserve.

If we take my constituency as an example and look at the local picture, the people of Cynon Valley will be concerned that, above all else, the Assembly makes a difference to their lives. They do not want unemployment. They want nice houses, they expect decent education for their children, and they deserve accessible health care. The Assembly will stand or fall on the contribution we make to people's lives in the Valleys and west Wales. They have not been designated as Objective 1 areas for no reason. Unless we make a difference to them, we may as well pack up now. That is a challenge for every one of us.

In April this year, over 2,000 people were out

ein cymunedau. Cytunaf mai tasg hanfodol y Cynulliad Cenedlaethol yw gwneud gwahaniaeth i'r rhai yr arferwyd eu heithrio o ffyniant ac o'r brif ffrwd. Yr wyf yn sicr y bydd y Prif Ysgrifennydd ac Aelodau ei Gabinet yn cytuno y bydd yn rhaid inni ymestyn allan at fenywod a phobl anabl i wneud hynny'n effeithiol.

**Christine Chapman:** Wrth groesawu gweddill y ddogfen hon ac ategu rhai o'r siaradwyr blaenorol, yr wyf am sicrhau nad yw'r ddogfen hon yn eiriau teg yn unig ond y caiff ei throi'n weithredu gwirioneddol. Mae llawer o'r ddogfen bron ar ffurf maniffesto etholiad. Wrth inni ymdrechu i sefydlu hygredded y Cynulliad, yr ydym bron â chyflwyno ein nodau corfforaethol, ein haddewid i bobl Cymru.

Nid yw addewidion yn golygu dim os na ategir hwy â gweithredu a chyllid a dargedir yn eglur. Mae angen ystyriaeth a gweithredu ar sail consensws ar gyfer llawer o'r dyheadau ac addewidion yn y ddogfen hon. Ni allwn ddisgwyl i sectorau fel addysg a iechyd wella dros nos. Mae hyn yn sicr yn wir ar ôl y dinistr a achoswyd iddynt am 18 mlynedd gan blaid Doriaidd, a fyddai'n gwadu bodolaeth cymdeithas hyd yn oed. Rhaid inni sicrhau y gall ac y bydd y Cynulliad hwn yn gwneud penderfyniadau a fydd weithiau'n anodd ond a ddaw â'r enillion y mae pobl Cymru yn eu haeddu.

Os cymerwn fy etholaeth yn enghraifft ac edrych ar y darlun lleol, bydd pobl Cwm Cynon yn awyddus, uwchlaw pob dim, i'r Cynulliad wneud gwahaniaeth yn eu bywydau. Nid ydynt am gael diweithdra. Maent am gael tŷ dymunol, maent yn disgwyl addysg foddhaol i'w plant, ac yn haeddu gofal iechyd hygyrch. Bydd y Cynulliad yn sefyll neu'n syrthio yn ôl y cyfraniad a wnawn i fywyd pobl yn y Cymoedd a gorllewin Cymru. Nid ydynt wedi eu dynodi'n ardaloedd Amcan 1 heb reswm. Os na wnawn wahaniaeth iddynt hwy, cystal inni roi'r gorau iddi yn awr. Dyna'r sialens i bob un ohonom.

Yn Ebrill eleni, yr oedd dros 2,000 o bobl yn

of work and claiming benefit in the Cynon Valley alone. The claimant rate there was 7.8 per cent—the second highest rate in Wales and the eighty-seventh highest rate in the United Kingdom. The claimant rate does not always reflect the true picture of economic inactivity and the situation is much worse. The Assembly must improve people's lives and they will tell us if we are making a difference.

Nationally the Labour Party has made a good start. The numbers unemployed in the Cynon Valley fell over 30 per cent between April 1996 and April this year. We must continue that trend. Once we have addressed the economy it is essential to address some of the other problems faced by people such as those in Cynon Valley. The link between poverty and poor health has often been made. When we start to reverse the fortunes of the economy, people's health begins to improve. It really is a bottom-up process. When we get the foundations of a safe and secure economy driven by strong business and sound policy, then we can work on better health, increased opportunities for education and training, and a safe, secure and sustainable environment.

Last week, we debated the Partnership Council. We must have strong partnerships with local government. I welcome that this document sets out values that will see strong partnership with the voluntary sector. There is a lot of expertise in this sector that will help us in transforming Wales. I am pleased that within the Assembly we have the potential to work closely with the voluntary sector. We need to regenerate our communities and make a difference to people's lives. I will quote Rod Richards here: 'We do not want wish lists.' None of us wants wish lists. Therefore I hope we will all work together constructively to enable these strong sentiments and values to translate into jobs, prosperity, education attainment and a better standard of living for those of us who live, work and play in Wales. If we do not, we have wasted the biggest opportunity we have to make a difference.

ddi-waith ac yn hawlio budd-daliadau yng Nghwm Cynon yn unig. Y gyfradd hawlio yno oedd 7.8 y cant—y gyfradd ail uchaf yng Nghymru a'r 87fed uchaf yn y Deyrnas Unedig. Nid yw'r gyfradd hawlio bob amser yn adlewyrchu'r gwir ddarlun o anweithgaredd economaidd ac mae'r sefyllfa yn waeth o lawer. Bydd yn rhaid i'r Cynulliad wella bywyadau y bobl hyn a byddant yn dweud wrthym os ydym yn gwneud gwahaniaeth.

Mae'r Blaid Lafur wedi dechrau'n dda yn genedlaethol. Cafwyd gostyngiad o dros 30 y cant yn nifer y di-waith yng Nghwm Cynon rhwng Ebrill 1996 ac Ebrill eleni. Mae'n rhaid inni barhau â'r tuedd. Wedi inni roi sylw i'r economi mae'n hanfodol inni ymdrin â rhai o'r problemau eraill a wynebhir gan bobl fel y rhai yng Nghwm Cynon. Mae'r cysylltiad rhwng tlodi ac afiechyd wedi ei nodi'n aml. Pan ddechrewn adfer yr economi, bydd iechyd pobl yn dechrau gwella. Proses sydd yn rhedeg o'r gwaelod i fyny ydyw. Wedi inni sicrhau sylfeini economi sicr a diogel, wedi ei yrru gan fusnes cryf a pholisi cadarn, wedyn gallwn weithio ar iechyd gwell, mwy o gyfleoedd ar gyfer addysg a hyfforddiant, ac amgylchedd diogel, sicr a chynaliadwy.

Yr wythnos diwethaf cawsom y ddadl am y Cyngor Partneriaeth. Rhaid inni gael partneriaethau cryf â llywodraeth leol. Croesawaf fod y ddogfen hon yn cyflwyno gwerthoedd a fydd yn sicrhau partneriaeth gref â'r sector gwirfoddol. Ceir llawer o arbenigaeth yn y sector hwn a fydd yn ein helpu wrth drawsnewid Cymru. Yr wyf yn falch bod gennym botensial yn y Cynulliad i weithio'n glòs â'r sector gwirfoddol. Mae angen inni adfywio ein cymunedau a gwneud gwahaniaeth ym mywydau pobl. Fe ddyfynnaf Rod Richards yn y fan hyn: 'Nid ydym am gael rhestrau dymuniadau.' Nid oes neb ohonom am gael rhestrau dymuniadau. Felly, gobeithio y byddwn oll yn gweithio gyda'n gilydd yn adeiladol fel y gellir troi'r dyheadau a'r gwerthoedd hyn yn swyddi, ffyniant, cyflawniadau addysgol a gwell safon byw i'r rhai ohonom sydd yn byw, yn gweithio ac yn chwarae yng Nghymru. Os na wnawn hynny, byddwn wedi gwastraffu'r

cyfle mwyaf a gawsom i wneud gwahaniaeth.

**Rhodri Glyn Thomas:** Fe wnaif i eistedd i gyflwyno fy sylwadau. Yr wyf mewn cyflwr o sioc. Yr oeddwn yn tybio fy mod wedi byw yng Nghymru rhwng 1979 a 1997. Wrth wrando ar gyfraniad Mr Rod Richards, mae'n amlwg fy mod i'n byw mewn gwlad wahanol iawn. Dywedodd Rod mai araith Alun oedd y waethaf iddo ei chlywed erioed. Wedi gwrandio ar gyfraniad Mr Rod Richards, ni ellir dweud hynny oherwydd yr oedd y cyfraniad negyddol, gwrthgynhyrchiol a gafwyd ganddo dipyn yn llai o gyfraniad o ran sylwedd ac o ran gweledigaeth na'r hyn a gafwyd gan Alun.

**Rhodri Glyn Thomas:** I will sit to give my comments. I am in a state of shock. I thought that I had been living in Wales between 1979 and 1997. Listening to Mr Rod Richards, it is obvious that I have been living in a very different country. Rod said that Alun's speech was the worst he had ever heard. Having listened to Mr Rod Richards' speech, it is impossible to say that because his negative, counter-productive contribution was of a lower standard than that given by Alun as far as substance and vision is concerned.

Ar ddiwrnod agoriad swyddogol y Cynulliad fe wnaeth rhywun ein hatgoffa mai wrth ein ffrwythau yr adnabyddir ni. Mae angen i ni gymryd sylw o'r geiriau hynny a chofio y bydd pobl yn cofio hyn sydd yn cael ei ddweud. Bydd hynny'n adlewyrchu ar y safbwynt y maen nhw'n ei gymryd.

On the Assembly's official opening day, someone reminded us that we will be known by our fruit. We must take note of those words and remember that people will remember what has been said. This will reflect on their attitude.

Diolch i Alun am ei sylwadau yn derbyn yr hyn a ddywedir gan rai fod ei gyflwyniad yn annigonol ac yn anghyflawn. Wrth gwrs ei fod—yr oedd Alun yn arwain y drafodaeth. Mae dadl yn golygu bod mwy nag un yn cyfrannu at yr hyn sydd angen ei ddweud a'r hyn sydd angen ei wneud.

Thank you, Alun, for your comments in accepting what has been said by some people, that your presentation was incomplete. Of course it was—Alun was trying to lead the discussion. A debate means that more than one person contributes to what needs to be said and needs to be done.

A gaf fi gyfeirio'n benodol at sylwadau Alun am bartneriaeth a strategaeth ar gyfer dyfodol Cymru, a chyfeirio at yr angen am bartneriaeth a strategaeth oddi mewn a'r tu allan i'r Cynulliad. Mae partneriaeth yn golygu bod rhaid i bob un ohonom sydd yn Aelodau o'r Cynulliad weithredu'n gyfrifol. Fe ddylem wneud hynny drwy beidio gwrthwynebu'r cyfan a gyflwynir gan blaid arall ond i bwysu a mesur yn ofalus yr hyn sydd yn cael ei gyflwyno, a cheisio cydweithio i sicrhau fod Cymru ar ei helw. Rhaid i ni gytuno ar flaenoriaethau, a cheisio cyflawni'r rheini, hyd yn oed os yw hynny'n golygu bod yn rhaid cyfaddawdu ar faterion llai pwysig ar adegau, er mwyn cyflawni yr hyn sydd yn wirioneddol bwysig yn y pen draw.

May I refer specifically to Alun's comments on partnership and a strategy for the future of Wales, and refer to the need for a partnership and strategy within and outside the Assembly. Partnership means that every Assembly Member must act responsibly. We should do this by not objecting to everything presented by another party. We should carefully weigh and measure what is being proposed, and endeavour to co-operate to ensure that Wales benefits from what is done. We must agree on priorities, and try to achieve them, even if we have to compromise on less important matters at times in order to accomplish what is really important in the long term.

Drwy fynychu nifer o gyfarfodydd yn y

From attending a number of meetings in the

dyddiau diwethaf, yr wyf yn sylweddoli fod syniadau a chynlluniau anturus, blaengar a mentrus yn cael eu cyflwyno yng Nghymru ar hyn o bryd. Bûm yr wythnos ddiwethaf mewn cyfarfod yng Nghaerfyrddin a oedd yn trafod y ddogfen ymgynghorol drafft ar gyfer cynigion am arian strwythurol Ewrop Amcan 1. Fe fûmi, Alun a Christine Gwyther yn agoriad swyddogol y Ganolfan Technoleg ac Arallgyfeirio Ffermio yng Ngelli Aur, Caerfyrddin. Ddoe bûm yng nghyfarfod lansio'r bartneriaeth bwyd-amaeth yn yr Halliwell, Caerfyrddin, a'r bore yma yr oeddwn ym mrecwast y CBI. Yn y manau hyn yr oedd gan bobl syniadau anturus, blaengar yr oeddent am eu gweld yn cael eu cyflawni yng Nghymru.

3:48 p.m.

Mae gennym ni, fel Aelodau o'r Cynulliad, gyfrifoldeb i geisio sicrhau bod y cynlluniau hynny yn dwyn ffrwyth yng Nghymru a bod pobl yn cael y cyfle i ddatblygu eu cynlluniau. Mae angen i ni weithredu'n gyfrifol. Mae angen i ni gadw llygad ar yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni, yn hytrach na gadael i fân bethau, nad ydynt yn sylfaenol bwysig, dynnu ein sylw. Ond hoffwn hefyd roi rhybudd. Er fy mod yn croesawu'n gyffredinol yr hyn a gyflwynwyd gan Alun, rhaid i mi ei atgoffa fod arian Amcan 1 o Ewrop yn gwbl sylfaenol i'r holl gynlluniau anturus a blaengar sydd yn bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd. Os na cheir addewid gan y Llywodraeth ei bod yn gwarantu ychwanegedd, ynghyd â sicrwydd y daw arian cyfatebol lawer iawn ynghynt na 2001, bydd mewn perygl o golli nid yn unig y cyfle i gyflawni'r strategaeth oddi mewn i'r Cynulliad, ond hefyd y cyfle i weithio mewn partneriaeth â phobl sydd yn barod iawn i gyflawni'r strategaeth oddi allan i'r Cynulliad.

**Val Feld:** I welcome this statement. As someone who, like others in this room, has spent many years working to create this institution, and who has expended a great deal of blood and sweat and tears for us all to be here, I believe that, having reached this very important point in our history, it is critical that we set out the values and the vision by which we seek to work as an

last few days, I realise that there are enterprising and innovative ideas and schemes being proposed in Wales at present. Last week, I was at a meeting in Carmarthen which discussed the draft consultative document for proposals for European Objective 1 structural funding. Myself, Alun and Christine Gwyther were at the official opening of the Technology and Farming Diversification Centre at Gelli Aur, Carmarthen. Yesterday I was at the launch of the agri-foods partnership at the Halliwell, Carmarthen, and this morning I attended the CBI breakfast. In all these places, people had enterprising, innovative plans that they were keen to see realised in Wales.

As Assembly Members, we have a responsibility to endeavour to ensure that the plans bear fruit in Wales and that people have the chance to develop their plans. We must act responsibly. We must keep an eye on what we are trying to achieve, rather than be distracted by trivial minutiae. May I give a warning, however. Although I welcome generally what has been proposed by Alun, I must remind him that the European Objective 1 money is wholly fundamental to the adventurous and innovative proposals that are being put forward in Wales at the moment. If the Government does not guarantee additionality along with a guarantee that match funding will be provided much sooner than 2001, we will be in danger of losing not only the opportunity of accomplishing this strategy within the Assembly, but also the opportunity of working in partnership with people who are very eager to fulfil the strategy outside the Assembly.

**Val Feld:** Yr wyf yn croesawu'r datganiad hwn. Fel rhywun, ynghyd ag eraill yn yr ystafell hon, a dreuliodd flynyddoedd lawer yn gweithio i greu'r sefydliad hwn, ac a gollodd lawer iawn o waed a chwys a dagrau i ni gael bod yma, credaf, ar ôl cyrraedd y pwynt hwn yn ein hanes, ei bod yn hanfodol inni amlinellu'r gwerthoedd a'r weledigaeth y dymunwn eu dilyn wrth weithio fel

Assembly. This paper accomplishes that. It sets a very broad and very appropriate parameter for the ways in which we should seek to work. In addressing the state of our nation, one major factor has enormous relevance to the success and the potential impact of this Assembly.

Over the last few days and, indeed, a month ago, it was demonstrated graphically to us how disinterested the vast majority of the people in Wales are in the political process and in this Assembly in particular. If this Assembly is to have legitimacy, we must find ways of reaching out across Wales so that people feel that the Assembly works for them and that they have a stake in what is achieved. Although this is very much about what is delivered on the ground, it is also about how people perceive this Assembly. We have a very important opportunity in the way we operate, build our partnerships and make something real out of the notion of inclusiveness, to try to engage people again in the political process and let them believe that it does actually matter to them.

We talk about partnership, and that is vitally important. Not only should we set up partnerships between the political parties in this Assembly—and we would like the Tories to be there if Rod is willing to play, if not, perhaps some of his other colleagues will be willing—it is also important to have formal partnerships with local authorities, the business community and the voluntary sector. Most important is the partnership that we develop over the years with the people of Wales, and how we reach out beyond the formal structures to the people who have not participated in this process, and those who experience the day-to-day reality of the problems of poverty and inequality with which we are dealing.

I hope inclusiveness is a word like 'motherhood' and 'apple pie', which we can all sign up to. However, what matters is what you do with it in practice. That is why debates about issues like the internet, raised

Cynulliad. Mae'r ddogfen hon yn cyflawni hynny. Mae'n pennu ffiniau eang iawn a phriodol iawn ar gyfer y dulliau y dylem geisio eu harfer yn ein gwaith. Wrth ymdrin â chyflwr ein cenedl, mae un ffactor pwysig yn berthnasol tu hwnt i lwyddiant ac effaith bosibl y Cynulliad hwn.

Dros yr ychydig ddyddiau diwethaf hyn ac, yn wir, fis yn ôl, fe ddangoswyd yn eglur i ni gyn lleied o ddiddordeb oedd gan y rhan helaethaf o'r bobl yng Nghymru yn y broses wleidyddol ac yn y Cynulliad hwn yn arbennig. Os yw'r Cynulliad hwn i'w gyfiawnhau, rhaid inni ganfod ffyrdd i ymestyn allan ar draws Cymru fel y bydd pobl yn teimlo bod y Cynulliad yn gweithio drostynt a bod ganddynt gyfran yn yr hyn a gyflawnir. Er bod hyn yn ymwneud yn bennaf â'r hyn a gyflawnir ar lawr gwlad, mae'n ymwneud hefyd â'r modd y bydd pobl yn edrych ar y Cynulliad hwn. Mae gennym gyfle pwysig iawn yn y modd y gweithredwn, yr adeiladwn ein partneriaethau a'r modd y gwnawn rywbeth real o'r syniad o gynwysoldeb i geisio cael pobl i gyfranogi eto yn y broses wleidyddol a'u cael i gredu ei bod o bwys gwirioneddol iddynt.

Soniwn am bartneriaeth, ac mae hynny'n hanfodol bwysig. Nid yn unig y dylem sefydlu partneriaethau rhwng y pleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad hwn—ac fe hoffem gael y Toriaid yno os yw Rod yn fodlon chwarae. Os nad ydyw, efallai y bydd rhai o'i gyd-weithwyr yn fodlon—mae hefyd yn bwysig cael y partneriaethau ffurfiol sydd gennym ag awdurdodau lleol, y gymuned fusnes, a'r sector gwirfoddol. Pwysicaf oll yw'r bartneriaeth a ddatblygwn dros y blynyddoedd â phobl Cymru, a'r modd y byddwn yn ymestyn allan y tu hwnt i'r strwythurau ffurfiol at y bobl sydd heb gymryd rhan yn y broses hon, a'r bobl sydd yn profi realiti bob-dydd y problemau o dlodi ac anghydraddoldeb yr ydym yn ymdrin â hwy.

Gobeithiaf bod cynwysoldeb yn air fel 'mamolaeth' a 'theisen afalau', y gallwn oll ei gefnogi. Fodd bynnag, yr hyn sydd yn bwysig yw beth a wnewch yn ymarferol. Dyna pam y mae trafodaethau ynghylch

earlier, are so important. These are important for the long-term credibility of this institution so that people feel we are accessible and can come into the Chamber or into this building to hear and to see what we are doing. The extent to which people understand the nature of our discussions and debates and the extent to which they see us out on the street is extremely important for the long-term credibility of this institution. It is equally important to have constructive debates; debates that challenge each other and get to the heart of the issues, but which are held in a climate that enables us to exchange our different ideas.

To achieve this, we must reach out beyond those formal compacts that we are establishing and find ways of drawing more people into the way the Assembly works, and find ways for us to hear their views. I hope we can do this and that the Cabinet will consider developing specific programmes. These things do not happen by osmosis: they happen by us putting in place practical programmes that find ways to reach out to communities so that they can participate. The success of programmes like inclusiveness, sustainability and equal opportunities also depends on setting tangible objectives and measuring their progress. It is important that we, as an Assembly, through our committee structures, ensure that we monitor and evaluate our qualitative progress as well as our quantitative progress.

I am not a subscriber to performance pay for the Assembly Cabinet, but we must consider ways of judging the progress we make against these values and ensure that one thing we do by statute is report on our progress towards equality. We must look at ways of reporting on our progress towards meeting our objectives under these values. The progress we make in engaging the people of Wales will be judged in another four years' time, and that element must be an important part of our programme. I hope that we can consider practical ways of establishing programmes to judge and evaluate our progress against these very important aims.

materion fel y rhyngwyd, a godwyd yn gynharach, mor bwysig. Maent yn bwysig i hygredded y sefydliad hwn yn y tymor hir fel y gall pobl deimlo ein bod yn hygyrch a'u bod yn gallu dod i'r Siambr neu i'r adeilad hwn i glywed ac i weld yr hyn a wnawn. Mae'r graddau y bydd pobl yn deall natur ein trafodaethau a'n dadleuon a'r graddau y byddant yn ein gweld allan ar y stryd yn bwysig iawn i hygredded tymor-hir y sefydliad hwn. Y mae yr un mor bwysig i gael dadleuon adeiladol; dadleuon lle y byddwn yn rhoi her i'n gilydd ac yn cyrraedd gwraidd y materion, ond a gynhelir mewn hinsawdd sydd yn ein galluogi i gyfnwedd gwahanol syniadau.

Er mwyn cyflawni hynny, rhaid inni ymestyn allan y tu hwnt i'r cytundebau ffurfiol hyn yr ydym yn eu sefydlu a chanfod ffyrdd i ddenu mwy o bobl i ddull gweithredu'r Cynulliad, a chanfod ffyrdd i ni allu clywed eu barn. Gobeithio y gallwn wneud hynny ac y bydd y Cabinet yn ystyried datblygu rhaglenni penodol. Nid yw'r pethau hyn yn digwydd drwy osmosis: maent yn digwydd drwy sefydlu rhaglenni ymarferol sydd yn canfod ffyrdd i ymestyn allan at gymunedau fel y gallant gyfranogi. Bydd llwyddiant rhaglenni fel cynwysoldeb, cynladwyedd a chyfle cyfartal yn dibynnu hefyd ar osod amcanion pendant a sylwi ar eu cynnydd. Mae'n bwysig ein bod, fel Cynulliad, drwy ein strwythurau pwyllgor, yn sicrhau y byddwn yn monitro ac yn gwerthuso ein cynnydd ansoddol yn ogystal â'n cynnydd meintiol.

Nid wyf yn un sydd yn cefnogi tâl yn ôl perfformiad i Gabinet y Cynulliad, ond rhaid inni ystyried dulliau i fesur y cynnydd a wnawn yn ôl y gwerthoedd hyn ac i sicrhau mai un o'r pethau a wnawn drwy statud yw adrodd ar ein cynnydd tuag at gydraddoldeb. Rhaid inni ystyried dulliau i adrodd ar ein cynnydd tuag at gyflawni'n hamcanion o dan y gwerthoedd hyn. Rhoddir barn ar y cynnydd a wnawn wrth gysylltu â phobl Cymru ymhen pedair blynedd arall, a rhaid i'r elfen honno fod yn rhan bwysig o'n rhaglen. Gobeithio y gallwn ystyried dulliau ymarferol i sefydlu rhaglenni sydd yn mesur ac yn gwerthuso ein cynnydd ochr yn ochr â'r nodau pwysig hyn.

**Janet Davies:** These programmes may be in the back of people's minds but have not been phrased explicitly. Expressing values for the Assembly is very important. My first point has been made strongly by Val: that is, the need to test performance. The statement does say that we will test our policies and programmes and will constantly test the added value and the effectiveness of our work. However, testing on its own is not good enough; we must also take action to remedy any unsatisfactory areas. It is very dangerous to think that testing is all that is needed; we need to strive constantly to improve our standards. Over the past decade, there have been times when bodies or behaviour have been investigated and have not come up to standard. What we actually get is some rather bureaucratically-phrased criticism. No action is taken and there is no explanation of the criticism. Among the ordinary people of Wales, this leads to a festering resentment and festering gossip. The Assembly must take action to ensure that people understand what is happening and what is being done.

3:58 p.m.

My second point concerns the paragraph on better education. I am pleased to see a statement on 'active citizenship', but we also need to ensure that education is broad based, and that it provides an awareness of broad cultural values. It must develop children's ability to think and criticise constructively so that they can tackle problems and difficulties arising in their lives effectively and help other people to do so. It is important that our children acquire a basic knowledge of science and technology as well as the arts and the philosophy and culture of this country and of their own ethnic background. Wales has a radical socialist inheritance that has been expressed in caring for others, in fair play, and in understanding values of community, society and the nation. I want future generations to be aware of those values. Continuing generations of Thatcher's children would be to the detriment of this country.

**Janet Davies:** Efallai fod y rhaglenni hyn yng nghefn meddyliau pobl ond nid ydynt wedi eu geirio'n eglur. Mae mynegi gwerthoedd ar gyfer y Cynulliad yn bwysig iawn. Mae fy mhwynt cyntaf wedi ei wneud yn gryf gan Val: hynny yw, yr angen i roi prawf ar berfformiad. Mae'r datganiad yn dweud y byddwn yn profi'n polisiau a'n rhaglenni ac y byddwn yn profi gwerth ychwanegol ac effeithiolrwydd ein gwaith yn gyson. Fodd bynnag, nid yw profi ar ei ben ei hun yn ddigon da; rhaid inni hefyd weithredu i gywiro unrhyw feysydd anfoddfaol. Peryglus iawn yw meddwl mai profi yw'r unig beth angenrheidiol; rhaid inni ymdrechu'n gyson i wella ein safonau. Dros y degawd a aeth heibio, fe fu adegau pan ymchwiliwyd i gyrff neu ymddygiad a chael nad oeddent yn cyrraedd y safon. Yr hyn a gawn mewn gwirionedd yw rhyw feirniadaeth mewn iaith sydd braidd yn fiwrocraidaidd. Ymhlith pobl gyffredin Cymru, mae hyn yn arwain at fagu drwgdeimlad ac at ledaenu straeon. Rhaid i'r Cynulliad weithredu i sicrhau bod pobl yn deall yr hyn sydd yn digwydd a'r hyn a wneir.

Mae'r ail bwynt sydd gennyf yn ymwneud â'r paragraff ar addysg well. Yr wyf yn falch o weld datganiad ar 'ddinasyddiaeth weithredol', ond mae angen inni hefyd sicrhau bod addysg yn eang, a'i bod yn rhoi dealltwriaeth o werthoedd diwylliannol eang. Rhaid iddi ddatblygu gallu plant i feddwl ac i feirniadu'n adeiladol fel y gallant ymdrin yn effeithiol â phroblemau ac anawsterau sydd yn codi yn eu bywydau a helpu pobl eraill i wneud hynny. Mae'n bwysig bod modd i'n plant gael gwybodaeth sylfaenol am wyddoniaeth a thechnoleg yn ogystal â'r celfyddydau ac athroniaeth a diwylliant y wlad hon ac am eu cefndir ethnig eu hunain. Mae gan Gymru dreftadaeth sosialaidd radicalaidd a fynegwyd drwy ofal am eraill, drwy chwarae teg, a drwy ddeall gwerthoedd y gymuned, y gymdeithas a'r genedl. Yr wyf am i genedlaethau'r dyfodol wybod am y gwerthoedd hynny. Byddai rhagor o genedlaethau o blant Thatcher yn niweidiol

i'r wlad hon.

**Brian Gibbons:** On Rod Richards' comments about the legacy of his government—in the Valleys where I have lived for the last twenty years, we have a generation of Thatcher's children. A large segment of the population is disaffected and alienated from society, unemployable, uneducated, living with the legacy of a generation of policies which Rod Richards was—

**David Davies:** Is it not the case that throughout those years, Labour councils dominated the grey Valleys that you describe?

**Brian Gibbons:** Labour councils were not responsible for closing the coal mines or creating the economic environment that resulted in the industrial base of Wales almost disappearing down the plug-hole.

I commend this document to the Assembly. Some people have said, as almost a criticism, that it has a very warm, cuddly feel about it—a feel-good ethos. Surely, that is a virtue. If we succeed in building a society and country with a warm, feel-good factor, we will have achieved something. That is what we should aspire to. We must support this document because it encapsulates these values.

The document should also be commended because it deals with the challenge of ill health. The relative standing of Wales has deteriorated quite significantly in this area over the last 20 to 25 years. The health of the Welsh nation has been deteriorating relative to other parts of the UK and Europe as a whole. One of the main reasons why I was strongly in favour of the move towards devolution in Wales was because of the failings of centralised policies. It is only by taking responsibility for our own affairs, and by developing policies, that we will be able to deal with that legacy.

The health of Welsh people does not arise from some constitutional or genetic weakness and it is not simply a problem of NHS

**Brian Gibbons:** Ynglŷn â sylwadau Rod Richards am gymynrodd ei lywodraeth ef— yn y Cymoedd lle'r wyf yn byw ers ugain mlynedd, mae gennym genhedlaeth o blant Thatcher. Mae cyfran fawr o'r boblogaeth wedi ei dieithrio a'i phellhau oddi wrth gymdeithas, yn anghyflogadwy, yn ddi-addysg, yn byw gyda'r gymynrodd o genhedlaeth o bolisiau yr oedd Rod Richards—

**David Davies:** Onid yw'n wir mai cynghorau Llafur oedd yn tra-arglwyddiaethu yn y Cymoedd llwydion a ddisgrifiwch, drwy'r blynyddoedd hynny?

**Brian Gibbons:** Nid cynghorau Llafur oedd yn gyfrifol am gau'r pyllau glo neu greu'r amgylchedd economaidd a barodd i sylfaen economaidd Cymru ddi-flannu i ebargofiant bron.

Yr wyf yn cymeradwyo'r ddogfen hon i'r Cynulliad. Dywedodd rhai, fel beirniadaeth bron, fod ymdeimlad cynnes a mynwesol iawn yn ei chylch—ethos teimlad-da. Siawns bod hynny'n rhinwedd. Os llwyddwn i adeiladu cymdeithas a gwlad ag elfen gynnes, ac ymdeimlad da, byddwn wedi cyflawni rhywbeth. At hynny y dylem anelu. Rhaid inni gefnogi'r ddogfen hon am ei bod yn ymgorffori'r gwerthoedd hyn.

Dylid cymeradwyo'r ddogfen hefyd am ei bod yn ymdrin â sialens afiechyd. Mae sefyllfa gymharol Cymru wedi dirywio'n eithaf sylweddol yn y maes hwn dros yr 20 i 25 mlynedd diwethaf. Mae iechyd cenedl y Cymry wedi dirywio o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU ac Ewrop gyfan. Un o'r rhesymau pam yr oeddwn yn gryf o blaid y symudiad at ddatganoli yng Nghymru oedd oherwydd methiannau polisiau canolog. Dim ond drwy ymgymryd â chyfrifoldeb dros ein materion ein hunain, a drwy ddatblygu polisiau, y gallwn ymdrin â'r hyn a etifeddwyd gennym.

Nid yw iechyd pobl Cymru yn ganlyniad i ryw wendid corfforol neu enetig ac nid yw'n broblem syml o ddiffygion yr NHS. Mae'n

inadequacies. It is the legacy of the social and economic circumstances in which people have found themselves over the last twenty years. We should endorse this statement of values, because it represents a holistic response to that legacy. The statement recognises the importance of education, economic regeneration, and that of valuing our citizens. If we achieve progress in these areas, as Christine stated earlier, we will go a long way towards responding to the challenge posed by ill health, which is currently part of the Welsh legacy.

However, it is not just about dealing with the determinants of ill health, we also need an NHS that will respond to current problems of ill health. We have an NHS that is more streamlined and focused on dealing with ill health within our population. We have an end to the waste and division resulting from the internal market and the multiplicity of trusts established to create competition. The NHS works best through co-operation and it was failing because of competition. If we adopt the inclusivist, co-operative approach encapsulated by these values, the NHS will provide a better service.

We are moving towards a new era in health care planning for our community. We have established local health groups in which frontline health care staff will be actively involved in the planning and delivery of care. Family doctors, nurses, representatives from the voluntary sector, members of the public and local government are coming together to plan better health care for their communities and to ensure it is delivered. This exemplifies these values being applied in practice. We have a unique opportunity in Wales, because of the way the health service planning was developed. There is a unique coterminous relationship between local government authorities and the health service, which is one of the most attractive aspects of the type of social policy being developed.

This document promotes co-operation and integration. We will have a more open and

ganlyniad i'r amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd a brofwyd gan bobl dros yr ugain mlynedd diwethaf. Dylem gefnogi'r datganiad gwerthoedd hwn, am ei fod yn dangos ymateb cyfannol i'r hyn a etifeddwyd. Mae'r datganiad yn cydnabod pwysigrwydd addysg, adfywiad economaidd, a gwerthfawrogi ein dinasyddion. Os byddwn yn sicrhau cynnydd yn y meysydd hyn, fel y dywedodd Christine yn gynharach, fe awn ymhell iawn tuag at ateb y sialens a roddir gan afiechyd, sydd yn rhan o'r etifeddiaeth Gymreig.

Fodd bynnag, mae'n ymwneud â mwy nag ymdrin â'r hyn sydd yn pennu afiechyd. Yn ogystal â hynny, mae arnom angen NHS fydd yn ymateb i broblemau afiechyd cyfredol. Mae gennym NHS sydd wedi ei ailwampio ac yn canolbwyntio ar ymdrin ag afiechyd o fewn ein poblogaeth. Gwelsom ddiwedd ar y gwastraff a'r ymrannu o ganlyniad i'r farchnad fewnol a'r nifer fawr o ymddiriedolaethau a sefydlwyd i greu cystadleuaeth. Mae'r NHS yn gweithio orau drwy gydweithredu ac yr oedd yn methu oherwydd cystadlu. Os mabwysiadwn y dull gweithredu cynhwysol, cydweithredol a grynhoir yn y gwerthoedd hyn, bydd yr NHS yn darparu gwasanaeth gwell.

Yr ydym yn gweithio tuag at oes newydd yn y cynllunio o ofal iechyd i'n cymuned. Yr ydym wedi sefydlu grwpiau iechyd lleol lle y bydd y staff gofal iechyd rheng-flaen yn cymryd rhan weithredol wrth gynllunio a chyflenwi gofal. Mae meddygon teulu, nyrsys, cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol, aelodau o'r cyhoedd a llywodraeth leol yn dod at ei gilydd i gynllunio gwell gofal iechyd i'w cymunedau ac i sicrhau y caiff ei gyflenwi. Mae hyn yn enghraifft o roi'r gwerthoedd hyn ar waith. Mae gennym gyfle unigryw yng Nghymru, oherwydd y ffordd y datblygwyd cynlluniau'r gwasanaeth iechyd. Ceir perthynas gydffiniol unigryw rhwng awdurdodau llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd, sydd yn un o'r agweddau mwyaf deniadol ar y math o bolisi cymdeithasol sydd yn cael ei ddatblygu.

Mae'r ddogfen hon yn hybu cydweithredu ac integreiddio. Bydd gennym wasanaeth iechyd

accountable health service leading to improved health conditions for the Welsh people. This spirit of co-operation will lead to a better Wales, a healthier Wales and a more responsive NHS.

**Jocelyn Davies:** I have a brief observation to make on the document and a request to the First Secretary, so I hope he is paying attention and not signing letters.

**The First Secretary:** I am sorry but—

**Jocelyn Davies:** I apologise, it was flippant of me. I have a very good view of what you are doing and I can see that you are not signing letters.

We should be aware that the Assembly will be subject to the newly created Human Rights Act that incorporates the European Convention into our domestic law. On 1 July, the Assembly will be the only body in the UK subject to these national obligations, impacting on everything we do here. Through the Assembly, the issue of human rights comes home to Wales first. I ask the First Secretary to mark the Assembly's unique status in this respect by amending the 'The Values for National Assembly Work' to expressly include our respect for human rights under the heading 'better quality of life'.

**David Melding:** I will not start by quoting gospel, but I will register preference myself for St John rather than St Matthew.

I start by wishing the Executive well. This is a new institution, a new model of government and we expect a great deal from members of the Executive, many of whom have been catapulted into roles they did not anticipate several months ago. It is not easy to run things, and many of us with experience of running organisations will realise that taking executive responsibility and being responsible for outcomes, is a difficult task. It will not benefit the Welsh people if we wish Labour ill in that task, so I do genuinely

mwya agored ac atebol a fydd yn arwain at amodau iechyd gwell i bobl Cymru. Bydd yr ysbryd cydweithredol yn arwain at Gymru well, Cymru iachach ac NHS sydd yn fwy ymatebol.

**Jocelyn Davies:** Mae gennyf sylw byr i'w roi ar y ddogfen a chais i'r Prif Ysgrifennydd, felly gobeithio ei fod yn cymryd sylw ac nid yn arwyddo llythyrau.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'n ddrwg gennyf ond—

**Jocelyn Davies:** Yr wyf yn ymddiheuro. Yr oedd hynny'n sylw anystyriol ar fy rhan. Fe welaf beth yr ydych yn ei wneud yn dda iawn a gallaf weld nad ydych yn arwyddo llythyrau.

Fe ddylem fod yn ymwybodol y bydd y Cynulliad yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Hawliau Dynol newydd sydd yn cynnwys y Cytundeb Ewropeaidd yn ein cyfraith ddomestig. Ar 1 Gorffennaf, y Cynulliad fydd yr unig gorff yn y DU a fydd yn atebol i'r rhwymedigaethau cenedlaethol hyn fydd yn effeithio ar bopeth a wnawn yma. Drwy'r Cynulliad, fe ddaw mater hawliau dynol adref i Gymru gyntaf. Gofynnaf i'r Prif Ysgrifennydd nodi statws unigryw'r Cynulliad yn hyn o beth drwy ddiwygio'r 'Gwerthoedd ar gyfer Gwaith y Cynulliad Cenedlaethol' i gynnwys yn benodol ein parch at hawliau dynol o dan y pennawd 'ansawdd bywyd gwell'.

**David Melding:** Nid wyf am ddechrau drwy ddyfynnu o'r efengyl, ond fe nodaf ei bod yn well gennyf Ioan na Mathew.

Fe ddechreuaf drwy ddymuno'n dda i'r Adran Weithredol. Mae hwn yn sefydliad newydd, yn fodel newydd o lywodraeth ac yr ydym yn disgwyl llawer iawn oddi wrth aelodau'r Adran Weithredol, lawer ohonynt wedi eu dyrchafu'n sydyn i rolau nad oeddent yn eu disgwyl rai misoedd yn ôl. Nid yw'n hawdd rhedeg pethau, a bydd llawer ohonom sydd â phrofiad o redeg cyfundrefnau yn sylweddoli bod ymgymryd â chyfrifoldeb gweithredol a bod yn gyfrifol am ganlyniadau, yn dasg anodd. Ni fyddai er

wish you well.

budd pobl Cymru pe baem yn dymuno'n ddrwg i Lafur yn y dasg honno, felly yr wyf yn dymuno'n dda i chi yn ddiffuant.

4:08 p.m.

This document can reasonably be accepted. It is about aspirations. How we achieve aspirations is the stuff of politics. I reserve my right to examine that with great detail and oppose when appropriate.

Fe ellir derbyn y ddogfen hon yn rhesymol. Mae'n ymwneud â dyheadau. Y modd y byddwn yn cyflawni dyheadau yw mater gwleidyddiaeth. Cadwaf fy hawl i archwilio hynny'n fanwl ac i wrthwynebu pan fo hynny'n briodol.

My view is that consensus, like alcohol, is a splendid thing in moderation. As a Conservative, I have not been put here to become one of Labour's little helpers. I am here to oppose Labour where appropriate—not in a gratuitous sense. However, to sit back and accept what is proposed will not improve public policy. It is important that we harry, examine and encourage. That is done from a centre-right view.

Fy marn i yw bod consensws, fel alcohol, yn beth ardderchog yn gymedrol. Fel Ceidwadwr, ni chefais fy rhoi yma i fod yn un o weision bach Llafur. Yr wyf yma i wrthwynebu Llafur pan fo hynny'n briodol—nid mewn ystyr mympwyol. Fodd bynnag, ni fyddai eistedd yn ôl a derbyn yr hyn a gynigir yn gwella polisi cyhoeddus. Mae'n bwysig inni blagio, archwilio a rhoi anogaeth. Fe wneir hynny o sabwynt dde-ganol.

There is an item on partnership I would like to have seen in this document. That is, to strengthen the constitutional integrity of the United Kingdom. We all believe the United Kingdom has served the British people well. We passionately believe the constitutional integrity of this country must be maintained. The Conservative Party believes that is best done through unitary state. Most Conservatives took that view at the devolution referendum. However, we have moved on. We have accepted the decision and it has caused us some difficulty with our supporters. Naturally, in our election campaign supporters told us, 'We are not going to vote because we did not want this institution.' Well, it has been established and we must work to ensure it succeeds. To send British people, particularly Welsh people, a mixed message now would be damaging to the constitutional integrity of Great Britain. We must work with other parties and institutions throughout the United Kingdom to ensure that we evolve a perfectly balanced constitution. That will take some time. I am not saying it can be done instantly. To say the Labour Party needs time is not meant as a backhanded compliment. We all need time. It is something for which we must work.

Mae un eitem ar bartneriaeth y buaswn wedi hoffi ei gweld yn y ddogfen hon. Hynny yw, i gryfhau undod cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig. Yr ydym oll yn credu bod y Deyrnas Unedig wedi gwasanaethu pobl Prydain yn dda. Yr ydym yn credu'n angerddol bod rhaid cadw undod cyfansoddiadol y wlad hon. Mae'r Blaid Geidwadol yn credu y gwneir hynny orau drwy wladwriaeth unedol. Dyna oedd barn y rhan fwyaf o Geidwadwyr ar adeg y refferendwm ar ddatganoli. Fodd bynnag, yr ydym wedi symud ymlaen. Yr ydym wedi derbyn y penderfyniad ac mae hynny wedi peri rhywfaint o anhawster ymysg ein cefnogwyr. Yn naturiol, yn ein hymgyrch etholiadol fe ddywedodd ein cefnogwyr wrthym, 'Nid ydym am bleidleisio am nad oeddem am gael y sefydliad hwn.' Wel, mae wedi ei sefydlu a rhaid inni weithio er mwyn sicrhau ei lwyddiant. Byddai anfon neges gymysg yn awr at bobl Prydain, a phobl Cymru yn arbennig, yn niweidiol i undod cyfansoddiadol Prydain Fawr. Rhaid inni weithio gyda phleidiau a sefydliadau eraill drwy'r Deyrnas Unedig i sicrhau y byddwn yn datblygu cyfansoddiad cwbl gytbwys. Bydd angen peth amser i wneud hynny. Nid wyf yn dweud y gellir gwneud hynny ar unwaith. Wrth ddweud bod ar y Blaid Lafur

angen amser, nid wyf yn golygu hynny fel canmoliaeth ddeufiniog. Mae angen amser arnom i gyd. Mae'n rhywbeth y bydd yn rhaid inni weithio drosto.

I want to say and record without any ambiguity that, when Her Majesty the Queen graciously opened this institution, I thought the Assembly had great presence. None of this will ever be put back—we have moved away from the way we were governed. We are probably in a dynamic process. I think it will end up as a form of federal state. However, that movement has started and I can assure you I will want to be very constructive in the way we develop our constitutional procedures. [*Applause.*] I am very unused to applause in my status as a Conservative representative. I cannot promise to be constructive forever. When we come to examine the Assembly's proposals to achieve these aspirations, we will, as Conservatives, be properly critical. I hope that in four years' time, Welsh people will say: 'We were uncertain. We did decide by a narrow margin to have a Welsh Assembly, but now we do believe that our public services have been improved.'

Yr wyf am ddweud ac am roi ar gof a chadw yn gwbl ddiamwys fy mod yn teimlo, pan agorwyd y sefydliad hwn yn rasol gan Ei Mawrhydi y Frenhines, fod y Cynulliad yn meddu ar urddas mawr. Ni roddir dim o hyn yn ôl—yr ydym wedi symud oddi wrth y modd y cawsom ein llywodraethu. Mae'n fwy na thebyg ein bod mewn proses ddynamig. Credaf y bydd yn gorffen fel ffurf ar wladwriaeth ffederal. Fodd bynnag, mae'r symudiad hwnnw wedi dechrau a gallaf eich sicrhau y byddaf am fod yn adeiladol iawn o ran datblygu ein gweithdrefnau cyfansoddiadol. [*Cymeradwyaeth.*] Nid wyf wedi arfer o gwbl â chymeradwyaeth yn fy statws fel cynrychiolydd Ceidwadol. Ni allaf addo bod yn adeiladol am byth. Pan ddeuwn i archwilio cynigion y Cynulliad i gyflawni'r dyheadau hyn, fe fyddwn, fel Ceidwadwyr, yn feirniadol mewn modd priodol. Gobeithio, ymhen pedair blynedd, y bydd pobl Cymru'n dweud: 'Yr oeddem yn ansicr. Fe fu inni benderfynu o leiafrif bychan i gael Cynulliad Cymreig, ond fe gredwn yn awr fod ein gwasanaethau cyhoeddus wedi eu gwella.'

That is not only for the Assembly to achieve, but all parties.

Nid rhywbeth i'w gyflawni gan y Cynulliad yn unig yw hynny, ond i'r holl bleidiau.

**Gareth Jones:** Croesawaf y gwerthoedd cadarnhaol sydd yn y ddogfen hon. Nid oes gennyf unrhyw sylwadau goleuedig, nac fel arall. Ni fyddaf ychwaith yn eich cynghori ynghylch y modd y dylech weinyddu eich busnes. Os ydych am ffraeo, ymgecu neu fod yn adeiladol, yr wyf yn sicr y byddwch yn dilyn pa drywydd bynnag a ddymunwch. Nid yw o fawr bwys pwy sydd yn gyfrifol am gyflwr ein gwlad fel y mae heddiw: boed 20 mlynedd neu ragor o gamweinyddu, hanes yw hanes. Yr hyn y mae'n rhaid i ni gytuno arno—ac yr wyf yn teimlo ein bod yn gwneud hynny—yw bod cyflwr ein gwlad yn peri pryder a gofid i bob un ohonom. Dyna'r man cychwyn i'r Cynulliad, a rhaid inni fod yn gadarnhaol ac edrych ymlaen.

**Gareth Jones:** I welcome the positive values contained in this document. I do not have any enlightened comments or otherwise. Neither will I give you advice on how to proceed about your business. If you want to bicker, fight or be constructive, I am sure you will follow whichever route you wish to take. It does not matter who is responsible for the state of our nation as it is today: whether we have had 20 years or more of maladministration, history is history. What we must agree on—and I believe we are agreed—is that the state of our nation is a cause of concern to each of us. That is the Assembly's starting point, and we must be positive and look forward.

Clywsom lawer o sôn hefyd am We have heard a great deal of talk of visions.

weledigaethau. Mae gan bob un ohonom ei weledigaeth. Yr hyn sydd yn peri pryder i mi yw bod y gweledigaethau hynny, o'r hyn a glywaf, yn seiliedig i raddau helaeth ar arian Amcan 1. Yr ydym yn rhoi ein hwyau i gyd yn yr un fased, gan feddwl mai hwn yw'r ateb a fydd yn diwallu anghenion ein gwlad. Gobeithiaf o waelod fy nghalon fod hynny yn wir ac y gallwn edrych ymlaen at hynny. Nid wyf yn mynd i boeni'r Prif Ysgrifennydd drwy ofyn pryd y daw'r arian: mae'r cwestiwn hwnnw wedi ei ofyn droeon, a chyfeiriwyd at Ebrill 2001. Os bydd rhaid inni aros tan hynny i gael arian o'r Trysorlys, beth yw'r sefyllfa yn y cyfamser o ran arian o'r sector preifat? Os bydd arian o'r sector preifat ar gael y flwyddyn nesaf, dyweder, a bod prosiectau yng Nghymru yn barod i symud ymlaen, a yw'r weinyddiaeth yn ei lle gennym ni drwy'r Cynulliad? A yw'r dulliau a'r prosesau ar gyfer y math hwn o ddatblygiad yn barod gennym? Yr wyf braidd yn amheus a yw'r trefniadau hynny yn eu lle a thybaf y bydd arian yn cael ei ddal yn ôl—arian a fyddai ar gael inni i adfywio'r economi. Hoffwn gael sylw ar y pwynt hwnnw.

**Mick Bates:** I agree with the document. However, this is a debate where we need guidance. A motto might be just the thing we need. A great man, Lloyd George, a fine Liberal, said:

'the finest eloquence is that which gets things done.'

Essentially, we missed three points in this document. It lacks courage, targets and the need for a proactive culture. The rhetoric is fine. However, I see lack of targets. I need to see targets in rural and community development. I see a lack of courage when the Government leaves out Chapter 8 of the draft legislation about better government and the empowerment of community. This is where we should lead in the state of this nation. We must create targets that will make us world leaders. This can be done, in community development and production of sustainable energy. This document should

We all have our own personal vision. What causes me concern is that those visions, from what I hear, are to a great extent based on Objective 1 funding. We are placing all our eggs in one basket, thinking that this will bring the answer that will meet the needs of our country. I hope, from the bottom of my heart, that that is true and that we will be able to look forward to that. I will not bother the First Secretary by asking when the funding will come, because that question has been asked time after time. We have heard references to April 2001. If we have to wait until then to get this funding from the Exchequer, what is the situation in the interim concerning private sector funding? If private sector funding is available, let us say next year, and there are projects in Wales ready to proceed, do we have the administration in place through this Assembly? Do we have the methods and processes for that kind of development in place? I am rather sceptical whether that mechanism is in place and I think the money will be held back—money which would otherwise be available for us to regenerate the economy. I would like a comment on that.

**Mick Bates:** Yr wyf yn cytuno â'r ddogfen. Fodd bynnag, mae hon yn ddadl lle y mae arnom angen arweiniad. Efallai mai arwyddair fyddai'r union beth i ni. Fe ddywedodd un dyn mawr, Lloyd George, Rhyddfrydwr ardderchog:

'yr huotledd gorau yw hynny sydd yn arwain at gyflawni pethau.'

Yn y bôn, yr oeddem yn gweld diffyg tri phwynt yn y ddogfen hon. Mae diffyg dewrder ynddi, diffyg targedau a'r angen am ddiwylliant rhagweithiol. Mae'r rhethreg yn iawn. Fodd bynnag, gwelaf ddiffyg targedau ynddi. Rhaid imi gael gweld targedau mewn datblygu gwledig a chymunedol. Gwelaf ddiffyg dewrder pryd y mae'r Llywodraeth yn hepgor Pennod 8 o'r ddeddfwriaeth ddraft am lywodraeth well a galluogi'r gymuned. Dyma lle y dylem arwain yng nghyflwr y genedl hon. Rhaid inni greu targedau a fydd yn ein gwneud yn arweinwyr byd-eang. Fe ellir gwneud hynny, mewn datblygu

have real targets: 30 per cent from renewables by 2010; 10 per cent of new small businesses—perhaps, one day. Let us target and encourage the fine words we hear today. This is the only way we will move towards a better future. Without this courage to direct the Welsh Development Agency and Training and Enterprise Councils to meet annual targets, in four years' time we will find ourselves with empty rhetoric and electors who will not vote. I urge these points, based on that great Liberal, father of this house, Lloyd George's words. Courage, targets and a proactive culture to permeate the Welsh Office, so that innovation will live through the Assembly.

cymunedol a chynhyrchu ynni cynaliadwy. Dylai'r ddogfen hon gynnwys targedau gwirioneddol: 30 y cant oddi wrth ynni adnewyddadwy erbyn 2010; 10 y cant o fusnesau bychain newydd—efallai, ryw ddydd. Gadewch inni bennu targedau a rhoi hwb i'r geiriau teg a glywn ni heddiw. Dyma'r unig ffordd y symudwn ymlaen tuag at ddyfodol gwell. Heb y dewrder hwn i gyfarwyddo Awdurdod Datblygu Cymru a'r Cynghorau Hyfforddi a Menter i gyrraedd targedau blynyddol, byddwn yn cael ymhen pedair blynedd fod gennym rethreg wag ac etholwyr na fyddant am bleidleisio. Rhoddaf bwys ar y pwyntiau hyn, ar sail geiriau'r Rhyddfrydwr mawr hwnnw, Lloyd George – a thad y tŷ hwn. Dewrder, targedau a diwylliant rhagweithiol i hydreiddio'r Swyddfa Gymreig, fel y bydd arloesi yn byw drwy'r Cynulliad.

4:18 p.m.

**Richard Edwards:** I represent the constituency of Preseli Pembrokeshire, notable for a steep decline in economic prosperity over 18 years of Mr Richards' Government. The constituency has missed out on the increased investment and opportunities provided in some other parts of Wales, so I welcome the commitment in this document—which is a values document and not an action plan as such—to reducing disparities in the regions of Wales and to closing the economic performance gap. I also welcome the commitment to increasing opportunities in less prosperous areas and to recognising the specific needs of rural areas and areas of social deprivation. In my constituency, there are rural and urban areas of deprivation. The paramount concern of this Assembly should be to prioritise the problems of people most in need—including the disabled as Helen Mary Jones has mentioned—and regions most in need, and then to invest in those people, and to develop employment opportunities in those areas, such as my constituency.

**Richard Edwards:** Yr wyf yn cynrychioli etholaeth Preseli Sir Benfro, sydd yn nodedig oherwydd dirywiad cyflym yn ei ffyniant economaidd dros 18 mlynedd o Lywodraeth Mr Richards. Mae'r etholaeth wedi methu cael y buddsoddiad a'r cyfleoedd mwy a ddarparwyd mewn rhai rhannau eraill o Gymru, felly croesawaf yr ymrwymiad yn y ddogfen hon—sydd yn ddogfen o werthoedd ac nid yn gynllun gweithredu fel y cyfryw—i leihau'r gwahaniaethau rhwng rhanbarthau Cymru a chau'r bwlch yn y perfformiad economaidd. Yr wyf hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i gynyddu cyfleoedd mewn ardaloedd llai ffyniannus ac i gydnabod anghenion penodol ardaloedd gwledig ac ardaloedd lle y ceir amddifadedd cymdeithasol. Yn fy etholaeth i, fe geir ardaloedd o amddifadedd yn y wlad a'r dref. Dylai fod yn ddiddordeb pennaf gan y Cynulliad hwn i flaenoriaethu problemau pobl sydd â'r angen mwyaf—yn cynnwys yr anabl fel y crybwyllodd Helen Mary Jones—a rhanbarthau sydd â'r angen mwyaf, ac wedyn buddsoddi yn y bobl hynny, a datblygu cyfleoedd gwaith yn yr ardaloedd hynny, fel fy etholaeth i.

**Jenny Randerson:** There is nothing in this document with which I would disagree, but at the same time I am disappointed because

**Jenny Randerson:** Nid oes dim yn y ddogfen hon y byddwn yn anghytuno ag ef, ond ar yr un pryd yr wyf yn siomedig am nad

there is nothing to inspire us to change. I am afraid that I agree with Rod Richards in some ways, but do not worry, I am not going to express myself in the same way. I find it a disappointing document. It is a bit like a Tory manifesto: it has many headlines but little detail. What disappoints me is what it does not say rather than what it does say, that and its lack of vision and lack of precision about targets. You do not have to prescribe how to reach those targets, but you have to set targets. We all want, for example,

‘to enhance existing environmental quality and tackle areas which need improvement’

but the key issue is how will we do this, when will we do this, and where will we do this.

We all want good public transport. I would like to go further and talk about an integrated transport system. Good public transport in rural areas is a key issue in rural poverty and social exclusion. Integrated ticketing in our urban areas is a key issue in tackling pollution in the cities and towns. I would have liked to have seen that. I am particularly disappointed in the section headed ‘Better Job Opportunities’, because this is surely the most important issue. Better quality jobs, better paid jobs and more jobs are crucial to our quality of life and our health.

A document written at this time in Welsh history should not be without some reference to Objective 1 money and exactly what mechanisms and timescale are proposed for its implementation. I am not asking the First Secretary about the timing again, I am just asking how soon we can expect Objective 1 to start making a difference.

There is a welcome reference in the document to the promotion of Welsh culture and language, but we would have liked to have seen more emphasis placed on the fact that we are citizens of Europe too. Doing business in Europe is vital to our prosperity.

oes dim i'n hysbrydoli i newid. Mae arnaf ofn fy mod yn cytuno â Rod Richards ar rai pethau, ond peidiwch â phoeni, nid wyf am fy mynegi fy hun yn yr un modd. Mae braidd fel manifesto Toriaidd: mae llawer o benawdau ynddo ond prin yw'r manylion. Yr hyn sydd yn fy siomi yw'r hyn na ddywedir yn hytrach na'r hyn a ddywedir, hynny a'i diffyg gweledigaeth a'i diffyg manylder ynghylch targedau. Nid oes raid ichi ragnodi sut i gyrraedd y targedau hynny, ond rhaid ichi osod targedau. Mae pawb ohonom, er enghraifft, o blaid,

‘gwella ansawdd presennol yr amgylchedd ac ymdrin â meysydd y mae angen eu gwella’

ond y mater allweddol yw sut y byddwn yn gwneud hynny, pa bryd, ac ym mhle.

Mae pawb ohonom o blaid cludiant cyhoeddus da. Fe garwn i fynd ymhellach a sôn am system drafnidiaeth integreiddiedig. Mae cludiant cyhoeddus da mewn ardaloedd gwledig yn fater allweddol mewn tloidi gwledig ac eithrio cymdeithasol. Mae ticedu integreiddiedig yn ein hardaloedd trefol yn fater allweddol wrth fynd i'r afael â llygredd yn y trefi a'r dinasoedd. Buaswn wedi hoffi gweld hynny. Yr wyf yn arbennig o siomedig yn yr adran o dan y pennawd ‘Gwell Cyfleoedd am Waith’, oherwydd mae'n sicr mai hwn yw'r mater pwysicaf. Mae cael swyddi o ansawdd gwell, swyddi â chyflogau gwell a mwy o swyddi yn hanfodol i ansawdd ein bywyd a'n hiechyd.

Ni ddylai dogfen a ysgrifennwyd ar yr adeg hon yn hanes Cymru fod heb ryw gyfeiriad at arian Amcan 1 ac yn union pa fecanweithiau ac amserlen a gynigir i'w weithredu. Nid wyf yn holi'r Prif Ysgrifennydd ynghylch amseru eto, yr wyf yn gofyn pa mor fuan y gallwn ddisgwyl gweld Amcan 1 yn gwneud gwahaniaeth.

Fe geir cyfeiriad derbynol iawn yn y ddogfen at hybu iaith a diwylliant Cymru, ond byddem wedi hoffi gweld mwy o bwyslais ar y ffaith ein bod yn ddinasyddion o Ewrop hefyd. Mae masnachu yn Ewrop yn hanfodol i'n ffyniant. Prin yw'r cyfeiriad at

There is scant reference to this, but I would like to have seen more emphasis on it.

Above all, education is the key to our economic and social prosperity and there are very welcome references to the need to improve skills. Once again, there is a lack of targets, but I believe that the crucial omission here is the fact that not only do we have lower educational achievement, but also lower educational spending. Dare I suggest that there is a link between lower spending on education and lower achievement? This disparity of funding must be dealt with. It will be difficult, but when people have talked to me about how the Assembly will make a difference, one thing I have said is that we will make more efficient decisions, because three men in the Welsh Office—it always has been men, in my experience—are bound to find it more difficult to make efficient decisions than 60 people who are in touch with their constituencies. I believe that through efficient decision making we will find a better way of funding education than England.

I strongly welcome some ideas in this document, such as active citizenship, which gives a specific Welsh flavour to our educational system. One thing that frightens me, and it has been referred to already, is that some people in Wales, particularly young people, lack knowledge of and interest in our society and democracy. It is particularly frightening when that manifests itself in blind prejudice as it can sometimes do. As a Liberal Democrat, I want a society where people are empowered by knowledge, are outward-looking and are entrusted to make their own decisions.

There was much delight when we got Objective 1 funding. People have tended to forget that it is a downright disgrace that our economy has been run down to the point where we need and deserve that funding. It will take decades to transform Wales completely, so we must start today. Above all, we must have the courage of our convictions and be specific in our aims. You can be specific without shutting out ideas. If

hynny, ond buaswn wedi hoffi gweld mwy o bwyslais arni.

Uwchlaw popeth, addysg yw'r allwedd i'n ffyniant economaidd a chymdeithasol ac fe geir cyfeiriadau derbynol iawn at yr angen i wella medrau. Unwaith eto, ceir diffyg targedau, ond credaf mai'r diffyg hanfodol yma yw'r ffaith bod gennym gyflawniad addysgol is, a hefyd gwariant addysgol is. A allwn feiddio ag awgrymu bod cysylltiad rhwng gwariant is ar addysg a chyflawniad is? Rhaid ymdrin â'r anghysondeb hwn mewn ariannu. Bydd yn anodd, ond pan siaradai pobl â mi ynghylch y modd y bydd y Cynulliad yn gwneud gwahaniaeth, un peth a ddywedwn eodd y byddem yn gwneud penderfyniadau mwy effeithlon, oherwydd mae tri dyn yn y Swyddfa Gymreig—a dynion a fu yno erioed, o'm profiad i—yn sicr o'i chael yn anos i wneud penderfyniadau effeithlon na 60 o bobl sydd mewn cysylltiad â'u hetholaethau. Credaf, drwy benderfynu effeithlon, y byddwn yn canfod ffordd well i ariannu addysg nag yn Lloegr.

Croesawaf rai syniadau yn y ddogfen hon yn fawr iawn, fel dinasyddiaeth weithredol, sydd yn rhoi naws Gymreig benodol i'n system addysg. Un peth sydd yn codi ofn arnaf, ac fe gyfeiriwyd ato eisoes, yw bod rhai pobl yng Nghymru, yn enwedig pobl ifanc, heb na gwybodaeth na diddordeb ynghylch ein cymdeithas a'n democratiaeth. Mae hynny'n arbennig o frawychus pan gaiff ei amlygu ar ffurf rhagfarn ddall fel y gall ddigwydd weithiau. Fel Democrat Rhyddfrydol, yr wyf am weld cymdeithas lle y mae pobl wedi eu galluogi gan wybodaeth, yn edrych tuag allan ac yn cael gofalu am eu penderfyniadau eu hunain.

Yr oedd llawer o lawenhau pan gawsom arian Amcan 1. Mae pobl wedi tueddu i anghofio ei bod yn gwbl warthus bod ein heconomi wedi ei wanhau i'r pwynt lle y mae arnom angen y cyllid hwnnw ac yn ei haeddu. Fe gymer ddegawdau i drawsnewid Cymru yn llwyr, felly rhaid inni ddechrau heddiw. Uwchlaw popeth, rhaid inni fod yn barod i sefyll dros ein hegwyddorion, a bod yn benodol ynghylch ein hamcanion.

the Assembly is to make just one difference, it will surely be that people will feel they have been listened to, that their contribution has made a real difference. I applaud the basic principles in this document, but I regret the lack of specific details and specific targets. However, we can all subscribe to the principles.

**Geraint Davies:** Yr wyf yn cyd-fynd â'r egwyddorion partneriaeth a chydweithio a geir yn y ddogfen, oherwydd mae gan Gymru broblemau enfawr. Clywsom fod ein cynnyrch mewnwladol crynswth yn 82 y cant, ond rhaid inni ymateb i'r her o ddatrys problemau ein hardaloedd difreintiedig. Cynrychiolaf ardal o'r fath.

Yn Rhondda Cynon Taf, mae'r CMC yn 62 y cant ac o ganlyniad mae gennym broblemau enfawr megis diweithdra. Mae'r ffigur swyddogol tua 8 y cant ond y ffigur gwirioneddol, sydd wedi ei gyhoeddi gan Brifysgol Swydd Efrog, yw 31 y cant os ydych yn cynnwys y rhai sydd wedi ymddeol yn gynnar ac sydd yn methu â hawlio budd-daliadau.

Mae gennym ddiboblogi a thai gwag a phroblemau iechyd hefyd. Pe gallem ddatrys problemau economaidd, byddai llawer o'r problemau iechyd yn diflannu. Mae'n ffaith hefyd fod gennym broblemau cymdeithasol megis cyffuriau. Rhaid inni roi blaenoriaeth i ddatrys problemau economaidd yr ardaloedd hyn.

Mae sawl agwedd y dylem eu hystyried er mwyn datrys y problemau hyn. Yn gyntaf, ystywythder yr ardaloedd hyn. Cafwyd diffyg buddsoddiad yn y gorffennol. O safbwynt seilwaith, rhaid inni fuddsoddi yn ein ffyrdd. Ceir hefyd lawer o safleoedd sydd yn wag oherwydd llygredd gwenwynig, ac mae diffyg arian ar gyfer glanhau y rhain yn achosi problemau i'r awdurdod lleol.

Un o'r pethau pwysicaf y dylem ei wneud yw buddsoddi mewn busnesau, ac mae'n ddiddorol edrych ar y niferoedd. Os ydych yn edrych ar fuddsoddi fesul pen, mae Cymru

Gallwch fod yn benodol heb gau allan syniadau. Os yw'r Cynulliad i wneud ond un gwahaniaeth, hynny fydd y teimlad ymhlith y bobl fod eu llais wedi ei glywed, a bod eu cyfraniad wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Canmolaf yr egwyddorion sylfaenol yn y ddogfen hon, ond yr wyf yn siomedig ynghylch y diffyg manylion a'r diffyg targedau. Fodd bynnag, gallwn oll gefnogi'r egwyddorion.

**Geraint Davies:** I agree with the principles of partnership and co-operation in the document, because Wales has massive problems. We have heard that our gross domestic product is 82 per cent, but we must respond to the challenge of resolving the problems of our deprived areas. I represent such an area.

In Rhondda Cynon Taf, the GDP is 62 per cent and as a result we have massive problems such as unemployment. The official figure is about 8 per cent but the real figure, announced by Yorkshire University, is 31 per cent if you include those who have taken early retirement and those who cannot claim benefits.

We have depopulation and empty houses and health problems too. If we could solve the economic problems, many of the health problems would vanish. It is also a fact that we have social problems such as drugs. We must give priority to resolving the economic problems of these areas.

There are several aspects we should consider to resolve these problems. First, the flexibility of these areas. There has been a lack of investment in the past. As regards infrastructure, we must invest in our roads. There are also many sites that are vacant because of toxic pollution, and the lack of money to clean up these sites causes problems for the local authority.

One of the most important things we should do is to invest in businesses, and it is interesting to look at the numbers. If you consider per capita investment. Wales is way

ymhell y tu ôl i Loegr, ac os ydych yn edrych ar Rhondda Cynon Taf a'i chymharu â de-ddwyrain Cymru ceir tair gwaith nifer y cwmnïau yn yr ardaloedd hynny. Rhaid inni geisio cynyddu nifer y busnesau yng Nghymru, ac yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig. O ran nifer y swyddi yn y sector gwasanaethau, yr ydym ar ein colled. I fod yn gydradd â Lloegr, dylai fod gennym 12,000 o swyddi ychwanegol mewn trafndiaeth, 40,000 yn y gwasanaethau ariannol a 72,000 yn y sector busnes.

4:28 p.m.

Felly y mae'n sialens ac yn gyfle i ni wneud gwahaniaeth i bobl Cymru. Mae'n bwysig i ni fuddsoddi mewn busnesau newydd ac mewn busnesau sydd gennym yn barod. Byddai sefydlu banc er mwyn cynnal y busnesau hyn yn help mawr.

Yn ogystal, mae'n rhaid i ni fuddsoddi mewn hyfforddiant. Dangosodd Iwerddon y ffordd wrth ddefnyddio 38 y cant o'i arian Amcan 1 er mwyn hyfforddiant. Maent wedi trawsnewid economi'r wlad, ac fe allwn ni wneud yr un peth. Rhaid i'r Cynulliad rhoi blaenoriaeth i ddatrys anghyfiawnder cenedlaethau mewn gwahanol ardaloedd o Gymru. Os gwnawn ni hynny, fe fyddwn wedi llwyddo.

**Sue Essex:** I welcome David Melding's comments on being constructive and I hope his colleagues agree with him. We will all have to be constructive in making the changes Christine Chapman referred to earlier. With reference to the comments that this paper lacks targets and specific action points—that is not the intention of this paper at this point. It sets the context for the Assembly, on which we can develop objectives and action plans. In that respect, I think the paper is extremely important.

However, I do have additional points that the First Secretary might like to take on board. In terms of the section on values and on the inclusive agenda, the aim of social justice is important. The phrase 'social justice' covers the core value that many feel the Assembly

behind England, and if you look at Rhondda Cynon Taf and compare it with south-east Wales there are three times as many companies in those areas. We must try to increase the number of business in Wales, especially in deprived areas. As regards the number of jobs in the service sector, we lose out. To reach the same level as England we should have 12,000 additional posts in transport, 40,000 in the financial services, and 72,000 in the business sector.

It is a challenge and an opportunity for us to make a difference to the people of Wales. It is important for us to invest in new businesses and in existing businesses. Establishing a bank to maintain these businesses would be a great help.

In addition, we must invest in training. Ireland showed the way by using 38 per cent of its Objective 1 funds on training. That has transformed their economy, and we can do the same. The Assembly must give priority to resolving generations of injustice in different parts of Wales. If we do that, we will have succeeded.

**Sue Essex:** Croesawaf sylwadau David Melding ar fod yn adeiladol a gobeithio bod ei gyd-weithwyr yn cytuno ag ef. Bydd raid inni oll fod yn adeiladol wrth gyflawni'r newidiadau y cyfeiriodd Christine Chapman atynt yn gynharach. Gyda golwg ar y sylwadau bod diffyg targedau a phwyntiau gweithredu penodol yn y ddogfen hon—nid dyna fwriad y ddogfen hon ar hyn o bryd. Mae'n cyflwyno cyd-destun ar gyfer y Cynulliad, lle y gallwn ddatblygu amcanion a chynlluniau gweithredu. Yn hynny o beth, credaf fod y ddogfen yn bwysig tu hwnt.

Fodd bynnag, mae gennyf bwyntiau ychwanegol y gallai'r Prif Ysgrifennydd ddymuno eu derbyn. O ran yr adran ar werthoedd ac ar yr agenda cynhwysol, mae'r nod o gyfiawnder cymdeithasol yn un pwysig. Mae'r ymadrodd 'cyfiawnder

should deliver to everyone throughout Wales. I would also like to add a note that we will take a stand against all kinds of discrimination and racial discrimination in particular. It would help to include that comment.

I also hope additions can be made in terms of priorities, in the section on better job opportunities. Pay, wage and income levels are also important. These are the real scourges of the situation in Wales. The Assembly should address the issue of pay levels in Wales if the economic fortunes of people are to change.

Under the education section, I support the concept of active citizenship and I believe we should include the phrase 'lifelong learning'. It embraces ideas like choices and additional chances that so many people need in their lives. It is particularly important in Wales.

Finally, I did not see reference to housing under the health section or the better quality of life section. You cannot have a life without a home. Homelessness is one of the most dreadful things that people have to face. I would like to see a commitment to eradicating homelessness and a relating of that to the issues of housing quality, and the state of houses in Wales. That all blends together with problems of poverty and health.

I hope that the First Secretary will take those specific points on board so that we can make this document more comprehensive.

**Peter Black:** I would like to concentrate specifically on the last section, 'Better quality of Life'. The document before us is one of fine sounding phrases. I agree with them and think it is a very worthwhile document. However, the title of this debate is 'State of the Nation'. If this were a trading matter, we might have been done under the trade description act, because this is not a description of the state of the nation. These are a series of values and ambitions for

cymdeithasol' yn cynnwys y gwerth craidd y mae llawer yn teimlo y dylai'r Cynulliad ei gyflawni ar gyfer pawb drwy Gymru. Hoffwn hefyd gynnwys sylw y byddwn yn gwrthsefyll pob math o gamwahaniaethu a chamwahaniaethu hiliol yn arbennig. Byddai o gymorth i gynnwys sylw felly yn y fan honno.

Gobeithio y gellir cynnwys ychwanegiadau o ran blaenoriaethau hefyd, yn yr adran ar gyfleoedd gwaith gwell. Mae lefelau tâl, cyflog ac incwm hefyd yn bwysig. Y rhain yw'r wir felltith yn y sefyllfa yng Nghymru. Rhaid i'r Cynulliad ymdrin â mater lefelau tâl yng Nghymru er mwyn sicrhau tro ar fyd yn ffyniant economaidd y bobl.

Yn yr adran ar addysg, cefnogaf y syniad o ddinasyddiaeth weithredol a chredaf y dylem gynnwys yr ymadrodd 'dysgu ar hyd oes'. Mae'n cwmpasu syniadau fel dewisiadau a chyfleoedd ychwanegol y mae ar gymaint o bobl eu hangen yn eu bywydau. Mae'n arbennig o bwysig yng Nghymru.

Yn olaf, ni welais gyfeiriad at dai yn yr adran ar iechyd na'r adran ar ansawdd bywyd gwell. Ni allwch fyw heb gartref. Digartrefedd yw un o'r pethau mwyaf ofnadwy y mae'n rhaid i bobl eu hwynebu. Carwn weld ymrwymiad i ddileu digartrefedd, gan gysylltu hynny â materion ansawdd tai, a chyflwr tai yng Nghymru. Mae hynny i gyd yn gysylltiedig â phroblemau tlodi a iechyd.

Gobeithiaf y bydd y Prif Ysgrifennydd yn derbyn y pwyntiau penodol hynny fel y gallwn wneud y ddogfen hon yn fwy cynhwysfawr.

**Peter Black:** Hoffwn ganolbwyntio'n benodol ar yr adran olaf, 'Ansawdd Bywyd Gwell'. Mae'r ddogfen sydd o'n blaen yn cynnwys ymadroddion teg iawn. Yr wyf yn cytuno â hwy a chredaf ei bod yn ddogfen fuddiol iawn. Fodd bynnag, teitl y ddadl hon yw 'Cyflwr y Genedl'. Pe bai hyn yn fater masnachol, fe allem gael ein herlyn o dan y ddeddf disgrifiadau masnachol, oherwydd nid yw hyn yn ddisgrifiad o gyflwr y genedl. Cyfres o werthoedd a dyheadau i Gymru

Wales specified in very unspecific terms. In doing this, the First Secretary and his Cabinet will ask to be judged by what is in this document. Given its ambitious nature and the ambitions of these aspirations, when the Assembly elections come in four years' time, they may regret asking to be judged on this document.

It was mentioned that this is effectively a manifesto. That cannot be further from the truth. A manifesto or a policy document would have a series of pledges, which would be costed with actions on how those pledges were to be implemented. That has not happened here. If that is the sort of document we want, we need to go into more detail. At some stage I hope we can discuss that. However, I have been heartened by the debate. Members have discussed issues that have not been addressed by this document in some detail.

The section on good government has been treated in a top-down approach. We talk about how we will provide good government almost as if we are going to impose good government. There is nothing wrong with that per se. However, this document should also mention empowerment, giving people responsibility and an ability to shape their own destiny and lives. That is very important. Empowerment and giving people responsibility for their own lives should be important when we come to consider how Wales is governed by the Assembly and local government.

I believe that housing is mentioned briefly, under the 'better quality of life' section, as is sustainable development and the environment. They are all crammed into that section and that is regrettable because all those issues are important and should have been dealt with in a bit more depth. When the First Secretary announced his Cabinet and the Assembly Secretary for the Environment and Local Government, housing was not mentioned once, and since then it has been rarely mentioned. I hope that will change once the Environment and Local Government

yw'r rhain, wedi eu nodi mewn geiriau amhenodol iawn. Wrth wneud hyn, bydd y Prif Ysgrifennydd a'i Gabinet am gael eu barnu yn ôl cynnwys y ddogfen hon. O dderbyn ei natur uchelgeisiol a nodau'r dyheadau hyn, pan ddaw'r etholiadau i'r Cynulliad ymhen pedair blynedd, fe allai fod yn edifar ganddynt ofyn am gael eu barnu yn ôl y ddogfen hon.

Fe wnaed y sylw mai maniffesto yw hon i bob pwrpas. Ni allai ddim fod yn bellach o'r gwir. Byddai maniffesto neu ddogfen bolisi yn cynnwys cyfres o addewidion, a'r rheini wedi eu costio â gweithredoedd ynghylch sut y câi'r addewidion eu gweithredu. Ni ddigwyddodd hynny yn y fan hyn. Os mai dyna'r math o ddogfen yr ydym am ei gael, rhaid inni fod yn fwy manwl. Gobeithio y gallwn drafod hynny rywbyrd. Fodd bynnag, mae'r ddadl hon wedi fy nghalonogi. Mae'r Aelodau wedi trafod materion na roddwyd sylw iddynt yn y ddogfen hon yn eithaf manwl.

Mae'r adran ar lywodraeth dda wedi ei thrafod ar ddull pen-i'r-gwaelod. Yr ydym yn trafod sut y byddwn yn darparu llywodraeth dda bron fel petaem am orfodi llywodraeth dda. Nid oes dim o'i le ar hynny fel y cyfryw. Fodd bynnag, fe ddylai'r ddogfen hon sôn hefyd am alluogi, rhoi cyfrifoldeb i bobl a'u gallu i lunio eu tynged a'u bywyd eu hunain. Mae hynny'n bwysig iawn. Dylai galluogi a rhoi cyfrifoldeb i bobl dros eu bywyd eu hunain fod yn bwysig pan ddeuwn i ystyried sut y caiff Cymru ei llywodraethu gan y Cynulliad a llywodraeth leol.

Credaf fod sylw byr am dai, yn yr adran ar 'ansawdd bywyd gwell', ac yn yr un modd am ddatblygu cynaliadwy a'r amgylchedd. Mae pob un wedi ei wasgu i'r adran honno ac mae hynny'n destun gofid oherwydd mae pob un o'r materion hyn yn bwysig a dylsent fod wedi cael sylw ychydig yn fanylach. Pan gyhoeddodd y Prif Ysgrifennydd ei Gabinet ac Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol, nid oedd sôn o gwbl am dai, a phrin fu'r sôn amdanynt ers hynny. Gobeithio y bydd hynny'n newid wedi i Bwyllgor yr Amgylchedd a

Committee begins.

We have a very serious problem with housing. There is a £1.1 billion repair bill for Welsh housing. There is a direct link between bad housing and ill-health, and our housing problems reflect poverty and social exclusion. After all, when you are homeless you cannot be more socially excluded. We must start tackling the problems of homelessness and rough sleeping. We need proper data on it and we need to work in partnership to try and tackle that problem.

Furthermore, this document should have contained more on the environment. We are fortunate in Wales to have very beautiful countryside and a high quality of environment. However, we do have problems. Air pollution is a problem and a Friends of the Earth report mentioned that there is high air pollution around certain factories in south Wales. We still import toxic waste into the Rechem plant in Pontypool, and nuclear waste is still dumped in Pembrokeshire. Those are issues that we must tackle. We must ensure that Wales does not become the dumping ground for other people's waste. Growing traffic is also an environmental problem, as it causes pollution. An example of this is in the Hafod, which is my area of Swansea. It has one of the city's highest levels of pollution because of the level of traffic using an inadequate road. The solution is a by-pass. We therefore need to consider how we can integrate transport, and we must address the problems of public transport.

4:38 p.m.

Sustainable development is also mentioned briefly in this document. It was mentioned in the Government of Wales Act 1998, and it should be a major part of this Assembly's work. It must permeate our business and be included in the objectives and action points of every Committee. The only way to address and monitor that is through a separate

Llywodraeth Leo ddechrau.

Mae gennym broblem ddifrifol iawn ynglŷn â thai. Mae yna fil atgyweirio o £1.1 biliwn ar gyfer tai yng Nghymru. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng tai gwael ac afiechyd, ac mae ein problemau tai yn adlewyrchu tloedi a dieithrwch cymdeithasol. Wedi'r cwbl, pan fyddwch yn ddiartref ni allech gael eich dieithro ymhellach o gymdeithas. Mae angen inni ddechrau ymdrin â phroblemau diartrefedd a chysgu allan. Mae arnom angen data priodol ar hynny ac mae'n rhaid angen inni weithio mewn partneriaeth i geisio mynd i'r afael â'r broblem honno.

Dylai'r ddogfen fod wedi cynnwys mwy am yr amgylchedd. Yr ydym yn ffodus yng Nghymru fod gennym gefn gwlad prydferth iawn ac amgylchedd o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae gennym broblemau. Mae llygredd aer yn broblem ac mae adroddiad gan Gyfeillion y Ddaear wedi crybwyll bod llygredd aer uchel o gwmpas rhai ffatrioedd yn ne Cymru. Yr ydym yn dal i fewnforio gwastraff gwenwynig i waith Rechem ym Mhont-y-pŵl, ac mae gwastraff niwclear yn cael ei waredu o hyd yn Sir Benfro. Mae'r rhain yn faterion y bydd yn rhaid inni roi sylw iddynt. Rhaid inni sicrhau na ddaw Cymru'n domen ysbwriel i wastraff pobl eraill. Mae traffig cynyddol hefyd yn broblem amgylcheddol, gan ei fod yn achosi llygredd. Ceir enghraifft o hynny yn yr Hafod, fy ardal i yn Abertawe. Mae ganddi un o'r lefelau llygredd uchaf yn y ddinas oherwydd lefel y traffig sydd yn defnyddio ffordd annigonol. Yr ateb i hynny yw ffordd osgoi. Felly mae angen inni ystyried sut y gallwn integreiddio trafndiaeth, ac mae'n rhaid inni ymdrin â phroblemau cludiant cyhoeddus.

Ceir sylw byr ar ddatblygu cynaliadwy yn y ddogfen hon hefyd. Yr oedd wedi ei grybwyll yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998, ac fe ddylai fod yn rhan bwysig o waith y Cynulliad hwn. Rhaid iddo hydreiddio ein busnes a rhaid ei gynnwys yn amcanion a phwyntiau gweithredu pob Pwyllgor. Yr unig fodd i ymdrin â hynny a'i fonitro yw drwy

sustainable development committee. I hope that can be addressed when we draw up schemes for sustainable development.

When we, as a nation, look at this document, our mood is one of anticipation as to how we can make a difference to people's lives. This document has not satisfied that anticipation. It has merely raised more questions. I hope that will change, and we start to meet the expectations that rest on us, as we begin to discuss the issues raised in this document and in the debate.

**Ann Jones:** Can I briefly turn this document into the reality of what it might mean to someone in my constituency. Yesterday, I attended an award ceremony for Duke of Edinburgh participants. These participants were young people who, with the help of the probation service and local community agencies, have managed to attain a certificate. For some, their first certificate. They are once again a part of their communities.

These young people were very positive about what the Assembly will deliver for them. This document and the First Secretary's comments will give them the opportunity to return to their communities and work with their communities and with their peers. They were positive. I hope I can return and tell them that this is the document we will begin working on, this is the framework with which we will work in partnership with local authorities and communities, but most of all in partnership with them and many more like them across Wales. They are ready to continue building on their successes. As an Assembly we must ensure that they can achieve their full potential.

**John Griffiths:** Some of the criticisms levelled at this document and perhaps the First Secretary's statement are unfair. By its very nature it must be general. It cannot deal with specifics for obvious reasons. We should all realise that.

bwyllgor datblygu cynaliadwy ar wahân. Gobeithio y gellir rhoi sylw i hynny pan fyddwn yn creu cynlluniau ar gyfer datblygu cynaliadwy.

Pan fyddwn ni, fel cenedl, yn edrych ar y ddogfen hon, mae ynom deimlad o ddisgwylgarwch ynghylch sut y gallwn wneud gwahaniaeth ym mywydau pobl. Nid yw'r ddogfen hon wedi cyflawni'r disgwyliad hwnnw. Nid yw ond yn codi rhagor o gwestiynau. Gobeithio y bydd hynny'n newid, ac y dechrewn gyflawni'r disgwyliadau sydd arnom, wrth inni ddechrau trafod y materion a godir yn y ddogfen hon ac yn y ddadl.

**Ann Jones:** A gaf ddangos yr hyn a allai'r ddogfen hon ei olygu i rywun yn fy etholaeth i. Ddoe, yr oeddwn mewn seremoni wobrwyo i rai sydd yn cymryd rhan yng nghynllun Dug Caeredin. Yr oedd y rhai a gymerai ran yn bobl ifanc sydd, gyda chymorth y gwasanaeth prawf ac asiantaethau'r gymuned leol, wedi llwyddo i ennill tystysgrif. Eu tystysgrif gyntaf, yn achos rhai ohonynt. Maent yn rhan o'u cymunedau unwaith eto.

Yr oedd y bobl ifanc hyn yn gadarnhaol iawn ynghylch yr hyn y bydd y Cynulliad yn ei gyflawni ar eu cyfer hwy. Bydd y ddogfen hon a sylwadau'r Prif Ysgrifennydd yn rhoi cyfle iddynt ddychwelyd i'w cymunedau a gweithio gyda'u cymunedau a'u cyfoedion. Yr oeddent yn gadarnhaol. Gobeithio y gallaf ddychwelyd a dweud wrthynt mai hon yw'r ddogfen y byddwn yn dechrau gweithio arni, mai hon yw'r fframwaith ar gyfer cydweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chymunedau, ond yn bwysicaf oll mewn partneriaeth â hwy a llawer iawn tebyg iddynt ar draws Cymru. Maent yn barod i barhau i adeiladu ar eu cyflawniadau. Fel Cynulliad rhaid inni sicrhau y gallant gyflawni eu potensial yn llawn.

**John Griffiths:** Mae rhai o'r sylwadau beirniadol ar y ddogfen hon ac ar ddatganiad y Prif Ysgrifennydd hefyd efallai, yn annheg. Mae natur y ddogfen yn golygu bod rhaid iddi fod yn gyffredinol. Ni all ymdrin â manylion penodol am resymau amlwg.

Dylem oll sylweddoli hynny.

Wales needs policies which tackle social exclusion and promote social inclusion. Those sentiments have resonance throughout Wales. *Chwarae teg* is a phrase in Welsh that has great resonance and is known both within Wales and outside, because the people of Wales traditionally have set great store by fair play, social justice and fairness. Those are sentiments and principles that coincide with the philosophy on which my party has always based its policies and beliefs.

The Assembly will more than likely be judged on whether it has promoted social justice within Wales, whether it has closed the prosperity gap that exists between Wales the rest of the UK and the European Union, and whether it has tackled the problems of disadvantaged pockets across Wales. The Assembly in four years' time must be able to show it has attempted to tackle these problems and that it has created greater social justice across Wales. As an Assembly, we will be able to look people in the eye and tell them we have done something that accords with the priorities and traditional concerns of Wales, if we have tried our best to tackle problems in education, health and the economy throughout Wales.

**Carwyn Jones:** This Assembly will be judged on what it does in delivering services to the people of Wales. We must avoid giving the impression that we, in this Chamber, are less than professional. It would be unfortunate if people thought that there are some within this Chamber who do not take it seriously but who are here because they need a job—a case not of what your country can do for you, but what your country can do for your wallet.

It is important also that we build confidence in our people. The most important sentence in this document is the desire to build a confident and outward-looking Wales, and here lies the problem. Our people have a

Mae ar Gymru angen polisiâu sydd yn mynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol ac yn hybu cynhwysiamnt cymdeithasol. Mae'r dyheadau hynny yn berthnasol i bob rhan o Gymru. Mae chwarae teg yn ddywediad Cymraeg sydd yn berthnasol iawn ac sydd yn adnabyddus y tu mewn a'r tu allan i Gymru, am fod pobl Cymru wedi arfer rhoi pwys mawr ar chwarae teg, cyfiawnder cymdeithasol a thegwch. Mae'r rhain yn ddyheadau ac yn egwyddorion sydd yn cyd-fynd â'r athroniaeth a fu'n sylfaen erioed i bolisiau a chredoau fy mhlaid.

Mae'n fwy na thebyg y caiff y Cynulliad ei farnu yn ôl y modd yr hybodd gyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru, a'r modd y caeodd y bwch mewn cyfoeth sydd rhwng Cymru a gweddill y DU a'r Undeb Ewropeaidd, ac yn ôl y modd yr ymdrinodd â phroblemau llecynnau sydd dan anfaintais ar draws Cymru. Ymhen pedair blynedd rhaid i'r Cynulliad allu dangos ei fod wedi ceisio ymdrin â'r problemau hyn a'i fod wedi creu mwy o gyfiawnder cymdeithasol ar draws Cymru. Fel Cynulliad, byddwn yn gallu edrych i fyw llygad pobl a dweud wrthynt ein bod wedi cyflawni rhywbeth sydd yn cyd-fynd â blaenoriaethau a phryderon traddodiadol Cymru, os gwnaethom ein gorau i ymdrin â phroblemau mewn addysg, iechyd a'r economi ym mhob rhan o Gymru.

**Carwyn Jones:** Bernir y Cynulliad yn ôl yr hyn a wna wrth gyflenwi gwasanaethau i bobl Cymru. Rhaid inni osgoi rhoi'r argraff ein bod ni, yn y Siambr hon, yn llai na phroffesiynol. Byddai'n drueni pe bai pobl yn credu bod rhai yn y Siambr hon nad ydynt yn ei chymryd o ddifrif ond sydd yma am fod arnynt angen swydd—nid enghraifft o'r hyn y gall eich gwlad ei wneud drosoch chi, ond yr hyn y gall ei wneud i lenwi'ch poced.

Mae hefyd yn bwysig inni adeiladu hyder yn ein pobl. Y frawddeg bwysicaf yn y ddogfen hon yw'r dyhead i adeiladu Cymru hyderus sydd yn edrych tuag at allan, ac yn y fan hyn y mae'r broblem. Mae tuedd yn ein pobl i

tendency to sit in a corner, thinking that they can never be as good as anyone else and that they live in some kind of economic utopia, when they do not. We have been overtaken by regions of Spain and, remarkably, by the Republic of Ireland. In 1979, we would not have been eligible for Objective 1 status. We are now. That shows how far backwards we have gone. That is the most telling statistic that can be put—

**David Davies** *rose*—

**Carwyn Jones:** I will not give way at this stage. That is the most telling economic statistic of all.

We must also be outward looking. Thankfully the weed of Euro scepticism that grew so rampantly over the border last week is a much weaker plant here in Wales. That shows how outward looking we are. It shows we can take advantage of the opportunities that are afforded to us in Europe as the Republic of Ireland did. However, we must not kid ourselves. This document is just the start. The shovel is in the ground, now is the time to start digging.

**Y Llywydd:** Alun Michael i gynnig y cynnig yn ffurfiol, a chloi'r ddadl.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Hoffwn groesawu'r ffordd y mae'r ddadl wedi datblygu yn gyffredinol. Dadlau am safonau, gwerthoedd a blaenoriaethau.

Ond mae rhai wedi gofyn gormod gan bapur sydd yn ceisio egluro egwyddor y safonau a'r gwerthoedd.

I was glad that Ann Jones linked the values in the document to people in her constituency. That is what it must be about. I will not comment on all the contributions made, but some call for a response.

I tried to link principles and values with the basic challenge of getting things done and changing people's lives. This is not the place

eistedd mewn cornel, gan feddwl na allant byth fod cystal â neb arall a'u bod yn byw mewn rhyw fath o wynfyd economaidd, a hwythau ddim. Yr ydym wedi ein goddiweddyd gan ranbarthau Sbaen ac, yn hynod iawn, gan Weriniaeth Iwerddon. Yn 1979, ni fuasem yn gymwys i dderbyn statws Amcan 1. Bellach yr ydym yn gymwys. Mae hynny'n dangos gymaint yr ydym wedi syrthio'n ôl. Dyna'r ystadegyn mwyaf arwyddocaol y gellir ei roi—

**David Davies** *a gododd*—

**Carwyn Jones:** Nid wyf am ildio ar hyn o bryd. Dyna'r ystadegyn economaidd mwyaf arwyddocaol o'r cwbl.

Rhaid inni edrych tuag at allan. Diolch byth, mae chwynnyn Ewrosgeptigiaeth a dyfodd yn rhemp yr wythnos diwethaf dros y ffin yn blanhigyn gwannach o lawer yma yng Nghymru. Mae hynny'n dangos gymaint yr ydym yn edrych tuag at allan. Mae'n dangos y gallwn fanteisio ar y cyfleoedd a roddir inni yn Ewrop fel y gwnaeth Gweriniaeth Iwerddon. Fodd bynnag, rhaid inni beidio â'n twyllo ein hunain. Dechrau'n unig yw'r ddogfen hon. Mae'r rhaw yn y pridd, dyma'r adeg i ddechrau palu.

**The Presiding Officer:** Alun Michael to move the motion formally and to close the debate.

**The First Secretary:** May I welcome the way in which the debate developed generally, debating standards, values and priorities.

However, some have asked too much from a paper that is trying to explain the principle of the standards and values.

Yr oeddwn yn falch bod Ann Jones wedi cysylltu'r gwerthoedd yn y ddogfen â'r bobl yn ei hetholaeth. Dyna'r peth hanfodol. Ni roddaf sylw ar yr holl gyfraniadau a wnaed, ond mae rhai yn galw am ymateb.

Ceisiais gysylltu egwyddorion a gwerthoedd â'r sialens hanfodol o gyflawni pethau a newid bywydau pobl. Nid dyma'r lle i

for targets. That is for the business plan and the detailed work. Indeed, we need to look at the documents we have inherited as an Assembly. For example, Mick Bates rightly referred to the need to develop the rural economy. This year's WDA business plan, which is inherited as a document by the Assembly, pushes for the engagement in the needs of mid and west Wales more than it did in the past. There is the development of the food strategy and a push to help indigenous business as well as looking for inward investment.

Therefore, there are many places where Assembly Members must engage with what we inherit from the Welsh Office, and recognise that there is a mine of positive things on which we can build. Jenny Randerson needs to look at some of the plans that we inherit. I was trying to set out the principles and ideals to which we should aspire in our daily work. However, I agree with her that three Ministers at the Welsh Office can not do all that the Assembly can do. Even three women would find that difficult.

4:48 p.m.

I welcome most of what Dafydd Wigley said. I will concentrate on one point. I thought that a lot of Dafydd's comments about match funding in recent weeks were pre-election rhetoric. It has dawned on me today, that some of the people who have contributed in this debate do not understand the way in which structural funds work. Rather than score points on that, I am happy to sit down with Dafydd Wigley personally and also debate these things within the Assembly.

On structural funds, you do not get a flat package where so much comes each year throughout a structural fund period. There is a tapering up of the requirements. There is the implementation of a plan, which has not yet been finalised and the development of a programme of spending which has to be agreed with Europe. By looking at other

dargedau. Rhywbeth i'r cynllun busnes a'r gwaith manwl yw hynny. Yn wir, mae angen inni edrych ar y dogfennau a etifeddwyd gennym fel Cynulliad. Er enghraifft, fe gyfeiriodd Mick Bates yn briodol at yr angen i ddatblygu'r economi gwledig. Mae cynllun busnes Awdurdod Datblygu Cymru am eleni, a etifeddir fel dogfen gan y Cynulliad, yn pwysu am roi mwy o sylw i anghenion canolbarth a gorllewin Cymru nag a wnaed yn y gorffennol. Ceir datblygiad y strategaeth bwyd a hwb i helpu busnesau cynhenid yn ogystal â chwilio am fuddsoddiad o'r tu allan.

Felly, mae llawer o fannau lle y mae angen i Aelodau'r Cynulliad gael cysylltiad â'r hyn yr ydym yn ei etifeddu gan y Swyddfa Gymreig, a chydabod bod trysorfa o bethau da y gallwn adeiladu arnynt. Mae angen i Jenny Randerson ystyried rhai o'r cynlluniau y byddwn yn eu hetifeddu. Yr oeddwn yn ceisio cyflwyno'r egwyddorion a'r delfrydau y dylem geisio eu cyflawni yn ein gwaith bob dydd. Fodd bynnag, fe gytunaf â hi na all tri Gweinidog yn y Swyddfa Gymreig wneud y cwbl y mae'r Cynulliad yn gallu ei wneud. Byddai hyd yn oed tair o fenywod yn cael hynny'n anodd.

Croesawaf y rhan fwyaf o'r hyn a ddywedodd Dafydd Wigley. Fe ganolbwyntiaf ar un pwynt. Yr oeddwn yn credu bod llawer o sylwadau Dafydd am arian cyfatebol yn yr wythnosau diwethaf hyn yn rhyethreg cyn yr etholiad. Fe wawriodd arnaf heddiw fod rhai o'r bobl a gyfrannodd at y ddatl hon heb ddeall y modd y bydd cronfeydd strwythurol yn gweithio. Yn hytrach nag ennill ar draul hynny, byddaf yn falch o drafod gyda Dafydd Wigley fy hun a dadlau ynghylch y pethau hynny o fewn y Cynulliad.

Ar gronfeydd strwythurol, ni fyddwch yn cael pecyn unffurf lle bydd yr un swm yn dod bob blwyddyn drwy gyfnod cronfa strwythurol. Fe ddatblygir y gofynion yn fanylach. Fe weithredir cynllun, nad yw eto'n derfynol, a datblygir rhaglen wariant a gytunir gydag Ewrop. Drwy edrych ar ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig ac yng

areas in the United Kingdom and the Republic of Ireland, it is reinforced that there is time for debate within Government and the Assembly as a part of the governance of the United Kingdom, to ensure that we are able to make full use of Objective 1 cover.

We must deal with many things including match funding. I am still involved in talks at present on Objective 2, and making sure we get the best for Wales, and on Objective 3, which affects the areas outside of Objective 1 and 2.

**David Wigley:** We are outside the period of an election now. Therefore, I seek clarification. Am I right in saying that there will be projects that go forward during the next few months, before Christmas? These will be approved for the next financial year, if not this financial year, and even though there may be a profile of spending, there will be a question of match funding during the year 2000 to 2001. If that is the case, and if we are not getting any additional money from the Treasury, does that mean that we will have to find the match funding during 2000 to 2001 from within our own resources within the Assembly, that would otherwise be spent on other matters?

**The First Secretary:** I am glad that we are getting into the serious issues. The exact timing is not certain yet, although things are moving forward in a positive way. The profile of spending is something that comes in the later stages of working on the plans. Whereas plans develop, the actual expenditure may come some way behind the approval of plans. The profile of spending is something we must consider very carefully. It is a point of detail but it is something that the Assembly must deal with. I have been trying to tell the truth through the election campaign.

**Several Members** *rose—*

**The First Secretary:** It has been difficult because there has been a cacophony of sounds saying, 'Where is the match funding? Where is this cheque?' Blank cheques do not

Ngweriniaeth Iwerddon, fe geir cadarnhad bod amser ar gael ar gyfer trafodaeth o fewn Llywodraeth a'r Cynulliad fel rhan o drefn llywodraeth y Deyrnas Unedig, i sicrhau y gallwn ddefnyddio darpariaeth Amcan 1 i'r eithaf.

Bydd yn rhaid ymdrin â nifer o bethau gan gynnwys arian cyfatebol. Yr wyf yn dal i gymryd rhan mewn trafodaethau ar hyn o bryd ar Amcan 2, gan sicrhau y cawn y gorau i Gymru, ac ar Amcan 3, sydd yn effeithio ar yr ardaloedd y tu allan i rai Amcan 1 a 2.

**David Wigley:** Yr ydym y tu allan i gyfnod etholiad bellach. Felly, gofynaf am eglurhad. A ydwyf yn iawn wrth ddweud y bydd prosiectau a fydd yn mynd ymlaen yn ystod y misoedd nesaf hyn, cyn y Nadolig? Fe gymeradwyir y rhain ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, os nad y flwyddyn ariannol hon, a hyd yn oed os bydd proffil gwariant, fe fydd y mater o arian cyfatebol yn ystod y flwyddyn 2000 i 2001. Os yw hynny'n wir, ac os na fyddwn yn cael unrhyw arian ychwanegol oddi wrth y Trysorlys, a yw hynny'n golygu y bydd yn rhaid inni ganfod arian cyfatebol yn ystod 2000 i 2001 o'n hadnoddau ein hunain yn y Cynulliad, a fyddai fel arall yn cael eu gwario ar faterion eraill?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'n dda gennyf ein bod yn dechrau trafod y materion difrif. Nid yw'r union amseru yn sicr eto, er bod pethau'n symud ymlaen yn gadarnhaol. Mae proffil y gwariant yn rhywbeth a ddaw yn y cynnodau diweddarach wrth weithio ar y cynlluniau. Tra bydd cynlluniau'n datblygu, fe allai'r gwariant gwirioneddol ddod cryn amser ar ôl cymeradwyo'r cynlluniau. Mae proffil y gwariant yn rhywbeth bydd yn rhaid inni ei ystyried yn ofalus iawn. Mae'n fater o fanylder ond mae'n rhywbeth y bydd angen i'r Cynulliad ymdrin ag ef. Bûm yn ceisio dweud y gwir drwy ymgyrch yr etholiad.

**Sawl Aelod** *a gododd—*

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe fu hynny'n anodd oherwydd cafwyd twrw lleisiau'n gofyn, 'Ym mhle mae'r arian cyfatebol? Ym mhle mae'r siec yma?' Ni ddaw sieciau gwag. Ceir

simply appear. There is a process to go through, and it will happen. There is plenty of time for that process to be worked through, and for the Assembly to be fully involved in that process and to ensure that we have the opportunity to draw down the funds at the points where it becomes necessary within the profile of expenditure.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae dwy elfen hollol wahanol yn y fan hon. Yr wyf yn derbyn i raddau yr hyn y mae Alun Michael yn ei ddweud ynglŷn â'r addewid am arian cyfatebol. Nid yw'n ddigonol at ein dibenion ni ac nid yw'n ddigonol at ddibenion y bobl hynny sydd yn paratoi prosiectau ar gyfer arian Amcan 1. Mae perygl i'r prosiectau hynny gael eu tansellio.

Fodd bynnag, mae yna elfen hollol wahanol, sef yr egwyddor o ychwanegedd. Er mwyn sicrhau'r egwyddor honno, rhaid i'r Trysorlys gyflwyno £100,000 i'r gyllideb ar hyn o bryd, neu ni fydd y cynlluniau yn cael eu derbyn gan Ewrop, ac ni fydd modd cychwyn ar y broses.

Felly, a gawn ni addewid yn awr fod yr egwyddor o ychwanegedd yn mynd i gael ei sicrhau, cyn inni drafod yr arian cyfatebol.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Rhodri yn iawn i ddweud fod egwyddor o ychwanegedd. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth bob amser wedi mynd trwy'r broses, gan sicrhau ei bod o'r safon angenrheidiol ar gyfer yr UE. Ni allwch ofyn am siec wag ar ddechrau'r broses. Rhaid inni fynd drwy'r broses ac mae angen i bobl ddeall hynny yn lle gofyn i rywun ddod i'r Siambr gyda bag o aur. Nid felly y mae pethau'n gweithio.

**Rod Richards:** I am grateful to the First Secretary. Is he aware that there is widespread confusion in the public and private sector regarding the mechanisms for the bidding process, assessment and approval? Will he give Members an assurance that his department will shortly issue guidance? Such guidance is needed, and I speak specifically with regard to

proses bydd yn rhaid ei dilyn, a bydd hynny'n digwydd. Mae digon o amser i weithio drwy'r broses honno, ac i'r Cynulliad gymryd rhan lawn ynddi a sicrhau y cawn y cyfle i ymestyn am yr arian o'r cronfeydd ar yr adeg pan fydd hynny'n angenrheidiol o fewn proffil y gwariant.

**Rhodri Glyn Thomas:** There are two totally different elements here. I accept to some extent what Alun Michael is saying about the promise of match funding. It is not adequate for our purposes and I do not believe that it is adequate for the purposes of those people who are preparing projects for Objective 1 funding. There is a danger that those projects will be undermined.

However, there is a totally different element, namely the principle of additionality. In order to secure that principle, the Exchequer must introduce £100,000 into the budget now, or the plans will not be accepted by Europe, and we will not be able to start on the process.

Therefore, can we have a promise now that the principle of additionality is secured at the beginning, prior to debating the match funding.

**The First Secretary:** Rhodri is right in saying that there is a principle of additionality. However, the Government has always gone through the process and has ensured that it is up to the standard the EU requires. You cannot ask for a blank cheque at the start of the process. We must go through the process and people must understand that, instead of asking for somebody to come to the Chamber with a bag of gold. That is not how things work.

**Rod Richards:** Diolchaf i'r Prif Ysgrifennydd. A yw'n ymwybodol bod dryswch cyffredinol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ynghylch y mecanweithiau ar gyfer y broses ymgeisio, asesu a chymeradwyo? A yw'n fodlon rhoi sicrwydd i'r Aelodau y bydd ei adran yn cyhoeddi cyfarwyddyd cyn hir? Mae angen cyfarwyddyd o'r fath, ac yr wyf yn siarad yn

information brought to my attention by Conwy County Borough Council, which is producing its own strategic plan. There is widespread confusion about the bidding, assessment and approval process.

**The First Secretary:** I despair a little at that question because it takes us back into the whole process, which I thought was well understood. In my response to Helen Mary Jones last week, I ensured that there would be an opportunity for Members to respond to the draft plan which is to be published. It is to be completed at the end of this month and published at the beginning of July. It will give all the partners involved an opportunity to comment, so that we draft a plan that will then be followed by detail and the question of bidding. There is a process that we have to help put together. The achievement of Objective 1 gives us a chance of doing things from the time framework which arises out of decisions within the EU, which is not earlier than next January, and we still need clarification still from Europe on the timescale involved.

**Gareth Jones:** Hoffwn ategu'r hyn a ddywedodd Rod Richards am Gonwy. Gadwech i mi ddatgan fod gennyf ddiddordeb fel aelod o'r cyngor hwnnw. Mae yna drafferthion yn nhermau dehongli'r gyfundrefn fel ag y mae hi. Dyna pam y cyfeiriais at hyn mewn sylwadau blaenorol. Mynychodd nifer ohonom gyfarfod yr wythnos ddiwethaf ynglŷn â'r broses a'r amseru. Gofynnaf ichi edrych yn ofalus ar hyn. Nid oes dealltwriaeth ar hyn o bryd rhwng y Cynulliad a'r awdurdodau lleol.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r broses yn hollol eglur. Fodd bynnag, yr oedd y dadlau cyn y ddau etholiad yn canolbwyntio ar faterion megis arian cyfatebol. Nid edrychwyd ar y broses ei hun ac ni roddwyd sylw i bethau megis aildatblygu'r rhannau o Gymru a fyddai'n dod o dan Amcan 1. Edrychaf ymlaen at y ddadl pan fydd y ddogfen yn barod, fel y gallwn sicrhau ein bod yn deall y ffordd ymlaen.

benodol am wybodaeth a dynnwyd i'm sylw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, sydd yn cynhyrchu ei gynllun strategol ei hun. Mae dryswch cyffredinol ynghylch y broses ymgeisio, asesu a chymeradwyo.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn anobeithio ychydig wrth glywed y cwestiwn hwnnw oherwydd mae'n mynd â ni'n ôl i'r holl broses, y tybiwn ei bod wedi ei deall yn iawn. Yn fy ateb i Helen Mary Jones yr wythnos diwethaf, rhoddais sicrwydd y byddai cyfle i Aelodau'r Siambr hon ymateb i'r cynllun drafft sydd i'w gyhoeddi. Mae i'w gwblhau ddiwedd y mis hwn a'i gyhoeddi ddechrau Gorffennaf. Bydd yn rhoi cyfle i'r holl bartneriaid cysylltiedig roi eu sylwadau, fel y bydd gennym gynllun lle y bydd holl gwestiwn ymgeisio a'r manylion yn dilyn. Mae'n broses y bydd yn rhaid inni helpu i'w rhoi at ei gilydd. Drwy sicrhau statws Amcan 1 mae gennym gyfle i wneud pethau yn ôl y fframwaith amser sydd yn deillio o benderfyniadau y tu mewn i'r UE, na fydd yn gynharach na mis Ionawr nesaf, ac mae angen eglurhad o hyd oddi wrth Ewrop ar y raddfa amser sydd dan sylw.

**Gareth Jones:** I wish to endorse to what Rod Richards said about Conwy. Let me declare that I have an interest as a member of that council. There are difficulties in terms of interpreting the process as it is. That is why I referred to it in my earlier comments. A number of us attended a meeting last week. It emerged at that meeting that there was some confusion as regards to the process, and the timing. I ask you to consider this carefully. There is no understanding at the moment between the Assembly and local authorities.

**The First Secretary:** The process is quite clear. However, the debate before both elections concentrated on matters such as match funding. It did not look at the process itself and did not concentrate on issues like the redevelopment of parts of Wales which would come under Objective 1. I look forward to the debate when the document is ready, so that we can ensure that we understand the way forward.

4:58 p.m.

I have been led to discuss details about one area, because this issue has been massively confusing for many people. As we debate the draft paper from the task force, a paper which the Assembly and our partners will have a chance to examine, I hope we will be able to return to the positive aspect of Objective 1, and the opportunity it gives us to develop positively the economy of major parts of Wales. As I say, today was meant to be a chance to take stock of the challenges that face us and to set down some of the priorities on which we can unite.

It is necessary to clarify some of the facts. For instance, the NHS was referred to. We should be clear about how the principles in the paper apply to the NHS. We should also be clear about what we must work with. We have an increase in cash generally this year of £193 million. That is a massive 10.2 per cent increase. We must ask why that cash is not more obvious in the delivery of services. It is because we need to deal with the structures and the use of finances within the NHS.

I am also puzzled by several references to capital spending this year. There are £82 million of capital. It is not that there is no capital expenditure. £48 million was passed out to trusts for their discretionary use in capital expenditure and £35 million given to complete a number of schemes already underway. Over the next three years there will be £21 million from the capital modernisation fund for items such as health and safety and spend-to-save. There were an additional £25 million that could have been used for capital which was allocated to provide increased revenue spending, and £18 million went on brokerage—the loans and debts which were needed to recover the state of the NHS.

**The Presiding Officer:** I am anxious to ensure sufficient time for the short debate. If you could conclude in a couple of minutes I would be grateful.

**The First Secretary:** The point I was trying

Yr wyf wedi fy arwain i drafod manylion am un maes, am fod y mater hwn wedi achosi dryswch mawr i lawer o bobl. Pan fyddwn yn trafod y ddogfen ddrafft a ddaw o'r tasglu, dogfen y bydd cyfle i'r Cynulliad a'n partneriaid ei harchwilio, gobeithio y byddwn yn gallu dychwelyd at yr agwedd gadarnhaol ar Amcan 1, a'r cyfle y mae'n ei rhoi inni ddatblygu'r economi yn y rhannau helaethaf o Gymru mewn modd cadarnhaol. Fel y dywedais, yr oedd heddiw i fod yn gyfle i bwysu a mesur y sialensau yr ydym yn eu hwynebu a nodi rhai o'r blaenoriaethau y gallwn gytuno arnynt.

Mae angen egluro rhai o'r ffeithiau. Er enghraifft, cafwyd cyfeiriad at yr NHS. Dylem ddeall sut y cymhwysir yr egwyddorion yn y ddogfen at yr NHS. Dylem hefyd ddeall beth sydd gennym i gyflawni'r gwaith. Mae gennym gynnydd cyffredinol mewn arian eleni o £193 miliwn. Mae hynny'n gynnydd anferth o 10.2 y cant. Rhaid inni ofyn pam nad yw'r arian hwnnw yn fwy amlwg yn y darparu ar wasanaethau. Mae hynny oherwydd bod angen inni ymdrin â'r strwythurau a'r defnydd ar arian o fewn yr NHS.

Peth arall sydd yn peri penbleth yw'r cyfeiriadau at wariant cyfalaf eleni. Mae £82 miliwn o gyfalaf. Nid yw'n fater o fod heb wariant cyfalaf. Estynnwyd £48 miliwn i ymddiriedolaethau i'w ddefnyddio yn ôl eu dewis ar wariant cyfalaf a rhoddwyd £35 miliwn i gwblhau nifer o gynlluniau sydd eisoes ar y gweill. Dros y tair blynedd nesaf daw £21 miliwn o'r gronfa moderneiddio cyfalaf ar gyfer eitemau fel iechyd a diogelwch a gwario-er-mwyn-arbed. Yr oedd £25 miliwn y gallesid eu defnyddio ar gyfer cyfalaf ond a ddyrannwyd i roi mwy o wariant refeniw, ac aeth £18 miliwn ar froceriaeth—y benthyciadau a'r dyledion oedd yn angenrheidiol i adfer cyflwr yr NHS.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn awyddus i sicrhau digon o amser ar gyfer y ddadl fer. Os gallwch derfynu ymhen munud neu ddau, byddwn yn ddiolchgar.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Y pwynt yr oeddwn

to make is that there were details that arose in the debate that need correction if the Assembly is not to be misled. There were points of principle which complement the paper I presented earlier and which we can accept. These are the references to reporting progress and setting targets that Val Feld asked for; Brian Gibbons's and Janet Davies's contributions on a number of issues and Sue Essex's point about the core value of social justice. Jocelyn Davies was right about the incorporation of the convention on human rights applying to us earlier. There will be training seminars for Assembly Members in the near future, so that we can deal with that issue in an informed way. As one of those involved in the team that brought about the incorporation of the convention, I am pleased that we will be at the forefront of this.

I also accept Helen Mary's point about equal opportunities. The arrival of the Disability Rights Commission, which will involve the Assembly and report to it, gives us an opportunity to really address that priority. On the interests of women, I cannot forebear from referring to the fact that over half of the Labour Assembly Members and half the Labour Secretaries are women. That contributes considerably to the relatively good position of this Assembly.

Christine Chapman was right to say that corporate values must be delivered. Manifestos can be wish lists. In the last couple of years, I hope that we have turned a manifesto into a document which sets targets that must be met. However, these must be met in accordance with values. It is important for the Assembly to establish its core values.

To David Melding, who made an interesting contribution, I say that consensus is not a soft option, it is a tough one. Co-operation and fulfilling the co-operative ideal is harder than simply taking decisions and being held accountable for them. To work together to shared values, to try to take a document—one that I agree is philosophic—and a set of values and to apply them in our day-to-day

yn ceisio ei wneud oedd bod manylion a gododd yn y ddadl yr oedd angen eu cywiro os nad yw'r Cynulliad i gael ei gamarwain. Yr oedd pwyntiau o egwyddor sydd yn ategu'r ddogfen a gyflwynais yn gynharach ac y gallaf eu derbyn. Y rhain yw'r cyfeiriadau at adrodd ar gynnydd a phennu targedau yr holodd Val Feld amdanynt; y cyfraniadau gan Brian Gibbons a Janet Davies ar nifer o faterion a phwynt Sue Essex ynghylch gwerth craidd cyfiawnder cymdeithasol. Yr oedd Jocelyn Davies yn gywir wrth ddweud y byddai cynnwys y cytundeb ar hawliau dynol yn berthnasol i ni yn gynharach. Fe drefnir seminarau hyfforddi ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol agos, fel y gallwn ymdrin â'r mater hwn mewn modd gwybodus. Fel un oedd yn rhan o'r tîm a barodd gynnwys y cytundeb, yr wyf yn falch y byddwn ar y blaen ar y mater hwn.

Yr wyf hefyd yn derbyn pwynt Helen Mary am gyfle cyfartal. Bydd dyfodiad y Comisiwn Hawliau Anabledd, a fydd yn cysylltu â'r Cynulliad ac yn adrodd iddo, yn rhoi cyfle inni ymdrin â'r flaenoriaeth honno o ddifrif. Ynglŷn â buddiannau benywod, ni allaf ymatal rhag cyfeirio at y ffaith bod dros hanner yr Aelodau Llafur yn y Cynulliad a hanner yr Ysgrifenyddion Llafur yn fenywod. Mae hynny'n cyfrannu'n sylweddol at sefyllfa gymharol dda y Cynulliad hwn.

Yr oedd Christine Chapman yn gywir wrth ddweud bod angen cyflenwi gwerthoedd corfforaethol. Fe all manifestos fod yn rhestrau dymuniadau. Dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, gobeithiaf ein bod wedi troi manifesto yn ddogfen sydd yn pennu targedau y bydd yn rhaid eu cyrraedd. Fodd bynnag, rhaid cyrraedd y rhain gan ddilyn gwerthoedd. Mae'n bwysig i'r Cynulliad sefydlu ei werthoedd craidd.

Yr hyn a ddywedaf wrth David Melding, a wnaeth gyfraniad diddorol, yw nad dewis hawdd mo consensws, ond dewis anodd. Mae cydweithredu a chyflawni delfryd gydweithredol yn anos na gwneud penderfyniadau a chael eich galw i gyfrif amdanynt. Mae gweithio gyda'n gilydd yn ôl gwerthoedd cyffredin, ceisio cymryd dogfen—un sydd yn athronyddol, yr wyf yn

work is a major and more serious challenge than perhaps many have realised. To have a partnership within this Chamber, with our partners in Wales and between the Assembly and Whitehall and Westminster is the very essence of devolution.

I hope that we can move to agreed values. I hope that we can agree with what Peter Black regarded as fine phrases; not just put them to one side in a pile, but say that they are fine phrases which we will apply in practice in our day-to-day work as an Assembly. Whether acting on sustainable development, or dealing with a sustainable development conference that has put forward a series of practical points for implementation by the Assembly, it is about sharing responsibilities and decision making, and putting the partnership principles set out in last week's debate into practice.

I am glad if this debate has raised questions and made people ask whether these principles are just aspirations or can be delivered. I believe that they are principles that can be delivered by the Assembly if we all share in the responsibility of putting theory into practice.

*A vote was held by show of hands.  
Motion adopted.*

**Y Llywydd:** Yr ydym yn dod at yr eitem olaf ar yr agenda heddiw, sef y ddadl fer. Yr wyf yn ymwybodol ein bod ni wedi rhedeg ychydig yn hwyr a gofalwn am hynny wrth amseru'r ddadl fer.

Mae David Davies wedi bod yn llwyddiannus yn y ddadl ac wedi gosod gerbron cynnig ynglŷn â safle'r Gymraeg yn Sir Fynwy, yn galw ar y Cynulliad i gydnabod galwadau'r cyhoedd bod y Gymraeg i'w hystyried yn ddewisol yng Nghyfnod Allweddol 4. A gaf fi atgoffa Aelodau mai dadl yw hon rhwng yr Ysgrifennydd Cynulliad Rosemary Butler a'r Aelod llwyddiannus yn y ddadl. O dan Reol Sefydlog Rhif 6.37, ni chaniateir ymyrraeth gan Aelodau yn araith yr Aelod llwyddiannus yn y ddadl, ac eithrio pan mae'r Aelod

cytuno—a set o werthoedd a'u cymhwyso at ein gwaith o ddydd i ddydd yn sialens bwysig a mwy difrifol nag y mae llawer wedi sylweddoli o bosibl. Cael partneriaeth o fewn y Siambr hon, gyda'n partneriaid yng Nghymru a rhwng y Cynulliad a Whitehall a San Steffan yw hanfod datganoli.

Gobeithio y gallwn symud tuag at werthoedd cytunedig. Gobeithio y gallwn gytuno â'r hyn a welodd Peter Black yn ymadroddion teg; nid eu rhoi o'r neilltu yn bentwr, ond dweud eu bod yn ymadroddiad teg y byddwn yn eu cymhwyso'n ymarferol yn ein gwaith o ddydd i ddydd fel Cynulliad. Boed hynny'n fater o weithredu ar ddatblygu cynaliadwy, neu drafod gyda chynhadledd ar ddatblygu cynaliadwy sydd wedi cynnig cyfres o bwyntiau ymarferol i'w gweithredu gan y Cynulliad, mae'n ymwneud â rhannu cyfrifoldebau a phenderfynu, a rhoi ar waith yr egwyddorion partneriaeth a gyflwynwyd yn y ddadl yr wythnos diwethaf.

Yr wyf yn falch os yw'r ddadl hon wedi codi cwestiynau ac wedi peri i bobl ofyn ai dyheadau'n unig yw'r egwyddorion hyn, neu a ellir eu cyflawni. Credaf eu bod yn egwyddorion y gall y Cynulliad eu cyflawni os rhannwn y cyfrifoldeb o droi damcaniaeth yn ffaith.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.  
Derbyniwyd y cynnig.*

**The Presiding Officer:** We come to the last item on the agenda today, which is the short debate. I am conscious that we have run a little late and I will bear that in mind when we time the debate.

David Davies has been successful in the ballot and has tabled a motion about the status of Welsh in Monmouthshire, calling on the Assembly to recognise the public demand for Welsh to be deemed optional at Key Stage 4. May I remind Members that this debate is between the Assembly Secretary Rosemary Butler and the Member successful in the ballot. Under Standing Order No. 6.37, no interventions by Members are permitted to the successful Member's speech apart from when that Member has had

hwnnw neu honno wedi cael caniatâd blaenorol i siarad. O dan y Rheolau Sefydlog mae unrhyw ymyrraeth yn y ddadl i ddigwydd yn ystod cyfnod yr Ysgrifennydd Cynulliad yn ateb. Gellir caniatáu i Aelodau eraill siarad yn unig drwy gydsyniad naill ai'r Ysgrifennydd Cynulliad neu David Davies.

prior permission to speak. Under the Standing Orders, any intervention in the debate should occur during the Assembly Secretary's reply. Other Members can only be allowed to speak by leave of the Assembly Secretary or David Davies.

## **Dadl Fer Short Debate**

### **Y Gymraeg yn Sir Fynwy Welsh in Monmouthshire**

**David Davies:** I am delighted to take part in this second short debate, although I am reminded of Rhodri Glyn Thomas's words who said earlier that for there to be a debate more than one person needs to contribute. Accordingly, I accept what the Presiding Officer has just said, and I extend to you all an open invitation to intervene, because I would like this to be a real discussion, with points of view from Members of all parties.

**David Davies:** Yr wyf yn falch iawn o gymryd rhan yn yr ail ddadl fer, er fy mod yn cael f'atgoffa o eiriau Rhodri Glyn Thomas, a ddywedodd yn gynharach bod rhaid cael cyfraniad gan fwy nag un i gael dadl. Yn unol â hynny, derbynïaf yr hyn y mae'r Llywydd newydd ei ddweud, ac estynnaf wahoddiad agored ichi oll i ymyrryd, oherwydd fe hoffwn i hon fod yn drafodaeth wirioneddol, gyda safbwyntiau Aelodau o'r holl bleidiau.

**The Presiding Officer:** Order. That is not exactly what I had in mind. I hope it does not set a precedent. Is David Davies allowing all Members to intervene in his speech?

**Y Llywydd:** Trefn. Nid dyna oedd gennyf mewn golwg yn union. Gobeithio nad yw hynny'n gosod cynsail. A yw David Davies am ganiatáu i'r holl Aelodau ymyrryd yn ei araith?

**David Davies:** I invite any Member to rise and, where practicable, I will allow him or her to intervene. I will be judged on that afterwards. I intend to give a fair shot to Members of all parties. If that sets a precedent, then that is a wonderful thing because I believe in debates.

**David Davies:** Gwahoddaf unrhyw Aelod i godi a, lle bo modd, byddaf yn caniatáu iddo ef neu hi ymyrryd. Caf fy marnu ynghylch hynny wedyn. Bwriadaf roi cyfle teg i Aelodau o bob plaid. Os yw hynny'n gosod cynsail, mae hynny'n beth ardderchog oherwydd yr wyf yn credu mewn dadlau.

**The Presiding Officer:** All debates in this Chamber have to occur within Standing Orders. It would be helpful if Members understood Standing Orders. That does not seem always to be the case when we come to short debates.

**Y Llywydd:** Rhaid i'r holl ddadleuon yn y Siambr hon ddigwydd o fewn y Rheolau Sefydlog. Byddai o gymorth pe bai'r Aelodau yn deall y Rheolau Sefydlog. Nid yw hynny i'w weld yn wir bob tro pan ddeuwn at y dadleuon byr.

**David Davies:** The motion before us is that this Assembly resolves to recognise the public demand in Monmouthshire for Welsh to be deemed optional at Key Stage 4. Perhaps I should say what this motion is not, because there seems to be some

**David Davies:** Y cynnig sydd ger ein bron yw bod y Cynulliad hwn yn penderfynu cydnabod y galw cyhoeddus yn Sir Fynwy ar i'r Gymraeg gael ei hystyried yn ddewisol yng Nghyfnod Allweddol 4. Efallai y dylwn egluro'r hyn nad yw'r cynnig hwn, oherwydd

misunderstanding. This is certainly not an attack on the Welsh language. In fact, most of my ancestors, back as far as the eleventh century, were Welsh-speaking. Among them was Hywel Dda, the man who set up the first Assembly. He would be happy with my views on the Assembly, but he would spin in his grave if he thought I was attacking the Welsh language.

This motion is not an attack on the Welsh language. It is a call for a common-sense approach to encouraging Welsh in what is, and should be recognised as, an anglicised area where only 2 per cent of the population speak Welsh. I simply call for recognition that Wales is a diverse place and that what is suitable in one area is not necessarily suitable in another. I heard the Member for Cardiff South and Penarth, who has sadly left the Chamber, talking earlier—sorry, I mean the Member for Cardiff West.

5:08 p.m.

**The Presiding Officer:** Order. There are no Members for Cardiff West in this Chamber.

**David Davies:** Well, whatever he is, he was talking about the last Government, and he mentioned the last Government's—*[Interruption.]*

**The Presiding Officer:** Order. I will try to explain this. There are many Members for many constituencies and we do not differentiate in the Chamber between list and constituency Members. Cardiff West has more than one Member. The one you referred to is indeed the constituency Member for Cardiff West.

**David Davies:** I will clarify: I heard Rhodri Morgan talking earlier about the last Government. I was delighted to hear him mention and, by inference, praise the last Government for its positive approach towards the Welsh language. We have moved on; we are in an era, so we are told, of a more self-confident Wales. We have an Assembly

fe ymddengys bod peth camddealltwriaeth. Yn sicr, nid yw hyn yn ymosodiad ar yr iaith Gymraeg. Mewn gwirionedd, yr oedd y rhan fwyaf o'm hynafiaid, mor bell yn ôl â'r unfed ganrif ar ddeg, yn Gymraeg eu hiaith. Yn eu plith yr oedd Hywel Dda, y gŵr a sefydlodd y Cynulliad cyntaf. Buasai'n fodlon a'm barn ar y Cynulliad, ond byddai'n troi yn ei fedd pe bai'n meddwl fy mod yn ymosod ar yr iaith Gymraeg.

Nid ymosodiad ar yr iaith Gymraeg yw'r cynnig hwn. Mae'n alwad am ymagwedd synhwyrol at hybu'r Gymraeg mewn ardal seisnigeiddiedig, a ddylai gael ei chydabod felly, lle nad oes ond 2 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Galwaf am gydnabod bod Cymru'n lle amrywiol ac nad yw'r hyn sydd yn addas mewn un ardal yn addas o reidrwydd mewn un arall. Fe glywais yr Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth, sydd wedi gadael y Siambr, gwaetha'r modd, yn siarad yn gynharach—mae'n ddrwg gennyf, yr Aelod dros Orllewin Caerdydd yr oeddwn yn ei feddwl.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid oes Aelodau dros Orllewin Caerdydd yn y Siambr hon.

**David Davies:** Wel, beth bynnag ydyw, yr oedd yn siarad am y Llywodraeth ddiwethaf, a soniodd am ei—*[Torri ar draws.]*

**Y Llywydd:** Trefn. Fe geisiaf egluro hyn. Mae llawer o Aelodau dros lawer o etholaethau ac nid ydym yn gwahaniaethu yn y Siambr hon rhwng Aelodau rhestr ac Aelodau etholaeth. Mae gan Orllewin Caerdydd fwy nag un Aelod. Yr un yr oeddech yn cyfeirio ato yw'r Aelod etholaeth dros Orllewin Caerdydd.

**David Davies:** Fe egluraf: clywais Rhodri Morgan yn sôn yn gynharach am y Llywodraeth ddiwethaf. Yr oeddwn yn falch iawn o'i glywed yn sôn a, drwy awgrym, yn canmol y Llywodraeth ddiwethaf am ei hagwedd gadarnhaol at yr iaith Gymraeg. Yr ydym wedi symud ymlaen; yn ôl yr hyn a ddywedir wrthym, yr ydym mewn oes pryd y

in which to debate Welsh matters. It is right that in that climate we look in more detail at the Welsh Language Act 1993 and how it applies to us. It is worth pointing out that the last Act exempted certain schools, including schools in Monmouthshire, allowing them to opt out of teaching Welsh as a compulsory subject at Key Stage 4.

The last Government, had it been re-elected, would have recognised the mood of people in Monmouthshire and would have extended that opt-out. It was in its power to do so, and I believe that is what it would have done. Unfortunately, as Members are aware, the present Government has decided that all schools will teach Welsh as a compulsory subject for Key Stage 4 pupils from next September. That has created problems in the more anglicised areas of Wales, particularly Monmouthshire.

**Gareth Jones:** Yr ydych yn trin a thrafod pwynt holl bwysig. Mae unrhyw beth sydd yn achosi i rieni bryderu am addysg eu plant yn rhywbeth y mae'n rhaid inni ei gymryd o ddifrif. Nid oes dwywaith am hynny. Byddai'n gas gennyf feddwl bod un rhan o Gymru, sydd mor bwysig i bob un ohonom, yn teimlo fel hyn. Efallai nad ydych yn cytuno â mi. Yr ydym wedi clywed sawl gwaith y prynhawn hwn bod yr ysgolion hyn yn Sir Fynwy, ac eraill yn y gororau, wedi cael caniatâd bum mlynedd yn ôl, efallai mwy, i baratoi ar gyfer yr amser hwn, pan ddylent gynnwys y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4 yn y cwricwlwm.

Yr ydych yn dweud bod problemau yn awr. Yr oedd problemau bum neu saith mlynedd yn ôl. Dyna pam y cawsant yr amser i baratoi. Yr wyf yn dweud, yn ddi-flewyn ar dafod, pe bai unrhyw sefydliad—ysgolion yn yr achos hwn—wedi cael pump i saith mlynedd i baratoi, a fydddech yn derbyn ei fod yn feirniadaeth ar y rheolaeth yn y sefydliad hwnnw? Y mae hefyd yn feirniadaeth ar eu diffyg cydweithrediad a chydymdeimlad â sefyllfa'r Gymru gyfoes, ac yn ddiffyg

mae Cymru'n fwy hunanhyderus. Mae gennym Gynulliad lle y byddwn yn trafod materion Cymreig. Mae'n briodol, yn yr hinsawdd honno, y dylem edrych yn fanylach ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r modd y mae'n ymwneud â ni. Mae'n werth nodi bod y Ddeddf ddiwethaf eithrio rhai ysgolion, gan gynnwys ysgolion yn Sir Fynwy, gan ganiatáu iddynt ddewis peidio dysgu Cymraeg fel pwnc gorfodol yng Nghyfnod Allweddol 4.

Byddai'r Llywodraeth ddiwethaf, pe cawsai ei hailethol, wedi cydnabod barn pobl yn Sir Fynwy ac wedi ehangu'r gallu i eithrio. Yr oedd ganddi'r pŵer i wneud hynny, a chredaf mai dyna a fuasai wedi gwneud. Gwaetha'r modd, fel y gŵyr yr Aelodau, mae'r Llywodraeth bresennol wedi penderfynu y bydd pob ysgol yn dysgu Cymraeg fel pwnc gorfodol i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 o fis Medi nesaf. Mae hynny wedi creu problemau yn y rhannau mwyaf seisnigeiddiedig o Gymru, yn enwedig Sir Fynwy.

**Gareth Jones:** You raise a very important point. Anything that causes parents concern about their children's education is something that we should take seriously. There is no doubt about that. I would hate to believe that one part of Wales, which is so important to all of us, feels like this. Perhaps you do not agree with me. We have heard several times this afternoon that these schools in Monmouthshire, and others in the borders, had permission five or more years ago to prepare for this time when they should include Welsh at Key Stage 4 in the curriculum.

You say that there are problems now. There were problems five or seven years ago. That was why they were given time to prepare. I state frankly that if any establishment—schools in this case—had had five to seven years to prepare, would you accept that it is a criticism of the management of that establishment? It is also a criticism of their lack of co-operation and sympathy with the situation in contemporary Wales, and a lack of vision on their part. There is insufficient

gwledigaeth ar eu rhan. Mae diffyg cynllunio a bai ar y rheolwyr a'r arweinwyr yn yr ysgolion hynny.

**David Davies:** I do not accept any criticism of the governors and managers at those schools in Monmouthshire. They have worked very hard to overcome a great deal of prejudice about the compulsory teaching of Welsh. They have gone very far. I argue that they should be listened to. They still have a problem implementing the compulsory teaching of Welsh. I call on Assembly Members to recognise and accept that there are still problems and allow the opt-out to continue.

**Rod Richards:** Is it not the case, following the point made by the Member for somewhere in north Wales—

**Y Llywydd:** Gareth Jones yw enw'r dyn, fel y gwyddoch.

**Rod Richards:** I assure you that that omission was not deliberate; Gareth Jones' name just did not come to mind. Does David Davies recognise that there are many schools in Monmouthshire that were able to comply with the Education Act 1988 but that it is difficult to recruit Welsh teachers? Is it also not the case that many primary schools in Monmouthshire recruit teachers to teach Welsh who are themselves Welsh learners at this time?

**David Davies:** That is true. Anyone who speaks to teachers or headteachers in Monmouthshire will find that recruitment is one of the biggest problems. I spoke recently to one headteacher who had spent £4,000 advertising for a Welsh teacher. He only had one applicant, an unqualified teacher with a GCSE grade B in Welsh. I am confident that all those currently employed as Welsh teachers in Monmouthshire are of the highest possible standard, but the fact remains that bringing Welsh speakers into an area like Monmouthshire is not easy. In the Business Committee this morning, one of the civil servants mentioned that even they were finding it difficult to recruit Welsh speakers to the Assembly. Another problem is that

planning and the governors and the leaders in those schools are to blame.

**David Davies:** Nid wyf yn derbyn unrhyw feirniadaeth ar y llywodraethwyr a'r rheolwyr yn yr ysgolion hynny yn Sir Fynwy. Maent wedi gweithio'n galed iawn i oresgyn llawer iawn o ragfarn ynghylch dysgu gorfodol ar y Gymraeg. Maent wedi mynd yn bell iawn. Fy nadl i yw y dylid gwrando arnynt. Mae ganddynt broblem o hyd wrth weithredu dysgu gorfodol ar y Gymraeg. Galwaf ar Aelodau'r Cynulliad i gydnabod a derbyn bod problemau o hyd a pharhau i ganiatáu eithrio.

**Rod Richards:** Onid yw'n wir, gan ddilyn y pwynt a wnaed gan yr Aelod dros rywle yng ngogledd Cymru—

**The Presiding Officer:** Gareth Jones is his name, as you know.

**Rod Richards:** Yr wyf yn eich sicrhau nad oeddwn wedi hepgor ei enw yn fwriadol; nid oedd enw Gareth Jones yn dod i'r meddwl. A yw David Davies yn cydnabod bod llawer o ysgolion yn Sir Fynwy oedd yn gallu cydymffurfio â Deddf Addysg 1988 ond ei bod yn anodd recriwtio athrawon Cymraeg? Onid yw hefyd yn wir bod llawer o ysgolion cynradd yn Sir Fynwy yn recriwtio athrawon i ddysgu Cymraeg sydd hwythau'n ddysgwyr Cymraeg ar hyn o bryd?

**David Davies:** Mae hynny'n wir. Bydd rhywun sydd yn siarad ag athrawon neu brifathrawon yn Sir Fynwy yn canfod mai recriwtio yw un o'r problemau mwyaf. Siaredais yn ddiweddar ag un prifathro sydd wedi gwario £4,000 ar hysbysebu am athro Cymraeg. Dim ond un ymgeisydd a gafodd, sef athro heb gymhwyster â TGAU gradd B yn y Gymraeg. Yr wyf yn sicr bod pawb a gyflogir ar hyn o bryd fel athrawon Cymraeg yn Sir Fynwy o'r safon uchaf posibl, ond fe erys y ffaith ei bod yn anodd dod â siaradwyr Cymraeg i ardal fel Sir Fynwy. Yn y Pwyllgor Busnes fore heddiw, dywedodd un o'r gweision sifil eu bod hwythau hyd yn oed yn ei chael yn anodd i recriwtio siaradwyr Cymraeg i'r Cynulliad. Problem arall yw bod

headteachers, because of the curriculum demands, want teachers to teach other subjects as well as Welsh. Teachers need to develop a wide range of skills. If the standard of Welsh teachers applying for jobs is generally low, that puts headteachers in a difficult position.

**Cynog Dafis:** Yr wyf am wybod ai'r broblem recriwtio yn unig sydd yn eich poeni? Pe bai digon o athrawon ar gael, a fyddai gennych unrhyw wrthwynebiad neu a ydych yn mynnu ar yr egwyddor bod Sir Fynwy yn cael ei heithrio o'r gofyniad yn y cwricwlwm cenedlaethol? Os felly, pa rannau eraill o Gymru a ddylai gael eu heithrio o ba rannau eraill o'r cwricwlwm?

**David Davies:** Recruitment is one of the practical problems. I am, at the moment, not in favour, in principle, of the compulsory teaching of Welsh up until the age of 16. I could be persuaded to change my mind if I felt that the mood of the county had changed. At the moment, the mood of the county is clear, for very practical reasons, of which recruitment is just one. I would give more reasons, but I can see that the leader of the Liberal Democrats is keen to speak.

**Michael German:** Many people told me when I was campaigning in Monmouthshire that it was not the compulsory nature of Welsh that worried them, but rather that they were being excluded from learning other languages. Do you agree with me and with the research that says learning one language assists the learning of others? Is it not important that people should be able to address companies in the language that they speak? Is not Wales's future, just as is Catalonia's, in trilingualism and beyond? We should establish Wales as a centre for language learning and seek to raise standards, not lower them as you do by lowering your horizons. We should make Wales first in languages. When will you stop playing with naked prejudice and develop a principled approach to this matter?

Je crois que c'est possible d'apprendre plusieurs langues. C'est importante pour l'économie de tout le monde.

prifathrawon, oherwydd gofynion y cwricwlwm, yn dymuno i athrawon ddysgu pynciau eraill hefyd yn ogystal â'r Gymraeg. Mae angen i athrawon ddatblygu amrediad eang o fedrau. Os yw safon yr athrawon Cymraeg sydd yn ymgeisio am swyddi yn isel ar y cyfan, mae hynny'n rhoi prifathrawon mewn lle anodd.

**Cynog Dafis:** I want to know whether it is solely the recruitment which bothers you? If there were sufficient teachers available, would you have any objection or do you insist on the principle that Monmouthshire be exempted from this requirement in the national curriculum? If so, which other parts of Wales should be exempted from which other parts of the curriculum?

**David Davies:** Recriwtio yw un o'r problemau ymarferol. Ar hyn o bryd, nid wyf o blaid dysgu gorfodol ar y Gymraeg hyd at 16 oed, o ran egwyddor. Gellid fy mherswadio i ailfeddwl pe bawn yn teimlo bod barn y sir wedi newid. Ar hyn o bryd, mae barn y sir yn eglur, am resymau ymarferol iawn, a recriwtio yn un ohonynt. Fe rown fwy o resymau, ond gwelaf fod arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn awyddus i siarad.

**Michael German:** Dywedodd llawer o bobl wrthyf, pan oeddwn yn ymgyrchu yn Sir Fynwy, nad natur orfodol y Gymraeg oedd yn eu poeni, ond yn hytrach eu bod yn cael eu nacáu rhag dysgu ieithoedd eraill. A ydych yn cytuno â mi a gyda'r ymchwil sydd yn dweud bod dysgu un iaith yn gymorth i ddysgu eraill? Onid yw'n bwysig y dylai pobl allu cysylltu â chwmnïau yn yr iaith a siaredir ganddynt? Onid mewn tairieithrwydd a'r tu hwnt i hynny y mae dyfodol Cymru, fel yng Nghatalwnia? Dylem sefydlu Cymru yn ganolfan ar gyfer dysgu ieithoedd a cheisio codi safonau, nid eu gostwng fel yr ydych chi drwy gyfyngu ar eich gorwelion. Dylem roi Cymru ar y blaen ym maes ieithoedd. Pa bryd y byddwch yn rhoi'r gorau i chwarae â rhagfarn noeth a datblygu ymagwedd egwyddorol at y mater hwn?

Creo que es posible aprender muchas lenguas. Es importante para la economía de todos los países.

Jo crec ques util aprend diferents llenguas. Ja que es important per la economia de tot el mon.

And I am sure that David will know what I have said.

Mae'n bosibl dysgu llawer o ieithoedd. Mae'n bwysig ar gyfer economi pob gwlad. It is possible to learn many languages. It is important for the economy of every country.

**David Davies:** Perhaps if the leader of the Liberal Democrats would give me the benefit of his copious notes then I would know what he has said. In the interests of consensus, which he is not currently showing to me, I will take up just one point.

**David Davies:** Efallai, pe bai arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gadael imi fanteisio ar ei nodiadau helaeth, y gallwn wybod beth y mae newydd ei ddweud. Er mwyn consensws, nad yw'n ei ddangos i mi ar hyn o bryd, fe ddilynaf un pwynt.

I accept that teaching languages to children at an early age will help them become proficient in learning different languages. That is not an issue, because Welsh is already taught at junior school level up until Key Stage 4, and I have no problem with that. I am not trying to stop that, but simply saying that by the time children have reached the important age of Key Stage 4, at 14 usually, they should be able to make an informed choice for themselves.

Derbyniaf fod dysgu ieithoedd i blant mewn oed cynnar yn eu helpu i ddod yn rhugl wrth ddysgu gwahanol ieithoedd. Nid dyna sydd dan sylw, oherwydd mae'r Gymraeg eisoes yn cael ei dysgu ar lefel ysgol gynradd a hyd at Gyfnod Allweddol 4, ac nid yw hynny'n peri unrhyw broblem i mi. Nid wyf yn ceisio atal hynny, dim ond dweud y dylai plant, erbyn cyrraedd oedran pwysig Cyfnod Allweddol 4, yn 14 oed fel arfer, gael gymryd dewis yn wybodus drostynt hwy eu hunain.

5:18 p.m.

**Alun Cairns:** David Davies makes a valid point. We should encourage people, and not force them.

**Alun Cairns:** Mae David Davies wedi gwneud pwynt dilys. Fe ddylem annog pobl, ac nid eu gorfodi.

Annog pobl yw'r peth pwysicaf yn hytrach na'u gorfodi mewn rhai mannau o Gymru. Yn sgîl polisiau'r Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf, mae'r sylfaen yn iawn. Mae'r sylfaen wedi ei chreu er mwyn annog pobl yng Nghyfnod Allweddol 4 i symud ymlaen i ddewis dysgu'r iaith. Mae rhai problemau ymarferol yn codi o ran denu pobl i addysgu'r iaith.

Encouraging people is the most important thing and it should not be made mandatory in some parts of Wales. Due to the policies of the last Conservative Government, the correct foundation has been laid. That foundation encourages people in Key Stage 4 to choose to learn the language. However, there are some practical problems in attracting people to teach the language.

**David Davies:** That was a helpful intervention. I would like to return to what Michael German said about modern languages. One of my practical concerns is that making children take a compulsory Welsh lesson at 14 is discouraging them from continuing with other modern languages.

**David Davies:** Yr oedd yr ymyriad hwnnw o gymorth. Hoffwn fynd yn ôl at yr hyn a ddywedodd Michael German am ieithoedd modern. Un o'm pryderon ymarferol yw bod gorfodi plant i gymryd gwers Gymraeg yn 14 oed yn eu hanghefnogi rhag parhau â ieithoedd modern eraill. Mae diwylliant yn

Culture is very important in Wales. However, we must remember that we are part of a wider world. We are trying to export all over Europe, and it is important that, as well as having a large number of Welsh speakers, we also have large numbers that can speak other languages.

**Rhodri Glyn Thomas:** Fe ddechreuodd David drwy ddweud mai'r broblem yn ei etholaeth ef oedd problem recriwtio athrawon. Mae wedi symud oddi wrth hynny yn awr, gan ddadlau y dylid rhyddhau pobl rhag yr angen i astudio Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4 er mwyn gwneud pob math o bethau eraill. A yw'n dadlau mai problem arbennig i'w etholaeth ef ym Mynwy yw hon, neu a yw'n dadlau y dylid rhyddhau pobl drwy Gymru gyfan rhag y cyfrifoldeb, sydd yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, i ddysgu Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4? Os ydyw, pa bynciau eraill y dylid caniatáu i bobl ymryddhau oddi wrthynt yng Nghyfnod Allweddol 4? Onid oes dadl wedyn dros ymryddhau oddi wrth bob pwnc yng Nghyfnod Allweddol 4 er mwyn caniatáu i'r disgyblion astudio pob math o bethau, neu hyd yn oed fynd allan i chwarae yn hytrach nag astudio yn yr ysgol?

**David Davies:** I can only conclude that my friend was not listening to what I said or that he did not read the motion. I am clearly talking about Monmouthshire and about specific problems in Monmouthshire. I believe in diversity, and I do not suggest for one minute that what I propose for Monmouthshire is right for other parts of Wales. Having Assembly Members who understand their areas is a positive thing because it allows them to reflect the views of their area accurately. I simply reflect the view of people in Monmouthshire, which I happen to hold. I would not propose to tell you what is right for your constituency. I do not limit myself to one reason; I give you a number of reasons because this is a strong argument. If you listen to me I will give you a few more.

**John Marek:** This problem is relevant to my constituency in Wrexham. By Key Stage 4, a

bwysig iawn yng Nghymru. Fodd bynnag, rhaid inni gofio ein bod yn rhan o fyd ehangach. Yr ydym yn ceisio allforio i bob rhan o Ewrop, ac mae'n bwysig bod gennym nifer fawr sydd yn gallu siarad ieithoedd eraill, yn ogystal â nifer fawr sydd yn medru'r Gymraeg.

**Rhodri Glyn Thomas:** David began by saying that the problem in his constituency was one of teacher recruitment. He is now arguing that people should be released from the need to study Welsh in Key Stage 4 so that they can do all manner of other things. Is he arguing that this is a problem particular to his constituency in Monmouthshire or does he think that people throughout Wales should be released from the responsibility to learn Welsh in Key Stage 4, which is part of the National Curriculum? If so, which other subjects should people be released from studying in Key Stage 4? Is there not an argument to release people from every subject in Key Stage 4 to allow pupils to study all manner of things and even perhaps go out to play, rather than study at school?

**David Davies:** Ni allaf ond credu nad oedd fy nghyfaill yn gwrandao ar yr hyn a ddywedais neu nad yw wedi darllen y cynnig. Mae'n amlwg fy mod yn siarad am Sir Fynwy ac am broblemau penodol yn Sir Fynwy. Credaf mewn amrywiaeth, ac nid wyf yn awgrymu am funud bod yr hyn a gynigiau ar gyfer Sir Fynwy yn briodol mewn rhannau eraill o Gymru. Mae cael Aelodau o'r Cynulliad sydd yn deall eu hardaloedd yn rhywbeth cadarnhaol oherwydd mae'n caniatáu iddynt adlewyrchu barn eu hardal yn gywir. Nif wyf ond yn adlewyrchu barn pobl yn Sir Fynwy, yr wyf yn digwydd credu ynddi. Ni fyddwn yn mentro dweud wrthyech beth sydd yn iawn i'ch etholaeth chi. Nid wyf yn cadw at un rheswm; yr wyf yn rhoi nifer o resymau i chi am fod hon yn ddadl gref. Os gwrandewch arnaf fe roddaf ragor.

**John Marek:** Mae'r broblem hon yn berthnasol i'm hetholaeth i yn Wrecsam.

substantial proportion of parents bus their children into England. We have some hard thinking to do if we want to unify the country, and wish every child to be fluent in Welsh and English. There is no obvious solution. Encouragement is better than prescription. However, I have no solution at the moment and this subject should be considered carefully to see if there is a way—through encouragement—that we can get 100 per cent of children learning Welsh up to Key Stage 4. It is a serious problem and, unless it is solved, a substantial proportion of children from the border counties will travel to England for their education. That cannot be good for Wales.

**David Davies:** You have hit one of the nails on the head. Do we want our children to be taught Welsh or do we want them to learn Welsh? If I may sum up, I am aiming for a system that allows us to have smaller class sizes, and teachers will find it much easier to teach pupils who are motivated to learn. These children are more likely to go on to do A-levels, and to study at University, learning Welsh, and eventually making a significant contribution to public life in Wales. That must be a better system.

Under the current system, around two thirds of children going on to study Welsh at GCSE level in border areas like Monmouthshire simply do not wish to do so. I say to everyone here that if you allow Welsh to develop by encouragement, you will reduce the resentment that is sometimes felt in these border areas. That resentment exists and, as an Assembly Member for Monmouth, my job is to help bring Welsh and non-Welsh speakers together to eliminate those resentments and not to drive a wedge between them.

Finally, I urge you all to reconsider the motion because it is about recognising the wishes of people in Monmouthshire. In my campaign I made an issue of the Welsh language, the cost of the Assembly and the constitution. I spoke about these things on

Erbyn Cyfnod Allweddol 4, bydd cyfran helaeth o'r rhieni yn bysio eu plant i Loegr. Mae yna waith meddwl caled o'n blaen os ydym am uno'r wlad, ac yn dymuno i bob plentyn fod yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg. Nid oes ateb amlwg. Mae annog yn well na rhagnodi. Fodd bynnag, nid oes gennyf ateb ar hyn o bryd a dylid ystyried y pwnc hwn yn ofalus i ganfod a oes modd—drwy anogaeth—i gael 100 y cant o'r plant i ddysgu Cymraeg hyd at Gyfnod Allweddol 4. Mae'n broblem ddifrifol ac, os na cheir ateb iddi, bydd cyfran helaeth o'r plant yn siroedd y gororau yn teithio i Loegr i dderbyn eu haddysg. Ni all hynny fod o les i Gymru.

**David Davies:** Yr ydych wedi taro un o'r hoelion ar ei phen. A ydym am i'n plant gael gwersi Cymraeg ynteu a ydym am eu gweld yn mynd ati i ddysgu Cymraeg? Os gallaf grynhoi, yr wyf yn anelu at system sydd yn caniatáu inni gael meintiau dosbarth llai, a bydd athrawon yn ei chael yn haws o lawer i ddysgu disgyblion sydd â'r cymhelliant i ddysgu. Mae'r plant hyn yn fwy tebygol o fynd ymlaen i wneud Lefel A, ac astudio yn y Brifysgol, gan ddysgu Cymraeg, a chyfrannu'n sylweddol yn y pen draw at fywyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae hon yn sicr o fod yn system well.

O dan y system bresennol, mae tua dwy ran o dair o'r plant sydd yn mynd ymlaen i astudio Cymraeg ar lefel TGAU yn ardaloedd y gororau fel Sir Fynwy yn gwneud hynny'n groes i'w dymuniad. Dywedaf i bawb yma, os caniatewch i'r Gymraeg ddatblygu drwy anogaeth, byddwch yn lleihau'r drwgdeimlad a deimlir weithiau yn ardaloedd y gororau. Mae'r drwgdeimlad hwnnw'n bod ac, fel Aelod Cynulliad dros Sir Fynwy, fy ngwaith i yw helpu i ddod â siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg at ei gilydd i ddileu'r drwgdeimlad a pheidio â gyrru hollt rhyngddynt.

Yn olaf, yr wyf yn eich annog bob un i ailystyried y cynnig oherwydd mae'n ymwneud â chydabod dymuniadau pobl Sir Fynwy. Y materion a godais yn fy ymgyrch etholiadol oedd yr iaith Gymraeg, cost y Cynulliad a'r cyfansoddiad. Siaredais am y

every doorstep, in every public meeting, in my leaflet. People knew what they were getting when they voted for David Davies.

The majority of people in Monmouthshire share my concern about this issue, which is why they voted on it. I urge the Assembly, even if it disagrees with what I say, to recognise that people in that county have a valid point of view and to support this motion.

**Rosemary Butler:** Those who do not know David will realise that he has quite an inimitable debating style. He has talked about self-confidence for the nation. He certainly has enough self-confidence and will hopefully spread it around.

There have been some excellent points in this debate on curriculum in general and David said there were several points he wished to make but I only picked up on one that I will cover in my answer.

I welcome this opportunity to explain the Government's policy for teaching Welsh in schools. The Welsh language is one of the most remarkable features of Welsh culture and identity. It has survived and flourished under all manner of difficult circumstances and is enjoying a remarkable resurgence in recent years. The heartening feature of this resurgence is that it is found in all corners of Wales—not just in those areas traditionally thought of as Welsh-speaking. Thankfully, in recent years, it has ceased to be a political football or a source of heated controversy. To understand how and why the teaching of Welsh now occupies the place it does in the school curriculum, we must examine how the wider curriculum was formulated and implemented. Welsh now occupies its rightful place in the school curriculum because we have consistently believed that every child in Wales should have the opportunity to learn and use the Welsh language effectively. Michael German made some good points on this matter.

During the time of the last Government, there

pethau hyn ar bob carreg drws, ym mhob cyfarfod cyhoeddus, yn fy nhaflen. Fe wyddai pobl beth yr oeddent yn ei gael wrth fwrw pleidlais dros David Davies.

Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn Sir Fynwy yn rhannu fy mhryder am y mater hwn, a dyna pam y bu iddynt bleidleisio arno. Yr wyf yn pwysu ar y Cynulliad, hyd yn oed os yw'n anghytuno â'r hyn a ddywedaf, i gydnabod bod safbwynt dilys gan bobl yn y sir honno ac i gefnogi'r cynnig hwn.

**Rosemary Butler:** Bydd y rhai nad ydynt yn adnabod David yn sylweddoli bod ganddo ddull dadlau cwbl unigryw. Fe soniodd am hunanhyder y genedl. Mae'n sicr fod ganddo ef ddigon o hunanhyder a gobeithio y bydd yn ei rannu.

Gwnaed rhai pwyntiau rhagorol yn y ddadl hon ar y cwricwlwm yn gyffredinol a dywedodd David fod sawl pwynt yr oedd am eu gwneud ond ni nodais ond un y byddaf yn cyfeirio ato yn fy ateb.

Croesawaf y cyfle hwn i egluro polisi'r Llywodraeth ar ddysgu Cymraeg mewn ysgolion. Y Gymraeg yw un o nodweddion hynotaf diwylliant a hunaniaeth Cymru. Mae wedi goroesi a ffynnu o dan bob math o amgylchiadau anodd ac mae'n profi adfywiad rhyfeddol yn y blynyddoedd diwethaf hyn. Yr agwedd galonogol ar yr adfywiad hwn yw ei fod yn digwydd ym mhob rhan o Gymru—nid yn unig yn yr ardaloedd hynny a ystyrir fel arfer yn rhai Cymraeg. Diolch byth, yn y blynyddoedd diwethaf hyn, mae wedi peidio â bod yn chwaraebeth gwleidyddol neu'n destun dadlau llosg. Er mwyn deall sut a pham y mae'r Gymraeg yn ei lle presennol yn y cwricwlwm i ysgolion, rhaid inni edrych ar y modd y cafodd y cwricwlwm ehangach ei lunio a'i weithredu. Mae'r Gymraeg bellach yn ei phriod le yn y cwricwlwm i ysgolion am ein bod wedi credu'n gyson y dylai pob plentyn yng Nghymru gael y cyfle i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol. Fe wnaeth Michael German rai pwyntiau da ar y mater hwn.

Yn ystod oes y Llywodraeth ddiwethaf, yr

was a clear cross-party commitment to make Welsh a compulsory part of the curriculum for 14 to 16-year-olds from 1999. That was the Conservative Government's commitment, which we endorsed before the 1997 General Election. This commitment was reiterated in the White Paper on Education in Wales, published in 1997.

I am more than happy to pay tribute to the constructive and sensitive way in which the issue of Welsh in schools was handled by the previous administration throughout the 1980s and 1990s. Such an approach, which we supported, contributed greatly to the successful embedding of Welsh in the school curriculum. It helped take the political heat from the issue so that the debate could concentrate on educational considerations. All pupils should have the opportunity to learn and use the language. We would all surely subscribe to that. However, it goes rather deeper than that. Successive administrations concluded that there should be continuity and progression throughout the whole period of statutory education to ensure that this commitment is a meaningful one. In other words, it should be mandatory from the ages of five to 16. I understand the depth of feeling that compulsion may engender. We must face this issue. From early consultation on whether it should be mandatory or not, the one thing that gave rise to ambivalence about or antagonism towards Welsh, was the historically random way it featured on the timetable. When the subject is taught intermittently and haphazardly, it predictably results in disheartened teachers, alienated pupils and confused parents and governors. We would not accept that in any other subject. So why should we accept that in respect of Welsh?

5:28 p.m.

oedd ymrwymiad eglur ar draws y pleidiau i wneud y Gymraeg yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ar gyfer plant 14 i 16 oed o 1999. Dyna oedd ymrwymiad y Llywodraeth Geidwadol, a gefnogwyd gennym ni cyn Etholiad Cyffredinol 1997. Ailddatganwyd yr ymrwymiad hwn yn y Papur Gwyn ar Addysg yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 1997.

Yr wyf yn fwy na bodlon talu teyrnged i'r modd adeiladol a sensitif y trafodwyd mater y Gymraeg mewn ysgolion gan y weinyddiaeth flaenorol drwy'r 1980au a'r 1990au. Yr oedd dull gweithredu o'r fath, a gefnogwyd gennym ni, wedi cyfrannu'n fawr at sefydlu'r Gymraeg yn llwyddiannus yn y cwricwlwm i ysgolion. Yr oedd yn gymorth i dynnu'r gwres gwleidyddol o'r pwnc fel y gallai'r drafodaeth ganolbwyntio ar ystyriaethau addysgol. Dylai pob disgybl gael y cyfle i ddysgu a defnyddio'r iaith. Byddai pawb ohonom yn sicr o gefnogi hynny. Fodd bynnag, mae'n mynd braidd yn ddyfnach na hynny. Daeth sawl llywodraeth ar ôl ei gilydd i'r casgliad y dylid cael parhad a chynnydd drwy'r cwbl o'r cyfnod o addysg statudol er mwyn sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn un ystyrllon. Mewn geiriau eraill, fe ddylai fod yn orfodol o bump oed i 16 oed. Yr wyf yn deall y gallai gorfodaeth greu teimladau dwfn. Rhaid inni wynebu'r mater hwn. Ers yr ymgynghori cynnar ynghylch a ddylai fod yn orfodol ai peidio, yr un peth a achosai amwysedd neu elyniaeth at y Gymraeg oedd y modd diamcan y câi ei chynnwys yn yr amserlen. Pan fydd y pwnc yn cael ei ddysgu'n ysbeidiol neu rywsut-rywsut, mae hynny'n arwain, fel y gellid disgwyl, at ddigalondid ymysg athrawon, disgyblion a ddieithriwyd a phenbleth i rieni a llywodraethwyr. Ni fyddem yn derbyn hynny yn achos unrhyw bwnc arall. Felly pam y dylem dderbyn hynny mewn perthynas â'r Gymraeg?

**Christine Humphreys:** Yr wyf yn cytuno'n llwyr â'r hyn a ddywedwyd gan yr Ysgrifennydd. Hoffwn gyfeirio at yr hyn a ddywedodd David Davies yn gynharach. Yr hyn sydd yn fy siomi yw'r agwedd negyddol a gymerwyd at yr iaith a phopeth yn ymwneud â dysgu'r iaith.

Dylai'r Cynulliad a phobl Cymru ystyried sefyllfa Mynwy fel sialens, a gobeithiaf y bydd David Davies yn ystyried y peth fel sialens gydag amser. Yr wyf yn ymwybodol bod sialens gyda staffio, ond sialens ydyw nid problem. Mae David Davies yn gweld y broblem yn hytrach na'r sialens. Mae yna hefyd sialens i'r athrawon i ddysgu'r iaith, efallai, mewn ffordd fwy diddorol, ond unwaith eto, sialens ydyw nid problem.

Mae sawl person wedi dweud bod llawer o bobl yn cael eu bysio o Gymru i Loegr, ond mae'n bwysig sylweddoli bod y gwrthwyneb yn digwydd hefyd—pobl yn teithio o Loegr i Gymru i gael addysg.

Fel dysgwraig, un egwyddor sydd gennyf ynghylch yr iaith, sef yr hyn a ddywedwyd gan rywun llawer pwysicach nag un ohonom ni yma: Gydag un iaith, mae gennym un ffenestr ar y byd; gyda dwy iaith, mae gennym ddwy ffenestr ar y byd. Os ydym am geisio creu dealltwriaeth rhwng pobl o wahanol ddiwylliannau, rhaid inni gael agwedd fwy sensitif tuag at yr iaith.

**Rosemary Butler:** Diolch yn fawr. I agree with everything you said and I want to turn now to Monmouthshire. It was always recognised that some parts of Wales would require more time to implement Welsh in the curriculum. Monmouthshire or, more accurately in those days, Gwent, was one of these areas.

In the early 90s, the local education authority proposed an extended timetable for gradual implementation in the county on a district basis. That was accepted and set out in regulations. I want to emphasise the fact that this timetable envisaged extending the teaching of Welsh to all pupils up to the age

**Christine Humphreys:** I completely agree with what the Secretary said. May I just refer to what David Davies said earlier. I was disappointed by the negative attitude that he has adopted towards the Welsh language and everything associated with learning Welsh.

The Assembly and the Welsh people should consider the situation in Monmouthshire as a challenge and I hope that, with time, David Davies will also see it as a challenge. I know there is a challenge with staffing, but it is a challenge and not a problem. David Davies sees it as a problem rather than a challenge. There may also be a challenge for teachers to teach the language in a more interesting way, but once again that is a challenge not a problem.

Many individuals have referred to people being bussed from Wales into England. It is important to realise that the reverse is also true—that people are travelling from England into Wales to be educated.

As a learner myself, I have only one principle regarding the language, expressed by someone far more important than any of us: With one language, we have one window on the world; with two languages, we have two windows on the world. If we are endeavouring to secure an understanding between people from different cultures, we must have a more sensitive attitude towards the language.

**Rosemary Butler:** Diolch yn fawr. Cytunaf â phopeth a ddywedsoch ac yr wyf am droi yn awr at Sir Fynwy. Fe gydnabyddir erioed y byddai ar rai rhannau o Gymru angen mwy o amser i weithredu Cymraeg yn y cwricwlwm. Yr oedd Sir Fynwy neu, yn gywirach yn y dyddiau hynny, Gwent, yn un o'r ardaloedd hyn.

Yn y 90au cynnar, cynigiwyd amserlen estynedig gan yr awdurdod addysg lleol er mwyn gweithredu'n raddol yn y sir ar sail ardal. Fe dderbyniwyd hynny ac fe'i nodwyd mewn rheoliadau. Yr wyf am bwysleisio'r ffaith bod yr amserlen hon yn rhagweld estyn y dysgu ar y Gymraeg i'r holl ddisgyblion

of 16 by 1999 at the latest. In other words, precisely what is happening now.

To a degree, these extended arrangements were overtaken by events. In 1994 the previous Government decided the statutory requirements for Welsh at Key Stage 4 in all schools that were not legally defined as Welsh-speaking should be deferred until 1999. The reasons for this were entirely understandable—schools needed time to prepare and pupils needed a longer exposure to Welsh at earlier key stages to make the most of the challenges at Key Stage 4. Schools were under no illusions about the changes that came into effect in September. Gareth Jones made a very valid point on this. It was clear that these changes were coming. It was equally clear that schools had a statutory duty to prepare for them.

The Welsh Office produced two framework documents in 1995 and 1997 outlining the measures that both central and local government and the agencies were taking to help and support them in that path. Two schools in Monmouthshire were outside these arrangements. These and three others in Wrexham and Flintshire were granted exceptions because of the number of pupils accepted from England, which is the point made by John Marek, but in reverse. These exemptions were not scheduled to end in 1999. However, the previous administration made it clear that they were subject to review.

The review took place during the 1997-98 academic year, and was undertaken by ACCAC. All those affected were given an opportunity to make their views known in accordance with the usual consultative requirements. Both schools argued for the status quo; however, ACCAC concluded that there were no sufficient grounds to warrant further extension of the exemptions granted in 1990.

The reasons were set out in full in the

hyd at 16 oed erbyn 1999 fan bellaf. Mewn geiriau eraill, yr union beth sydd yn digwydd yn awr.

I ryw raddau, fe fu digwyddiadau'n drech na'r trefniadau estynedig hyn. Yn 1994 fe benderfynodd y Llywodraeth flaenorol y dylid gohirio'r gofynion statudol ar gyfer y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4 hyd 1999 yn yr holl ysgolion oedd heb eu diffinio'n gyfreithiol yn rhai Cymraeg eu hiaith. Yr oedd y rhesymau dros hynny yn gwbl ddealladwy—yr oedd ar ysgolion angen amser i baratoi ac yr oedd ar y disgyblion angen mwy o brofiad o'r Gymraeg mewn cyfnodau allweddol cynharach er mwyn manteisio i'r eithaf ar y sialensau yng Nghyfnod Allweddol 4. Yr oedd yr ysgolion yn deall yn union beth oedd y newidiadau a ddaeth i rym ym Medi. Fe wnaeth Gareth Jones bwynt dilys iawn am hynny. Yr oedd yn amlwg bod y newidiadau hyn ar ddod. Yr oedd yr un mor amlwg bod dyletswydd statudol ar ysgolion i baratoi ar eu cyfer.

Cynhyrchwyd dwy ddogfen fframwaith gan y Swyddfa Gymreig yn 1995 a 1997 oedd yn amlinellu'r mesurau yr oedd llywodraeth ganol a lleol a'r asiantaethau yn eu gweithredu i'w helpu a'u cefnogi ar y llwybr hwnnw. Yr oedd dwy ysgol yn Sir Fynwy y tu allan i'r trefniadau hyn. Rhoddwyd caniatâd i eithrio i'r rhain ac i dair ysgol arall yn Wrecsam a Sir y Fflint oherwydd nifer y disgyblion a gâi eu derbyn o Loegr, sef y pwynt a wnaed gan John Marek, ond yn groes. Nid oedd yr eithriadau hyn wedi eu hamseru i ddod i ben yn 1999. Fodd bynnag, fe'i rhoddwyd ar ddeall gan y llywodraeth flaenorol eu bod yn agored i'w hadolygu.

Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod blwyddyn academaidd 1997-98, ac fe'i cyflawnwyd gan ACCAC. Rhoddwyd cyfle i bawb oedd yn gysylltiedig i ddatgan eu barn yn unol â'r trefniadau ymgynghori arferol. Yr oedd y ddwy ysgol wedi dadlau dros gadw'r sefyllfa fel yr oedd; fodd bynnag, daeth ACCAC i'r casgliad nad oedd sail ddigonol dros ganiatáu estyniad pellach ar yr eithriadau a roddwyd yn 1990.

Fe eglurwyd y rhesymau'n llawn yn yr

published report. The Secretary of State accepted ACCAC's recommendations, and regulations are now in place to put them into effect from September 1999.

This provides the backdrop for changes that will be taking place in September 1999. We are putting into effect what all parties envisaged when the National Curriculum was first introduced—that Welsh would be mandatory for all pupils aged five to 16. The educational arguments in favour of continuity and progression are equally strong today as they were when the position of Welsh in the National Curriculum was first considered.

That view is reinforced by evidence received from the Schools Inspectorate in Wales. Standards continue to rise across the key stages. In her most recent annual report, the Chief Inspector reported that in secondary schools the proportion of satisfactory or better work has increased slightly in over 90 per cent of classes and the amount of good work is significantly higher than last year, particularly at Key Stage 4. There is no reason why this momentum cannot be sustained as more and more pupils entering Key Stage 4 in September 1999 build on foundations they already have from studying Welsh all the way through from the age of five.

In view of the comprehensive planning and the considerable investment in time, effort and, importantly, financial resources that have gone into the teaching of Welsh over the last decade, to ensure optimum conditions for all schools teaching at Key Stage 4, it seems very strange to be advocating a change of course at this point.

I am particularly struck by the words of a former Education Minister at the Welsh Office. Speaking in 1995 he said:

'I am determined to see that this momentum is maintained. It is important to ensure sound foundations for the compulsory teaching of Welsh to 14 to 16-year-olds in non-Welsh speaking schools by 1999. Schools have a statutory duty to prepare themselves by then but I hope that as many as possible will offer

adroddiad a gyhoeddwyd. Derbyniwyd argymhellion ACCAC gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac mae rheoliadau wedi eu sefydlu bellach i'w gweithredu o Fedi 1999.

Dyna'r cefndir i'r newidiadau fydd yn digwydd ym Medi 1999. Yr ydym yn gweithredu'r hyn a ragwelwyd gan yr holl bleidiau pan gyflwynwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol gyntaf—sef y byddai Cymraeg yn orfodol i bob disgybl o bump i 16 oed. Mae'r dadleuon addysgol o blaid parhad a chynnydd yr un mor gryf heddiw ag yr oeddent pan ystyriwyd lle'r Gymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol gyntaf.

Fe ategir y farn honno gan dystiolaeth a dderbyniwyd oddi wrth yr Arolygwyr Ysgolion yng Nghymru. Mae'r safonau'n parhau i godi ar draws y cyfnodau allweddol. Yn ei hadroddiad blynyddol diweddaraf, fe adroddodd y Prif Arolygydd fod cyfran y gwaith boddhaol neu well mewn ysgolion uwchradd wedi codi ychydig mewn dros 90 y cant o ddisbarthiadau a bod maint y gwaith da yn uwch o lawer na'r llynedd, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4. Nid oes rheswm pam na ellir cynnal y momentwm hwn wrth i fwy a mwy o ddisgyblion sydd yn dod i Gyfnod Allweddol 4 ym Medi 1999 adeiladu ar y seiliau sydd ganddynt eisoes ar ôl astudio Cymraeg yr holl ffordd drwodd o bump oed.

Yng ngolwg y cynllunio cynhwysfawr a'r buddsoddi sylweddol ar amser, ymdrech ac, yn bwysig, adnoddau ariannol mewn dysgu Cymraeg dros y degawd diwethaf, i sicrhau'r amodau gorau posibl i'r holl ysgolion sydd yn dysgu ar Gyfnod Allweddol 4, fe ymddengys yn rhyfedd argymhell newid cyfeiriad ar yr adeg hon.

Gwnaed argraff arbennig arnaf gan eiriau cyn-Weinidog Addysg yn y Swyddfa Gymreig a ddywedodd yn 1995:

'Yr wyf yn benderfynol o weld parhad yn y momentwm hwn. Mae'n bwysig er mwyn sicrhau seiliau cadarn i ddysgu gorfodol o'r Gymraeg i rai 14 i 16 oed mewn ysgolion di-Gymraeg erbyn 1999. Mae dyletswydd statudol ar ysgolion i ymbaratoi erbyn hynny ond gobeithio y bydd cynifer â phosibl yn

Welsh to their 14 to 16-year-olds beforehand.’  
cynnig y Gymraeg i’w disgyblion 14 i 16 oed cyn hynny.’

Wise words from Rod Richards, which I commend to the Assembly.  
Geiriau doeth gan Rod Richards, ac yr wyf yn eu cymeradwyo i’r Cynulliad.

*A vote was held by show of hands.  
Motion rejected.*

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.  
Gwrthodwyd y cynnig.*

**The Presiding Officer:** Would all Members who addressed the Assembly in French, Castilian and Catalan please supply notes.  
**Y Llywydd:** A fyddai’r holl Aelodau a anerchodd y Cynulliad yn Ffrangeg, Castileg a Chatalaneg gystal â darparu nodiadau.

*Daeth y sesiwn i ben am 5.37 p.m.  
The session ended at 5.37 p.m.*